www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 509
Chwefror
2023

## Rhedeg dros Macmillan

Doedd rhedeg marathon Eryri ddim yn ddigon o her i Rhian Roberts o Waunfawr. Mae Rhian wedi gosod nod iddi hi ei hun i godi £2,500 er budd elusen Macmillan ac felly mae hi am redeg marathon Llundain ym mis Ebrill, ac mae gweithgareddau gwych wedi eu trefnu yn Waunfawr yn Chwefror a Mawrth. Trowch at Newyddion Waunfawr ar dudalen 12 i wybod mwy.






## "Cyfle a bywyd newydd"

Fuoch chi'n pendroni pa anrheg Nadolig i'w brynu i aelod o'r teulu dros y misoedd diwethaf? Mae'n siwr bod pob anrheg wedi ei dderbyn yn ddiolchgar, ond go brin bod yr un ohonynt mor werthfawr ag anrheg Louis i'w chwaer Zoe.

Cyn y Nadolig fe fu Louis a Zoe, y ddau o Fethel, yn ysbyty'r Royal yn Lerpwl ble y cafodd Zoe drawsblaniad aren yn rhodd gan ei brawd. Darllenwch eu stori ysbrydoledig yn Newyddion Bethel ar dudalen 7.

## Yn y rhifyn hwn:





- Atebion cystadleuaeth Helfa Drysor Menter Fachwen - tud 5
- Llwybrau'r Wyddfa - cyngor ar ba un i'w ddewis - tud 27
- Ymddeoliad Trysorydd - tud 4 a Gohebydd Chwaraeon - tud 31
- Eisteddfod Ysgol Brynrefail - tud 15
- Atgofion o Gwpan y Byd - tud 32






## Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU. 07798 552238
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**Ffotograffwr**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug. 01286 672221
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug. 01286 674839

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug. 01286 674839

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292

**Dylunydd**
Elgan Griffiths
post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk



# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

# Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£50 Myfanwy Harper, Fferm Ty Newydd, Llandegai er cof am Goronwy a Mair Jones, Cilan, Bethel.
£25 Di-enw, Llanberis
£10 Ieuan a Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, Bethel.
£10 Elizabeth Evans, Pen Parc, Bethel.
£10 Eurwyn a Gwenda Griffith, Y Dalar Deg gynt.
£10 Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel.
£10 Di-enw.

**Annwyl ddarllenwyr,**
**Safle treftadaeth y byd llechi Cymru: trafod twristiaeth gynaliadwy gyda phobl ifanc**

Mae grŵp o ymchwilwyr o Brifysgol Bangor yn gweithio ar brosiect sy'n ymwneud â Safle Treftadaeth y Byd UNESCO: tirwedd llechi gogledd-orllewin Cymru. Eu nod yw nodi sut mae pobl ifanc lleol yn gweld Safle Treftadaeth y Byd a beth yw eu barn amdano mewn perthynas â thwristiaeth gynaliadwy ac adfywiol. Byddant yn cynnal amrywiaeth o gyfweliadau a grwpiau ffocws i ymchwilio i nifer o gwestiynau pwysig. Bydd dysgu mwy am safbwyntiau ac agweddau'r genhedlaeth iau tuag at Safle Treftadaeth y Byd yn ein helpu i weld sut i gynyddu ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth ar gyfer pobl ifanc leol.

Maent am weithio gyda phobl ifanc sy'n byw o fewn ardaloedd Safle Treftadaeth y Byd ac a allai fod â diddordeb mewn ymuno â'n cyfweliadau neu grwpiau ffocws. Mae manteision y cyfranogiad hwn yn cynnwys:

- £15 fel iawndal am eu hymdrechion
- Gwell dealltwriaeth o'u treftadaeth a'u diwylliant lleol
- Cipolwg ar ffyrdd newydd y gallant ymgysylltu â'u hardal leol
- Cyfarfod â phobl newydd a rhannu syniadau am yr hyn y mae statws Safle Treftadaeth y Byd yn ei olygu i'w hardal
- Cymryd rhan mewn ymchwil pwysig o amgylch Safle Treftadaeth y Byd a allai effeithio ar yr ardal
- Lluniaeth (te/coffi a'r rhan orau: cacen!)

Am unrhyw wybodaeth ychwanegol am y prosiect, unrhyw adborth ar ein gwaith ac os bydd gennych ddiddordeb mewn helpu i ddod o hyd i bobl ar gyfer y cyfweliadau neu'r grwpiau ffocws neu os hoffech fod yn rhan o'r gwaith hwn fel arall, anfonwch e-bost at lnf20dhp@bangor.ac.uk neu osu8a0@bangor.ac.uk.

Yr eiddoch yn gywir,
**Leena Farhat**
**Ar ran Tîm Ymchwil, Prifysgol Bangor**



**Annwyl Banel Golygyddion,**

Hoffwn ymestyn gwahoddiad i holl ddarllenwyr yr Eco i gystadlu yn Eisteddfod Môn 2023.

**GWAHODDIAD I GYSTADLU**
Dewch ar hyd y lôn i Fôn;
dewch ar draws Y Fenai.
Dewch ynghyd i eisteddfota
ym mhrifwyl Môn ym Mai.
Dewch i gynnal cystadleuaeth
yng ngŵyl cerdd a llên.
Dewch, a'ch bwriad ar serennu
ond dewch i'n mysg â gwên.

Eleni eto, cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Môn, sydd yn cael ei chydnabod fel ail i'r Genedlaethol ac sydd wedi bod yn fagwrfa i lawer o sêr amlwg y byd adloniadol a diwylliannol Cymreig.

I barhau â'n traddodiad eisteddfodol, mae'r amrywiol bwyllgorau wedi bod yn brysur yn tynnu allan restr amrywiol o gystadlaethau fydd yn sicr o ddenu cystadleuwyr yn llu. Yn y cyfnod wedi holl brysurdeb y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, dyma'r union amser i droi at ddysgu geiriau, i ymarfer, i goleddu syniadau a chyfansoddi.

Drwy garedigrwydd cefnogwyr a charedigion yr eisteddfod, mae gwobrau hael i ymgeisio amdanynt ac fe fydd ambell gystadleuaeth yn cynnig ysgoloriaeth tuag at hyfforddiant pellach i'r enillydd. Ceir y manylion yn llawn ar www.steddfodta.cymru neu yn Rhestr y Testunau.

Diolchir ymlaen llaw am bob cefnogaeth ac os am gyfrannu tuag at y gwobrau neu unrhyw gefnogaeth arall cysyllter â'r Trefnydd: 01248 750610.

Gyda llaw, y si ddiweddaraf o'r Pwyllgorau yw bod y beirniaid i gyd yn awchu am **Ddydd Sadwrn, Mai 20fed, 2023** yn **Ysgol Uwchradd Llangefni**! Paratowch i'w cyfarfod. Byddwch yn siŵr o fwynhau'ch hun.

Yr eiddoch yn gywir,
**Ellis Wyn Roberts,**
**Trefnydd Eisteddfod Môn 2023**



# Dyddiadau i'w cofio…

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Mawrth | 10 Chwefror | 24 Chwefror |
| Ebrill | 10 Mawrth | 24 Mawrth |
| Mai | 14 Ebrill | 28 Ebrill |

**Annwyl Haf Thomas a darllenwyr Eco'r Wyddfa,**

Hoffai Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru ymestyn gair o ddiolch i Haf Thomas o Lanrug ac i ddarllenwyr yr Eco am gasglu hen stampiau i'r elusen. Rydym yn hynod ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi eich gwaith caled.

Mae'r gwaith mae Haf wedi ymgymryd ag ef yn anhygoel, ac amcangyfrifwn eich bod chi i gyd wedi casglu dros hanner miliwn o stampiau ers 2017! Mae'r ymdrechion yma wedi codi dros £4,000 at waith yr elusen.

Mae'r Gymdeithas wedi defnyddio'r arian i ddarparu offer a chyfleoedd ar gyfer plant dall a rhannol ddall sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Rydym wedi llwyddo i ariannu cyfarpar arbenigol i blant gyda cholled golwg, ac rydym wedi gallu darparu cyfrifiaduron a meddalwedd arbenigol sydd wedi galluogi'r plant i ddysgu a dod yn fwy annibynnol.

Mae hyn yn caniatáu cyfleoedd arbenigol na fyddai wedi bod yn bosibl heb eich cefnogaeth. Diolch i chi unwaith eto am eich haelioni.

**Steven Thomas**
**Prif Weithredwr**





**Annwyl ddarllenwyr yr Eco,**

Bu llythyr cyn y Nadolig yn Eco'r Wyddfa am Eglwys Llanddeiniolen, a'r ymdrechion sydd ar y gweill i gadw'r eglwys a'r fynwent ar agor, er lles parhaol y plwyfolion. Dyma newyddion pellach a diweddariad o'r hyn sydd wedi digwydd.

O'r ddau achlysur a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod cyn y Nadolig, bu'n rhaid gohirio'r Gwasanaeth Eglwysig oherwydd tywydd drwg iawn, ond aeth Cyngerdd Elvis (diolch i'r Parch Wynne Roberts) ymlaen fel ag y disgwylid. Mae gan Wynne gysylltiadau â'r Eglwys yn Llanddeiniolen ers ei ddyddiau cynnar, ac er gwaethaf y tywydd, llwyddodd i godi dros £300 ar gyfer y prosiect. Diolch i'r rhai hynny a fentrodd drwy'r tywydd i fynychu'r digwyddiad.

Y mae achlysuron a gwasanaethau ar y gweill hefyd, ar gyfer 2023. Un dyddiad ar gyfer eich dyddlyfr yw 30ain Ebrill, pan fydd 'Gwasanaeth gyda gwahaniaeth' am 5.00PM. Croeso i bawb.

Diolch hefyd i'r bobl hynny sydd wedi dangos diddordeb mewn cefnogi'r ymdrechion i gadw'r eglwys yn agored, a hefyd i'r rhai hynny sydd wedi cyfrannu.

Yn olaf, diolch mawr cyhoeddus i Mr Brian Sharpe am flynyddoedd o wasanaeth fel Trysorydd Eglwysig, wrth iddo ymddeol o'r swydd. Y mae wedi goruchwylio incwm a thaliadau cronfeydd yr Eglwys a'r Fynwent yn drylwyr; nid yn dasg hawdd iawn, ond yn un hanfodol.

* Noder os gwelwch yn dda: Os oes rhywun eisiau cefnogi a chyfrannu at y gwaith o gynnal Eglwys Llanddeiniolen, yna gallwch wneud siec yn daladwy i Eglwys Llanddeiniolen, a'i hanfon i Ms C Williams, 23 Cae Corn Hir, Hendre, Caernarfon, Gwynedd LL55 2LQ neu os ydych am gysylltu am fwy o fanylion.

Yn ddiffuant,
**Ceri Williams**



## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Crwban**. Ar ddechrau mis Rhagfyr y llynedd roedd Jonathan, crwban hynaf y byd yn dathlu ei ben-blwydd yn 190 oed. Mae'n byw ar Ynys St Helena. Cynhaliodd trigolion yr ynys barti pen-blwydd oedd yn parhau am dri diwrnod.
- **Sychder 1.** Dogni trydan yn Zambia am fod lefelau dŵr Argae Kariba wedi gostwng cymaint fel na ellid cynhyrchu digon o drydan.
- **Sychder 2**. Llyn Conchcotta, bedair mil o fetrau uwchlaw lefel y môr ym mynyddoedd yr Andes yng ngwlad Periw wedi sychu'n gyfan gwbl. Nid yw wedi glawio yno ers mis Medi'r llynedd.
- **Crefydd.** Canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos fod llai o bobl nac erioed yn cyfrif eu hunain yn Gristnogion yng Nghymru a Lloegr.
- **Cyfoeth.** Pobl Omen, pentref bychan yng Ngwlad Belg yn ennill £123 miliwn ar Loteri Ewrop. Bydd pob teulu yn y pentref yn derbyn tua £900,000 yr un.
- **Llygredd.** Ddechrau Rhagfyr y llynedd bu'n rhaid cau pob ysgol yn Sri Lanka oherwydd cyflwr yr aer. Roedd stormydd o wyntoedd cryfion wedi cario llygredd diwydiannol o India dros yr holl wlad. Bu'r ysgolion ar gau am bythefnos.
- **Smocio.** Mae nifer y bobl sy'n smocio ym Mhrydain wedi gostwng i 13% o'r boblogaeth o'i gymharu â 20% yn 2011.
- **Iaith.** Ffordd yr Orsaf, Llanrug yw'r stryd Gymreiciaf yn y byd, gyda 92% o'i thrigolion yn siarad Cymraeg.
- **Tai.** Phillimore Gardens yn Kensington, Llundain yw'r stryd ddrutaf ym Mhrydain. Mae angen o leiaf £24 miliwn arnoch i brynu'r tŷ rhataf yn y stryd – heb sôn am ei ddodrefnu wedyn.
- **Coed.** Darganfuwyd fod coed yn storio llawer mwy o garbon nac a feddyliwyd. Sganiwyd 800 o goed yn Swydd Rhydychen a dangosodd y data fod 410 tunnell o garbon yn cael ei storio ymhob hectar o goed. Mae hyn 77% yn fwy na'r amcangyfrif cynharach.
- **Siopau.** Yn ôl Canolfan Ymchwil Manwerthu roedd bron i 50 siop y diwrnod yn cau ym Mhrydain yn ystod 2022, gyda cholled o 151,000 o swyddi.
- **Sbwriel**. Mae mwy o sbwriel yng nghamlesi Prydain nac o fywyd gwyllt yn ôl Ymddiriedolaeth Afonydd a Chamlesi. Mae'n fwy tebygol gweld cwpan plastig gwag nac aderyn.

# DEINIOLEN

**Diolchiadau**
Dymuna teulu y ddiweddar Mary Cathrine Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-Bont, ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli modryb arbennig.

Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Gymdeithas y Deillion. Diolch arbennig i Meirion Jones am ei ffyddlondeb ar yr aelwyd yn Tan y Caerau, a'r caredigrwydd.

Diolch i Dylan a staff EW Pritchard am y trefniadau trylwyr a gofalus.

**Profedigaeth**
Dymuna John, Yvonne, Jack a Lois Regan ddiolch i bawb am y cardiau, negeseuon a galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur trist o golli tad, tad-yng-nghyfraith a thaid, yn 80 oed. Bu farw John Regan ar 19eg Rhagfyr yn Cartref Plas Maesincla, Caernarfon. Diolch yn fawr i bawb o'r ardal.

**Rhoddion**
Dymuna teulu'r ddiweddar Mary Cathrine Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-Bont ddiolch am y rhodd i Eco'r Wyddfa er cof amdani.

**Gweithgareddau'r pentref**
Hwb Deiniolen/Pwyllgor Pentra - cynhaliwyd panad, teisan a sgwrs yn caffi EB's ar y 10fed, 17eg a 19eg o Ionawr. Cofiwch chwilio am yr amserlen gweithgareddau ar dudalennau facebook yr hwb.

**Profedigaeth**
Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Alun Lewis (Alun Mabon) Gorllwyn, 36 Rhydfadog, Deiniolen a hunodd yn dawel ar y 23ain o Ragfyr 2022, yn 80 oed. Priod annwyl Lona (Baum); Tad amhrisiadwy i Sandra, Dylan a Gwyn a Thad yng nghyfraith a ffrind i Dilwyn a Sioned; Taid gofalus a doniol Alaw, Anna, Osian, Sion ac Erin a hen daid balch i Tomos-Alun. Brawd bach Goronwy a'r diweddar William, Eluned, Harry a Ralph a brawd yng nghyfraith ac ewythr hoff. Bydd colled enfawr ar ei ôl.



**Pen-blwydd arbennig**
Pen-blwydd hapus yn 90 i Jennie Wynne Williams, Bro Deiniol, oedd yn dathlu ar y 12fed o Ionawr. Cafwyd dathliad te prynhawn fel syrpreis yng ngwesty Carreg Bran gyda theulu a ffrindiau.



**Merched y Wawr**
Cafwyd noson fendigedig i ddathlu'r Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon. Mwynhaodd pawb y Siôn Corn cudd a diolch unwaith eto i Jackie am yr holl waith trefnu.

Mis Ionawr bydd Ann Williams Llanaelhaearn yn dod atom i sôn am ofal y croen ac ar yr 20fed o Chwefror mi fydd Lowri Jones yn dod atom i sôn am ymarferion y corff.

Rydym yn cyfarfod yn Nhŷ Elidir pob mis am 7.00pm, croeso i aelodau hen a newydd ddod atom.





**Eglwys Crist**
Da oedd cael ail-afael yng ngwasanaethau'r Nadolig eleni. Ar y Sul cyn y Nadolig cafwyd Naw Llith a Charol. Diolch i'r rhai a fu mor ddiwyd yn trefnu, ac i bawb a gymrodd ran yn y Gwasanaeth cofiadwy yma. Cofiwyd am aelodau ffyddlon oedd methu bod gyda ni oherwydd anhwylder neu afiechyd.

Cafwyd noson ddifyr iawn ar y nos Fercher cyn y Nadolig o ganu Plygain yng nghwmni Gwilym Bowen Rhys (oedd yn arwain y noson), Elidyr Glyn a Gethin Griffiths ynghyd â John Eifion a'r teulu. Braf oedd gweld cynifer wedi ymgynnull yn yr eglwys a phawb wedi mwynhau gwrando ar y cantorion a chael ymuno efo rhai o'r carolau fel cynulleidfa. Gwnaed elw heb fod yn bell o £400 i Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd, 2023. Diolch am y talentau sydd gennym ym Mro'r Eco a mawr obeithiwn y bydd y Plygain yn dod yn fwy poblogaidd yn ein hardal ni.

Ar Noswyl y Nadolig gydag Archesgob Cymru a'r Parch. Allan Wilcox yn bresennol, gweinyddwyd Cymun y Nadolig. Roedd yn noson o storm swnllyd y tu allan ac amharodd hyn ar rai o'r ffyddloniaid a fyddai'n mynychu yn selog pob blwyddyn. Serch hynny cafwyd Gwasanaeth bendithiol a thymhorol tu hwnt. Gan ddymuno blwyddyn Newydd heddychlon a bendithiol i chwi i gyd. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl i eglwys Crist yn 2023.


# Cystadleuaeth

Dyma gyfle gwych i ennill **Trefnydd Teulu 2023** sydd wedi ei gynhyrch gan gwmni Dyma-fi. Mae'n gasgliad o dudalennau maint A3 lliwgar gyda delweddau deiniadol a safonol, ac wedi cael ei argraffu yn hardd. Mae'n cynnwys 5 colofn i nodi gweithgareddau'r teulu ynghyd ag ambell ddigwyddiad o bwys.




Y cyfan sydd rhaid i chi ei wneud yw ebostio eich enw a'ch cyfeiriad i ecorwyddfa@gmail.com Cyhoeddir yr enillwyr yn ein rhifyn nesa.

Dyddiad cau y gystadleuaeth yw 12 Chwefror

Os na fyddwch yn ddigon ffodus i ennill ewch draw i wefan dyma-fi.co.uk i archebu eich Trefnydd Teulu ac i weld beth arall sydd gennym yw gynnig


**Ymddeoliad Trysorydd yr Eco**
Bydd Goronwy Hughes, fu'n drysorydd yr Eco ers blynyddoedd lawer, yn ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Mae'n anodd cyfleu mewn geiriau gymaint fu cyfraniad Goronwy i lwyddiant yr Eco. O ganlyniad i'w brofiad helaeth a'i ddealltwriaeth lwyr o ofynion y swydd, gosododd Goronwy sefyllfa ariannol Eco'r Wyddfa ar sylfaen eithriadol o gadarn.

Yn sgil cyhoeddiad Goronwy, yr ydym yn awr yn wynebu'r dasg anodd o geisio dod o hyd i olynydd iddo. Os oes rhywun o blith darllenwyr yr Eco, sy'n meddu ar y profiad addas yn y maes, neu sydd yn adnabod rhywun a fyddai efallai â diddordeb, a wnewch chi gysylltu efo fi yn y lle cyntaf, os gwelwch yn dda.

Rwyf yn sicr y bydd Goronwy yn fodlon cynnig arweiniad a chefnogaeth i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymgeisio am y swydd.

Diolch ymlaen llaw.
Tony Elliott
(Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eco'r Wyddfa)
Croeso i chi gysylltu ar y ffôn: 07798 552 238 neu ar e-bost: tonyelliott17@yahoo.com

# Cystadleuaeth Helfa Drysor Menter Fachwen

Wnaethoch chi gystadlu yn y gystadleuaeth Helfa Drysor a gynigiwyd gan Fenter Fachwen yn rhifyn mis Rhagfyr o'r Eco? Os na wnaethoch chi gystadlu, tybed fuodd yna grafu pen a dadlau yn eich tŷ chi, wrth fynd ati i geisio adnabod y lluniau?

Diolch yn fawr i Gareth Roberts o Fenter Fachwen am drefnu'r gystadleuaeth ac i Gareth Wyn Roberts o Waunfawr (sydd yn gweithio yn Menter y Fachwen) am dynnu'r lluniau o sut mae'r llefydd ym mro'r Eco'n edrych erbyn hyn.

Mae'n bleser cyhoeddi mai Terry Tuffrey enillodd y wobr o docyn £20 i'w wario yn siop Menter Fachwen. Goeliwch chi iddo gael pob un ateb yn gywir! Llongyfarchiadau mawr i ti Terry.

Dyma'r lluniau hen a newydd ynghyd a'r atebion:

menter fachwen
Y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT



1 Stryd Ganol, Saron, Bethel



2 Newborough Arms, Penllyn



3 Tŷ Cynfi a Gallt y Foel



4 Tai Newyddion, Penisarwaun



5 Gorsaf Rheilffordd, Cwm-y-Glo



6 Tŷ Caxton (Siop Menter Fachwen), Llanberis



7 Neuadd Goffa, Llanrug



8 Rhiwlas



9 Tŷ Capel, Dinorwig



10 Rhes Glyn Afon, Waunfawr



E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718

Blwyddyn Newydd Dda – neu well – yw'n dymuniad ni i gyd i'n gilydd. Mae'n amlwg fod awydd mewn sawl ardal i droi 2023 yn Flwyddyn y Gymuned / Gymdeithas. Gobeithio y gallwn yn ein ffyrdd bach ein hunain gyfrannu at yr anogaeth yma. Nid oes fath beth a chymwynas wael.

**DIOLCH**

Dymuniadau gorau i Tomos Alun sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Dymuna Elwyn Hughes, Bryn Ogwen a'r teulu ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am eu cyfraniad a'u dymuniadau gorau yn dilyn ei ymweliad â'r ysbyty, ac yn ystod ei waeledd yn ddiweddar. Gwerthfawrogir pob galwad ffôn, ymweliadau ac e-byst yn ogystal â rhoddion a dderbyniwyd dros y cyfnod hwn.

Dymuna Ieuan a Gwyneth, Llain yr Ardd ddiolch o galon i bawb a gofiodd amdanynt mewn amrywiol ffyrdd ar achlysur dathlu pen-blwydd eu priodas yn 60 yn ddiweddar.

I Ieuan a Gwyneth
Chwe deg, fe gofiwch adegau; – Seilo
ble seilwyd amodau.
Hwy yw sawr eich hamserau,
dal dŵr a wnânt tra deil dau.

**TRADDODIAD**

A hithau mor ymwybodol o'r llu gymwynasau gan deulu a chyfoedion y llynedd, mae Elizabeth Evans, Pen Parc yn dymuno'r cyfarchion gorau iddynt am 2023.

**TEG EDRYCH TUAG ADREF**

Mor aml yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cofnodi'r dramp liaws o ieuenctid ein bröydd fel arfer i feysydd breision Caerdydd. Braf yw cofnodi achos o wrth-droi'r drefn. Rydym yn croesawu Rob ac Elin Gaffey a'u mab Eban yn ôl i Fethel wedi cyfnod ble roedd Rob yn athro yn y Cymoedd. Maent wedi cartrefu yn Stad y Rhos. Croeso i chwi fel teulu.

**CROESAWU**

Llongyfarchiadau i Gwenan a Rob, Bro Eglwys, ar enedigaeth Mabli, chwaer fach i Macsen. Llongyfarchiadau i Mabel a Tomos Alun, nain a thaid balch iawn.

Caed anrheg Nadolig arbennig draw yng nghartref Elen Robinson a'i phartner Joe draw yn Saron. Cyrhaeddodd merch fach, Siân. A'r enw wrth gwrs ar ôl ei nain, yr annwyl ddiweddar Siân Robinson. Anodd credu bydd yn chwarter canrif, Mehefin eleni, ers y collwyd yr arian byw oedd Siân. O gofio am 'Siân bach' mae'n rhaid fy mod wedi rhagweld rhywbeth yn fy englyn coffa i Siân a gyflwynais i Eleri ac Elen chwarter canrif bron yn ôl.

O ddoe hir, mae i'r ddwy hyn
o hyd, obaith yr hedyn.
07.06.1998

**MAGU PROFIAD**

Edrychwn ymlaen at gael adroddiad ac ambell i lun gan Elis Ifan Jones, Y Fachell pan ddaw yn ôl i Seion. Ar hyn o bryd mae draw yn Seland Newydd am dri mis yn mireinio ei ddoniau cneifio.



**MERCHED Y WAWR**

Noson hwyliog iawn oedd cyfarfod Rhagfyr yn dathlu'r Nadolig yn y Newborough Arms, Bontnewydd. Wedi pryd blasus iawn cawsom ein diddanu a'n swyno gan y consuriwr Richard Owen. Nid oedd yn fodlon datgelu'r cyfrinachau ond wrth ddiolch cyfeiriodd y llywydd Mair Price ei bod yn falch nad oedd wedi gwneud i unrhyw aelod ddiflannu.

Daeth y gangen yn ôl at ei gilydd ar gyfer cyfarfod Ionawr o gynhesrwydd eu cartrefi diolch i gyswllt Zoom. Ymunodd Glenys gyda ni o'r Deheubarth a braf oedd cadw'r cysylltiad. Llongyfarchiadau i Mabel ar ddod yn nain i Mabli, merch fach pum wythnos oed bellach i Gwenan a Rob, Bro Eglwys. Danfonwyd cofion hefyd i Tomos Alun, gŵr Mabel sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Yr hanesydd difyr Bob Morris, Penygroes oedd ein siaradwr gwadd a chawsom ein tywys drwy sefydlu'r gwersyll gwyliau yn Penychain ger Pwllheli gan Syr Billy Butlin. Roedd Bob yn un o saith cenhedlaeth o'i deulu a weithiodd yno gan dreulio saith haf yn ystod y '60au. Yn unol â'r sgwrs cafwyd lluniau trawiadol yn dangos fel y daeth Gogledd Cymru yn gyrchfan boblogaidd iawn i bobl dosbarth gweithiol Gogledd Lloegr a thu hwnt, am eu 'hwythnos Butlins'. Cyn agor y gwersylloedd ar hyd arfordir Gogledd Cymru, prin iawn oedd y cyfle i gael gwyliau 'i ffwrdd'. Datblygodd Billy Butlin y syniad o wyliau cynwysedig, ble roedd y lle aros, bwyd ac adloniant yn gynwysedig mewn un pris. Ei arwyddair oedd, 'Popeth er mwyn eich llawenydd', gan apelio at yr uned deuluol neu griwiau ffrindiau / cyd-weithwyr.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd datblygwyd Penychain fel HMS Glendower i hyfforddi aelodau'r llynges. Er sawl gwrthwynebiad, erbyn 1947 roedd Butlins wedi ei agor fel canolfan wyliau gyda lle i 5,000 o wersyllwyr. Daeth yn gyrchfan poblogaidd i dripiau Ysgolion Sul lleol. Yn ei anterth denwyd rhwng 12,000 a 15,000 o wersyllwyr yno'n wythnosol, gan greu tipyn o waith lleol. Erbyn yr '80au roedd y gwyliau torfol yn llai poblogaidd, a theithio tramor yn fwy deniadol, a chaewyd y giatiau ar erwau Butlins yn 1998. Ond nid dyna'r diwedd. Ar lefel llai datblygwyd Gwersyll Hafan y Môr sydd yn dal i ddenu ymwelwyr i Lŷn ac Eifionydd.

Diolchwyd i Bob gan y Llywydd, Mair Price am yr hanes hynod o ddiddorol a manwl. Byddwn yn dychwelyd i'r Neuadd Goffa ar gyfer cyfarfod Chwefror.



**CLWB BRO**

Braf oedd cael ail-ymuno wyneb yn wyneb a chyflawni dau weithgaredd. I ddechrau cafwyd te pnawn blasus wedi ei baratoi gan rhai o'r aelodau a sgyrsiau difyr wedi'r 'hir glo'.

Yna cynhaliwyd gwasanaeth Nadoligaidd wedi ei saernïo'n grefftus gan Rita Williams. Cafwyd cymysgedd o garolau a darlleniadau Beiblaidd a barddonol - hen ffefrynnau a'r tinc cyfoes. Diolch i'r rhai a gymrodd ran. Diolch arbennig i Nel Jones ac Efa Williams o Ysgol Bethel ac Ysgol Sul y Cysegr am eu cyflwyniadau cerddorol. Diolchwyd i'r sawl a gyfrannodd gan Richard Lloyd Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri'r Cysegr, bnawn Mawrth, Chwefror 7fed am 1.30pm. Y siaradwr gwadd fydd Owena Hughes, Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.

**Cynllun Croeso Cynnes**

Llwyddodd clwb Pêl-droed Bethel i dderbyn grant o £5,000 gan Fantell Gwynedd i gynnal sesiynau 'Croeso Cynnes'. Mi fydd y Clwb yn cydweithio gyda Perthyn Cymunedol i gynnig y sesiynau. Pwrpas y cynllun yw rhoi cyfle i bentrefwyr gyfarfod yn hamddenol mewn mangre groesawgar a chynnes dros baned, rhywbeth bach i fwyta ac wrth gwrs cyd-sgwrsio. Oriau cynllun 'Croeso Cynnes' yn Perthyn yw:

- Dydd Mawrth 10.00am - 12.00pm. Ar gynnig dros y cyfnod yma bydd sesiwn Ioga 'Cadair' rhwng 10.00am - 10.30am am bris o £5.
- Dydd Iau a Dydd Gwener ar agor rhwng 4.00pm - 6.00pm.

Mae'r prydau dan y cynllun 'Croeso Cynnes' yn rhad ac am ddim ond gwerthfawrogir os bydd unrhyw un eisiau rhoi cyfraniad bach at yr achos.

**CAPEL Y CYSEGR**

Diolch i blant yr Ysgol Sul, a'u hathrawon am eu hyfforddi, am gynnal oedfa Nadolig y Plant eto eleni. Pa well cyfnod rieni, taid a nain, na cheisio cyfeirio eich plant at yr Ysgol Sul hwyliog yn y Cysegr. Pa well amser hefyd â Gweinidog newydd yn ein harwain.

Roeddem mor falch o groesawu cynulleidfa gymysg o gapeli'r ardal i Gymun Bore Nadolig. Roedd awyrgylch arbennig yno, a diolch i'r Parch. Marcus Robinson yn ei ffordd ddihafal o godi ein calonnau ar thema 'Goleuni'r Ŵyl'. Tonic yn wir yn y dyddiau tywyll yma mewn sawl cyfeiriad. Yn rhan allweddol o'r awyrgylch oedd y 'band bach' yr oedd Hefin wedi ymgasglu ynghyd unwaith eto eleni. Diolch i'r hen lawiau Hefin, Gavin a Ffestyn a'r ddau 'brentis' hynod ddawnus, Gruff a Leia, plant Hefin.

Ar ail Sul y flwyddyn croesawyd ein gweinidog y Parch. Nerys Griffith atom am y tro cyntaf a pha well modd na thrwy ein gwahodd at Fwrdd y Cymun. Cymerwyd y cyfle i gyd-ymdeimlo â Nerys yn dilyn marwolaeth ei mam ar droad y flwyddyn.



**OEDFAON CHWEFROR**

**CYSEGR :** 12fed Chwefror - Richard Morris Jones, 19eg Chwefror - Gweinidog, 26ain Chwefror - Parch. R O Jones.

**BETHEL** : 12fed Chwefror - Parch. Ioan Wyn Griffith, 19eg Chwefror - Arwel Williams.

**SARON :** Oedfaon i'w trefnu

**CRONFA MYNWENT ST DEINIOL, LLANDDEINIOLEN**

Unwaith eto eleni cafwyd rhoddion ariannol hael tuag at gynnal y fynwent. Ar ran yr eglwys mae Trysorydd y Pwyllgor Mynwent, Brian Sharpe, Ael-y-Bryn, yn diolch o galon. Oherwydd salwch dros gyfnod o amser mae Brian yn dirwyn ei swyddogaeth i ben eleni. Diolchwn iddo am gyfraniad gwerthfawr iawn sy'n cynnal parch i anwyliaid llawer ohonom. Y trysorydd newydd yw Barbara Farrow, Bwthyn Fferm Greuor, Penrhos, Bethel LL55 1UR.

Dyma restr o'r cyfranwyr :

- £150 Dylan Edwards (Wirral) a Mrs. C.H. Lowe (Goole).
- £125 Dienw.
- £100 Dienw, Emyr Roberts (Groeslon) a Lowri Preys Roberts (Brynrefail).
- £50 Brian ac Eirlys Sharpe (Bethel), Carol a Doris Adlam (Penisarwaun), Irfon Thomas a'r teulu (Llanrug) ac Elwyn a Gwyneth Jones (Seion).
- £45 Elisabeth Edwards (Caerdydd).
- £30 Glyn Richards (Deiniolen).
- £20 Clifford Thomas (Y Felinheli), Hywel Roberts (Caernarfon), Eurgain Jones (Bethel), Ivy Wright (Bethel), Elizabeth Evans (Bethel) a Huw Hughes (Bethel).
- £15 Ieuan Williams (Bethel) a Valerie Owen (Bethel).
- £10 Ann Ellis Williams (Bethel), Ieuan Ellis Jones (Caernarfon), Teulu Robert a Margaret Pritchard (Bro Rhos) a Marjorie Roberts (Bethel).

**CLWB CERDDED**

Dwsin fentrodd ar fore cymylog draw am Fethesda. Roedd Morfudd wedi trefnu tywysydd lleol, Cemlyn Jones, i'n harwain a gwerthfawrogwyd ei fewnbwn lleol. Gadawsom y pentref heibio llwybr y Clwb Rygbi, croesi'r Ogwan ac anelu drwy'r llwybr coed i gyfeiriad y chwarel Felin Fawr. Oedi ennyd yn y coed i syllu ar hen olion eglwys Tanysgrafell ac ambell i garreg bedd o hyd yn ei mynwent. Tynnodd Cemlyn ein sylw at ryfeddod y cynllunio peirianyddol a reolai lif dŵr yr afon a'i anelu hyd y ffosydd i yrru peiriannau'r Felin Fawr. Dilyn y llwybr ar odrau'r chwarel wedyn heibio i hen adeilad Ysbyty'r Chwarel. Gerllaw roedd enghraifft gyfoes o reolaeth a defnydd llif dŵr i gynhyrchu trydan gan gwmni Ynni Ogwen. Paned wedyn a chyfle i sylwi ar y llu o ddarluniau a grafwyd dros y blynyddoedd ar y llechi gwastraff a ollyngwyd yno. Wedi bod hyd lan yr afon at Bont Ogwan, yn ôl at hen ysgol Bontŵr, drwy Barc Meurig yn ôl i'r pentref. I gwblhau'r cyfarfod gyrrwyd draw i gaffi Moelyci ger Tregarth am luniaeth blasus iawn.



Rydym am gychwyn cerddediad cyntaf 2023 eto ym Methesda. Y tro hwn fe gerddir hen reilffordd y chwarel (Lôn Las) i lawr i Borth Penrhyn. Cysylltwch os am ymuno â'r criw. Yn y llun gwelir y cerddwyr yn stelcian fel Caradog Pritchard gynt ar un o'r pontydd uwchlaw Afon Ogwan.

**Trawsblaniad**

Gorffennaf trwy gyfeirio at ddigwyddiad a chysylltiad teuluol fu yn anrheg Nadolig yng ngwir ystyr y gair. Mae'r stori yn ymwneud â chyfraniad amhrisiadwy brawd (Louis Williams) i'w chwaer Zoe (5, Bro Rhos, Bethel). Y cyfraniad oedd trosglwyddiad aren gan Louis i Zoe. Mae Zoe yn wraig i Kevin a mam i Roxy, Olly a Ted y ci! Mae Louis wedi dyweddïo gyda Melissa Evans ac yn dad i Arthur a Twm. Wedi profion yn cadarnhau fod 'ffit dderbyniol', parthed yr aren rhwng y ddau aed ymlaen â'r trefniant yn ddiymdroi. Roedd y trawsblaniad yn llwyddiannus draw yn Ysbyty'r Royal, Lerpwl, ac arwyddion positif o'r archwilio pob tri diwrnod mae Zoe yn derbyn ar hyn o bryd. Daeth Louis adref wedi tridiau a Zoe, mor falch, wedi wythnos. Fel chwaer i Zoe a phawb o'r teulu rydym mor falch ac yn edmygu



cryfder y ddau drwy'r amser dyrys. Ni all Zoe ddiolch digon i Louis am roddi 'cyfle a bywyd newydd iddi' wedi cyfnod o ddioddef. Diolch i bawb a gefnogodd y teulu yn enwedig dros gyfnod Zoe yn Lerpwl. Mae Mawrth 9fed eleni wedi ei benodi yn Ddiwrnod yr Aren ac mae bwriad gan Zoe i drefnu dathliad cefnogol i'r achos ar y diwrnod.

Yn y llun isod gwelir Zoe a Louis yn eu crysau–T addas draw yn yr ysbyty yn Lerpwl. Dymunwn y gorau i'r ddau yn y cyfnod o addasiad yma i'r ddau."

**CYDYMDEIMLO**

Yn y flwyddyn ddiwethaf yma cawsom reswm i gydymdeimlo â phlant Pennant, Seion yn eu colled drom o golli tad a mam. Trist yw cofnodi fod yr 'hen alwad' wedi galw heibio eto ar droad blwyddyn fel hyn. Cydymdeimlwn ag Aeron, Buddug a Lleucu draw yn Llanuwchllyn. Collodd Buddug ei mam, oedd yn byw yn Llanfachraeth, Meirion. Yr un ein cydymdeimlad i Dilwyn, Sandra ac Osian. Collodd Sandra ei thad Alun Lewis (Alun Mabon) draw yn Neiniolen.

Ein cydymdeimlad hefyd ag Eurgain, Delyth a'r teulu o golli tad a mam a nain a thaid annwyl Kate Williams a'r Parch. Gwynfor Williams yn ddiweddar. Yn ei dro bu Gwynfor yn weinidog ar gapeli Bethel, Saron a Seion am sawl blwyddyn.

Cydymdeimlwn a John Michael, Arddol, 13 Tan y Buarth, Bethel, o golli gwraig annwyl iawn, Mair, yn ddiweddar. Roedd Mair ers cyfnod dan ofal Plas Gwilym, Penygroes, ble roedd y teulu mor ddiolchgar o'r gofal gafodd yno. Cofiwn hefyd am y tri phlentyn Rhian, Aeron a Helen a'u teuluoedd.

**O SIAMBR SASHA**

Yr wyf wedi rhoddi gwahoddiad i'n Cynghorydd Sirol / Cymunedol Sasha Williams i lunio erthygl fisol yn yr Eco. Rwy'n falch dweud ei bod wedi cytuno ac edrychwn ymlaen at ei chyfraniad a fydd, rwy'n siŵr o gofio ei ymlyniad lleol, yn amrywiol. Ac mae'n dechrau gyda newyddion da i ni fel pentrefwyr:



"Blwyddyn Newydd Dda i chwi gyd. 'Rwy'n gobeithio bydd dydd Iau, Ionawr 12fed, 2023 yn ddyddiad pwysig yn natblygiad cymdeithasol Bethel a'r fro. Dyma'r dydd yr agorodd caffi Perthyn Cymunedol ei ddrysau unwaith eto. Oriau agor y caffi fydd rhwng 10.00am a 4.00pm ar ddydd Iau, Gwener a Sadwrn.

Diolch enfawr i'r rhai sydd wedi noddi'r fenter ar dudalen *Go Fund Me*, sydd wedi ein galluogi i ail agor y drws. Ein gobaith yw datblygu fel y gallwn agor yn llawn amser ac fe fydd y Pwyllgor yn gweithio'n galed i ddenu grantiau i'r perwyl hwn. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cyfrannu'n ariannol tuag at y fenter neu yn barod i weithio yn wirfoddol yn y caffi cysylltwch â Sasha ar 07810174160 am sgwrs.

# Ysgol Gwaun Gynfi







**Sioe Nadolig Cyfnod Allweddol Dau**
*The Lion King* oedd ein Sioe Nadolig Cyfnod Allweddol Dau.

Cafwyd Sioe Nadolig llwyddiannus iawn. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn unwaith eto, gyda rhieni a ffrindiau Ysgol Gwaun Gynfi.

Dyma i chi rai o gymeriadau'r sioe. Ydach chi'n gallu enwi'r cymeriadau?

Diolch i'r cymorthyddion am eu gwaith caled yn creu'r masgiau arbennig yma.








**Panto Nadolig**
Cafwyd prynhawn braf yn gwylio *Beauty and the Beast* yn y pafiliwn yn Llandudno.

Sylwch ar y plant gafodd eu dewis i fynd ar y llwyfan; Idris, Gus a Leia. Da iawn chi am sgwrsio mor hyderus gyda'r cymeriadau.



**Ymweliad gan PC Dylan**
Daeth PC Dylan i'r ysgol i drafod ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda disgyblion Bl3, 4, 5 a 6. Diolch am ei ymweliad gwerthfawr unwaith eto.



**Gŵyl Pêl-droed dalgylch Brynrefail**
Prynhawn llwyddiannus iawn, disgyblion Bl6 o bob ysgol yn y dalgylch yn cael cyfle i chwarae gemau pêl droed. Cyfle gwych i adnabod ei gilydd cyn symud i Bl7 mis Medi.



**Sioe Nadolig Cyfnod Sylfaen**
**'Santa ar streic'**
Dwi'n siŵr bod y plant yn falch iawn na fu Santa ar streic yn Nadolig 2022!

**Ymweliad gan Siôn Corn ac Elfis y ceffyl bach**
Daeth Siôn Corn am dro i ymweld â'r disgyblion i gyd. Eleni daeth Elfis y ceffyl bach gydag ef. Roedd y plant wrth eu boddau yn sgwrsio gyda Siôn Corn ac yn rhoi moron i'r ceffyl.









# Cynllun Efe

Mae Cynllun Efe yn awyddus i benodi Gweithiwr newydd. Ers 14 o flynyddoedd, bu gan yr elusen Gristnogol leol Weithiwr i wasanaethu ac i helpu eglwysi a chapeli bro'r Eco i gyflwyno'r newydd da am Iesu Grist. Yn ogystal â'r gwaith yn yr eglwysi a'r capeli cafodd Cynllun Efe'r fraint o wasanaethu ysgolion yr ardal. Andrew Settatree oedd y Gweithiwr Ieuenctid cyntaf, o fis Hydref 2008 hyd Chwefror 2017, ac fe'i holynwyd gan Catrin Hampton am flwyddyn o fis Medi 2017 hyd Orffennaf 2018 a chan Susan Williams o fis Medi 2018 hyd fis Awst 2022. Gwerthfawrogwyd cyfraniad y tri ohonynt yn fawr.

O'r cychwyn cyntaf pan sefydlwyd Cynllun Efe yn 2005, y weledigaeth a'r nod fu cyflwyno Efengyl Iesu Grist. Mae'r is-bennawd a ddefnyddiwyd o'r cychwyn yn cadarnhau hynny: 'Efengyl i Fro'r Eco'. A'r is-bennawd hwnnw sydd hefyd wrth gwrs yn rhoi i ni'r acronym yn enw'r elusen: Cynllun **Efe**. Yr un yw'r weledigaeth o hyd.

Bu Cynllun Efe yn cydweithio â mwy nag un partner dros y blynyddoedd. Am ran o gyfnod Andrew gyda ni, buom yn cydweithio ag elusen Trobwynt yn Llŷn ac Eifionydd. Wedi hynny, cafwyd am ddwy flynedd bartneriaeth rhwng Cynllun Efe a *Scripture Union* a Chapel Caersalem Caernarfon. Ers 2019 bu Cynllun Efe a Chaersalem yn cynnal Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd ar y cyd. Mae'r naill a'r llall yn awyddus i barhau'r bartneriaeth ond yn sylweddoli bod angen addasu'r trefniant er mwyn galluogi Caersalem a Chynllun Efe i gael gwasanaeth eu gweithiwr bob Sul. Penderfynwyd felly ceisio gwasanaeth dau weithiwr ran amser, ac aed ati ar y cyd i hysbysebu'r ddwy swydd. Mae Cynllun Efe'n cynnig swydd ran amser tri diwrnod yr wythnos a Chaersalem yn cynnig swydd ran amser dau ddiwrnod yr wythnos.

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Am y rheswm a nodwyd, ni fydd wrth gwrs yn bosibl i un person gyfuno'r ddwy swydd i ffurfio swydd lawn amser.

Gobeithio'n fawr y llwyddwn i benodi gweithwyr ar gyfer y ddwy swydd ac y bydd modd i'r ddau weithiwr newydd gydweithio er mwyn hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol ym mro'r Eco ac yng Nghapel Caersalem fel ei gilydd.

Ymddiriedolwyr presennol Cynllun Efe yw Delyth Roberts, Doris Adlam, Clive James, R. John Roberts a John Pritchard.

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ e-bost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan 'Newyddion Llanberis' ar dudalen 2 yr Eco.

**Diolch yn fawr**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref. Yn eu mysg y mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6pm tan 7.30pm. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo**
Mae'r Clwb Gwnïo yn cyfarfod yn y Ganolfan ar brynhawn dydd Iau o 2pm tan 4 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Cyfarchion**
Mae Eirian Mali am i mi ymestyn cyfarchion y tymor a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl ffrindiau.

**Arddangosfa**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w gweld yn Eglwys Sant Padarn rhwng 10:30 a 2:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.





**Merched y Wawr**
Dechreuwyd y tymor newydd ym mis Medi. Y siaradwraig yn y cyfarfod cyntaf oedd Ann Parry a soniodd am hanes ei mam yn symud o'r Eidal, a'i bywyd yn Llanegryn. Diolchwyd i Ann gan Janice Tomos.

Ym mis Hydref daeth Huw P. Hughes, Bethel i'w dychryn gyda hanesion am ysbrydion yr ardal gan gyfeirio at rai o'i brofiadau ei hunan tra'n gweithio fel heddwas. Hefyd bu Ian Roberts yn cynnal sesiwn "seicometri" efo rhai o'r aelodau. Diolchwyd ar y noson gan Helen Sharp.

Ym mis Tachwedd, y siaradwraig oedd yr awdur Marlyn Samuel. Cafwyd noson ddifyr tra bu'n sôn am ei gyrfa, a hanes ei nofelau. Diolchwyd iddi ar ddiwedd y noson gan Ann Parry.

Ar ddechrau Rhagfyr, cynhaliwyd parti Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon lle cafwyd gwledd. Diolch i Iola Owen am drefnu'r bwyd.

Bydd ein cyfarfod nesaf nos Fercher, Chwefror 1af am 7.00pm yn Y Ganolfan, Llanberis. Unwaith eto, bydd croeso i aelodau newydd.

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau mis Chwefror:
Chwefror 5, 11yb - Cymun Bendigaid
Chwefror 12, 11yb - Cymun Bendigaid
Chwefror 19, 11yb - Boreol Weddi
Chwefror 26, 8yb - Cymun Bendigaid, 11yb - Gwasanaeth Teulu. Mae croeso i bawb o bob oed i ymuno â ni am wasanaeth byr ac anffurfiol gyda chrefftau a lluniaeth.

Bore Sadwrn, Chwefror 18 o 10:30 o'r gloch ymlaen, cynhelir Bore Crempog a Phaned. Croeso cynnes i bawb.

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau Mis Chwefror
Chwefror 5, 9:30yb - Cymun Bendigaid, 4yh - Gwasanaeth Teulu
Chwefror 12, 9:30yb - Cymun Bendigaid
Chwefror 19, 9:30yb - Boreol Weddi
Chwefror 26, 9:30yb - Cymun Bendigaid


Hefyd, cynhelir naill ai wasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11 o'r gloch.

**Capel Coch**
Dyma drefn y gwasanaethau ar gyfer y Suliau nesaf (am 10.00 o'r gloch y bore):
Ionawr 29: Oedfa dan arweiniad y swyddogion
Chwefror 5: Dr Huw Tegid Roberts
Chwefror 12: Y Gweinidog
Chwefror 19: Y Parchg Huw Pritchard
Chwefror 26: Y Gweinidog

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i weithwyr y Parc Cenedlaethol am y gwaith arbennig maent wedi ei gyflawni ar un o lwybrau'r pentref. Mae'r llwybr yma'n cychwyn o Lwybr Yr Wyddfa, rhyw gan llath uwchben Caffi Steffan. O'r fan honno mae'r llwybr yn arwain at Reilffordd yr Wyddfa, ychydig i fyny o Pwll Morwyn, cyn mynd ymlaen tuag at adfeilion fferm Cae Newydd, ac wedyn ymuno â ffordd y Snowdon Ranger (Llwybr Cwellyn).







# David Wyn Evans (Dafydd Twins)

Y Parch. Jim Clarke:

Ganwyd David Wyn Evans ym Merthyr Tudful ar y18fed Tachwedd, 1947 yn fab i Alun a Laura Evans ac yn efaill i Dilys. Cyfarfu ei rieni pan aeth Alun i lawr i weithio fel un o'r Bevan Boys yn Ne Cymru. Ar ôl priodi buont yn byw yn Nhreharris cyn symud i Ddeiniolen,pan oedd yr efeilliaid yn dri mis oed. Cafodd y ddau fagwraeth hapus yn 55 Pentre Helen. Roedd Dafydd yn blentyn hwyliog a direidus ac yn hynod amddiffynnol o Dilys a'i rieni.

Mynychodd Ysgol Gynradd Deiniolen, Ysgol Brynrefail a Choleg Technegol Bangor. Ei ddiddordebau pennaf oedd pêl droed a'r band. Gallai fod wedi chwarae i Manchester United, medda fo - ond o nabod Dafydd hwyrach fod dipyn o *stretch* yn y stori!

Yn 1957 gwelodd hysbyseb yn yr Herald yn gofyn i blant a phobl ifanc ymuno â'r band yn Neiniolen. Wil Tŷ Oer oedd yn dysgu'r hogia sef tad Goronwy, ffrind da a ffrind oes i Dafydd

Cyfarfu â Catherine, merch o Benygroes yn un o'r dawnsfeydd lleol a phriodwyd y ddau yng Nghapel Saron, Penygroes bedwar diwrnod cyn Nadolig 1968. Ganwyd Alun Wyn a Sioned Wyn iddynt a chawsant bedwar o wyrion - Richard Alun, Tomos John, Dylan Wyn ac Elin Dafydd. Cawsant 41 mlynedd hapus gyda'i gilydd.

Chwarelwr oedd tad Dafydd ac yn arweinydd Undeb adnabyddus yn cwffio dros hawliau gweithwyr a chwarelwyr. Yn dilyn dylanwad ei dad, roedd gan Dafydd egwyddorion cryf am waith. Roedd tegwch a pharch yn dod yn naturiol iddo, yn ŵr bonheddig a chymwynasgar.

Bu'n ŵr, mab, brawd, tad, tad yng nghyfraith, taid ac ewythr arbennig. Doedd dim byd yn ormod o drafferth iddo. Rhoddodd ei fywyd i'w gymdogion, y gymuned ac yn bennaf i'w deulu. Roedd ganddo berthynas cynnes, cariadus a chefnogol gyda'i deulu ac roedd ei ddylanwad arnynt yn fawr. Roedd ei gymeriad yn un hudolus, direidus ac wrth gwrs roedd yn dipyn bach o gomedian.

Roedd Dafydd hefyd wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda'i deulu yn Ne Cymru. Byddai'n teithio i lawr yno i roi blodau ar feddi ei nain a'i daid yn y fynwent yn Nelson.

Pan oedd Dafydd yn Ysbyty Gwynedd yn wynebu triniaeth pen glin dyma'r llais mawr yn deud "Jim Clarke dowch yma am funud". A dyma ufuddhau yn syth a dyma'r cais yn dod "Mi hoffwn i ofyn cymwynas gennyt. Pe bai rhywbeth yn digwydd i mi ar y bwrdd fory, wnei di fy nghladdu?" Be fedrwn i ddweud, fel ffrind, ond cytuno? Ond gan brysuro i ddweud nad oeddwn yn chwennych y fath gyfrifoldeb, ond yn barod i wneud pe byddai rhaid.

A bob tro y byddwn yn ei weld ar ôl hynny byddai'n dweud "Cofia beth ti wedi ei addo i mi".

*************

Atgof personol gan Sioned:

"Mae colli dad wedi dod ag atgofion plentyndod a hiraeth yn ôl i mi. Pan fyddai dad yn mynd ffwrdd i'r Iwerddon i weithio ar y bysus, roeddwn bob tro yn torri nghalon o'i weld yn mynd ar y llong o Gaergybi. Byddai



twll mawr yn fy stumog. Twll trist a gwag. Geiriau Dad pob tro oedd "Paid â chrïo". Er bod bywyd yn y 70egau yn un tlawd, 'roedd fy un i ac Alun yn llawn hapusrwydd. Gwnaeth Dad a Mam yn siŵr fod gennym bopeth oeddem angen ac roedd yn sicrhau fod pawb yn cael Dolig da.

Mae'r twll mawr yn ôl yn fy stumog ers i Dad gymryd ei wynt olaf. Twll trist a gwag. Ond gyda charedigrwydd teulu a ffrindiau oes, fe wneith y twll ail lenwi, gydag atgofion cariadus am Dad.

Geiriau olaf fy nhad i mi yn y munudau olaf o'i fywyd oedd "Paid â chrïo", yr un geiriau a phan roedd yn hwylio ar y llong o Gaergybi i'r Iwerddon.

Mae 'na wastad ddwy ochr i bob ceiniog ac i mi rwyf yn edmygu dad ac mae o yn arwr i ni gyd - "Not all heroes wear capes" a Dad oedd ein superman ni."

*************

Atgofion yr wyrion Richard, Tomos, Dylan ac Elin:

"Mi wnawn ni gofio Taid am ei jôcs ofnadwy o wael, a'r adegau roedd o yn gwneud ni crinjio am y pethau oedd o'n gwneud i ni gael hwyl. Y straeon roedd o'n eu dweud wrthym pan oeddem yn blant bach i'n diddori a'n cadw ni'n ddistaw!

Ein ffefrynnau ni ydi:

- Pan oedd taid yn gowboi...
- Pan oedd taid yn gweithio fel tylwyth teg...
- Pan oedd taid yn reslo …
- Pan oedd taid yn yr SAS...
- Pan oedd taid yn gweithio fel dreifar tanc …

Roedd ganddo ddawn dweud stori a dychymyg byw i gyfleu darlun cyffrous i ni. Mae'r straeon wedi ein diddori am flynyddoedd, tan ddaethom ddigon hen i ddeall nad oedden nhw ddim yn gwbwl wir! Mae o wedi'n cefnogi a'n hannog ni drwy bob cam o'n bywydau i fod yn oedolion ifanc.

Mae Taid wedi dathlu pob llwyddiant a phob siom gyda ni, ac rydym mor ddiolchgar am ei gyngor, bob gair i gall rydym wedi derbyn ac wrth gwrs, yr hwyl dan ni i gyd wedi gael yn ei gwmni."

*************

Atgofion Elin Dafydd am ei thaid:

"Bob wsos mi fyddwn i'n mynd i Bingo pentra efo Taid yn Nhŷ Elidir. Dyna oedd "*highlight*" fy wythnos i. Byddai taid yn cael 6 llyfr a finna'n cael un. Os fasa taid yn ennill lein, o'n i'n cael y *prize* a fynta'n cael yr *house*. Ar ddiwadd y noson roeddem yn chwarae "*last man standing*". Un da oeddach chi taid a braint ydi cael cario eich enw ymlaen."

*************

Dyma ran o deyrnged Irfon Morris:

"Fy mraint inna ydi cael rhannu ychydig o'm hatgofion innau o'r dyn arbennig yma roeddem i gyd yn ei alw'n ffrind - Dafydd - nid David. Dim ond ei fam glywais i'n ei alw'n David.

Roedd dau David Wyn yn gweithio fel gyrwyr i Crosville ym Mangor a'r ddau yn byw yn Neiniolen. Felly doedd eu galw yn Dafydd Deiniolen yn dda i ddim. Gan fod David Wyn Hughes yn fachgen tawel a David Wyn Evans ymhell o fod felly – fe'i bedyddiwyd yn Dafydd Distaw a Dafydd Twrw Mawr. A dyna fu eu henwau am flynyddoedd i lawer ohonom.

Roedd Dafydd yn *salesman* heb ei ail. Un o'i swyddi oedd goruchwylio'r parcio yn Ysbyty Gwynedd lle bu, hefo Kevin Rocco, yn rhoi ticedi a chlampio ceir oedd wedi troseddu. Mae un hanes amdano yn cael ei alw i gyntedd yr ysbyty lle'r oedd dyn yn flin iawn am fod rhywun wedi clampio ei gar. Roedd o'n feddyg uchel iawn yn yr ysbyty ac yn meddwl ei fod goruwch y gyfraith. "*Do you know who I am. I'm Professor* ..." Heb oedi dim atebodd Dafydd ac estyn ei law "*I'm Dafydd Evans, pleased to meet you", "But I've been clamped and I'm a Doctor... I'm a Doctor!".* A Dafydd yn ei gythruddo'n syth trwy ddweud "*And I'm a clamper. I'm a clamper!"*

Tro arall roedd y Band yn cystadlu mewn Eisteddfod ac fe gymrodd Dafydd ddiwrnod o "*sickie*" o Crosville i fynd hefo'r Band. Y Band yn ennill a llun o Dafydd, ar flaen y Daily Post, yn dal y gwpan. Fedra fo ddim maddau. Ond fel arfer, fe gafodd "*get away*" efo hi!

Fe fydd colled enfawr ar ei ôl yn Llofft Felin, cartref y Band. Yn yr un modd bydd gweld ei eisiau yng Nghôr Dyffryn Peris – fel llais a chymeriad.

Dwi am orffen trwy ddweud y bydd pobl yn anghofio beth gafodd ei ddweud a gwneud. Ond wnawn nhw byth anghofio sut roedden yn teimlo yng nghwmni Dafydd. Pan fyddwch yn drist ac yn hiraethu, ystyriwch am funud mai'r hyn yr ydych yn hiraethu amdano yw'r hyn a'ch gwnaeth yn hapus. Diolch am gael adnabod Dafydd a'i alw'n ffrind a chael rhannu cymaint o atgofion melys a digri yn ei gwmni."

## WAUNFAWR

**Canolfan Waunfawr 2022**
Diolch i Carys Owen am anfon adroddiad blynyddol y Ganolfan:

'Roedd yn braf gweld digwyddiadau a chlybiau yn cael ail ddechrau yn y Ganolfan o fis Ionawr 2022, yn sgil llacio rheolau cofid ar gyfer canolfannau cymdeithasol. Parhawyd gyda'r arferiad o wisgo masgiau o fewn yr adeilad a'r profion LFT cyn mynychu unrhyw ddigwyddiad. Roedd y gegin ar gael i'w defnyddio unwaith eto.

Cafwyd nifer o sesiynau Clwb Ieuenctid o Ionawr i ganol Mai gan Barry Allan a'i dîm. Yn anffodus ni fydd hyn yn parhau oherwydd bu gostyngiad mewn cyllid ar gyfer Clybiau Ieuenctid o fewn y Sir. Rhaid cael gwirfoddolwyr i redeg Clybiau Ieuenctid o hyn ymlaen. Mae'n bosib cael grant i sefydlu un yn y pentref o dan oruchwyliaeth ymddiriedolwyr Canolfan Waunfawr. Os oes diddordeb gan unrhyw un cysylltwch ag Edgar Owen (07900331939).

Cynhaliwyd nifer helaeth o bartïon pen-blwydd yn ystod y flwyddyn. Ail ddechreuodd Merched y Wawr ar Ionawr 24ain. Ni fu llawer o ddefnydd ar yr adeilad yn ystod gwyliau'r Haf.

Ddiwedd Medi dechreuodd menter newydd yn y Ganolfan - Clwb Paned a Sgwrs, pob prynhawn Mawrth o 2.30pm tan 4.00pm. Mae wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yn hyn ac mae'n agored i unrhyw un, pa bynnag oed i ddechrau cymdeithasu unwaith eto, a chadw'n gynnes dros y Gaeaf. Diolch i Gill Wyn ac eraill am sefydlu'r Clwb. Llwyddodd pwyllgor y Ganolfan i dderbyn grant gan Fenter Gwynedd ym mis Rhagfyr er mwyn cynnal y Clwb yn y dyfodol.

Agorwyd drysau'r Clwb Bowlio a'r Clwb Snwcer unwaith eto. Erbyn hyn mae'r Cylch Meithrin yn cyfarfod 5 bore (9.00am tan 1.00pm) a 3 prynhawn (1.00pm tan 3.00pm). Yn anffodus cafwyd llawer o ddifrod a fandaliaeth i'r adeilad yn ystod y ddwy flynedd olaf. Canlyniad hyn oedd penderfynu gosod offer CCTV o gwmpas y Ganolfan. Diolch i gwmni *Snowdonia Fire* am y rhodd hael. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan nos Fawrth Hydref 18fed am 7.30pm. Siomedig oedd ymateb y pentref - dim ond 8 person yn bresennol a 7 ohonynt yn aelodau'r pwyllgor. Diolch i bawb a gefnogodd Clwb 300 y Ganolfan eleni. Mae bellach wedi mynd yn glwb 100. Rydym yn parhau i chwilio am aelodau newydd ifanc i'r pwyllgor. Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.'



**Codi arian i elusen Macmillan**
Mae Rhian Roberts, Gorwel y Môr, yn brysur iawn yn codi arian tuag at elusen Macmillan ar hyn o bryd ac yn cynnal digwyddiadau yn y pentref yn ogystal â rhedeg marathon Llundain ym mis Ebrill eleni.

Dechreuodd Rhian redeg yn 2015, wedi iddi golli ei mam i gancr, ac erbyn hyn mae wedi cwblhau marathon Eryri 5 gwaith, (camp anhygoel ynddi ei hun!) a rŵan, yn ogystal â rhedeg marathon Llundain, mae wedi gosod nod iddi'i hun i godi £2,500 i Macmillan fel diolch am y gofal dderbyniodd ei mam.

Y nosweithiau codi arian sydd wedi eu trefnu hyd yn hyn gan Rhian yw :

- Soffa i 5k – rhedeg bob nos Lun tu allan i Ganolfan Hamdden Caernarfon 6.00pm - 7.00pm.
- Noson Hyder Mewn Lliw Sonia Williams – Chwefror 10fed yng Nghanolfan Waunfawr 7.00pm - 9.00pm, tocyn £8.
- Noson gyda Bwncath, *Snowdonia Parc*, Waunfawr (ocsiwn bach yn ystod yr egwyl) – Mawrth 10fed, tocyn £10.

Pob lwc i chdi Rhian. Bobol Weun – dewch i gefnogi!

**Cydymdeimlad**
Bu diwedd 2022 a chychwyn 2023 yn gyfnod o golled a thristwch yn ein cymuned fach ni. Rydym yn anfon ein cofion cynnes atoch i gyd fel teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

**Cadi Jones, Nant**
Ar 26ain Rhagfyr bu farw Cadi, gwraig John Gwynedd, mam Meilir, Osian a Heddus, a nain i saith. Un o Nanhoron oedd Cadi yn wreiddiol ond wedi ymgartrefu yma ers blynyddoedd maith, lle bu'n aelod gweithgar o'r gymuned. Roedd Cadi yn un o'r rhai sefydlodd y Cylch Meithrin, roedd yn Gynghorydd Cymuned ac yn aelod o nifer o fudiadau eraill y pentref, ac yn un oedd pob amser yn barod ei chefnogaeth i weithgareddau cymunedol o bob math.

**Dr Raymond Williams**
Ar Ionawr 1af bu farw un a fu'n feddyg teulu yn y pentref am nifer fawr o flynyddoedd. Roedd Dr Williams yn ŵr i Laura, tad i Gwyndaf a Gerallt ac yn daid i dri. Roedd yn uchel iawn ei barch fel meddyg dawnus oedd hefyd yn gymwynasgar a charedig tuag at ei gleifion. Un stori amdano oedd ei fod yn ystod eira mawr 1982 wedi cerdded o'i gartref ar lôn Ceunant i lawr i'r pentref efo rhaw dros ei ysgwydd, er mwyn gallu cloddi ei ffordd i mewn i dai cleifion oedd angen gofal. Gwaddol y gwasanaeth sefydlwyd gan Dr Williams a'i debyg yw'r feddygfa wych sydd gennym yn Waunfawr heddiw.

**Catherine Hughes**
Un o deulu clos Antur Waunfawr oedd Catherine, fu farw yn ei chartref, Yr Hen Siop, ar 2il Ionawr. Un o Riwlas oedd Catherine yn wreiddiol, ond daeth i'r Weun i weithio i Antur Waunfawr, lle bu'n gweithio am 30 mlynedd, yn gyntaf yn rhan o'r criw torri gwair, wedyn yn gwneud crefftau yn yr Hen Siop a ddaeth yn gartref iddi yn y pendraw. Cynrychiolodd Cymru mewn gemau ar gyfer pobl ag anabledd, ac enillodd fedalau am nofio a rhedeg. Roedd hefyd yn arddwraig ddawnus.

Roedd y gefnogaeth gafodd Catherine gan yr Antur wedi ei galluogi i fyw yn annibynnol ac fel rhan o'r gymuned tan y diwedd, sy'n glod mawr i holl staff yr Antur ac i weledigaeth Gwynn Davies.

**Geraint Owen (Geraint Carpedi)**
Bu farw Geraint, un o hogia Waunfawr, ar 6ed Ionawr. Roedd yn ŵr i Veronica, tad Marc a Lea, mab Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan a brawd i Ann, Jean a Neville. Roedd Geraint yn ffermio ardal Cefn Du a'r Ystrad Betws Garmon ac yn un o drefnwyr Treialon Cŵn Defaid Betws Garmon pob blwyddyn. Roedd hefyd, fel mae ei enw yn awgrymu, yn rhedeg busnes gosod lloriau fu'n darparu gwasanaeth am flynyddoedd lawer. Yn ystod y cyfnod clo, pan oedd llawer mwy o gerdded ar y llwybrau o gwmpas y pentref, roedd cael dod ar draws Geraint wrth ei waith a chael sgwrs yn gysur mawr i nifer.

Bydd colled ar ôl y pedwar ohonynt.

**Brysiwch wella**
Cofion cynnes at bawb sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar, ac yn arbennig y rhai sydd wedi gorfod bod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth - Duncan Brown, Gorwel; Norman Williams, Llidiart Wen a Dafydd Dafis, Bryn Teg - gobeithio eich bod yn well pob dydd.

**Eisteddfod Ysgol Brynrefail**
Llongyfarchiadau i holl blant a phobl ifanc y pentref a fu'n cymryd rhan yn yr Eisteddfod eto eleni. Derbyniwyd cyfarchion a llongyfarchiadau i enillydd y Gadair sef Efa Llwyd, Bryn Melyn - da iawn chdi Efa. Fel mae'n digwydd daeth yr ail yn y gystadleuaeth o Waunfawr hefyd - sef Gruff Llwyd, (dim perthynas!) a'r ail a'r trydydd safle yng nghystadleuaeth y gadair iau hefyd i blant y pentref, sef Mirain Llwyd a Miri Siôn. Gyda'r holl lenorion ifanc yn y pentref, siawns bod dyfodol disglair i golofn newyddion Waunfawr!

**Genedigaeth**
Cafodd Nia a Geraint Mitchell, Fach Goch, anrheg Nadolig arbennig eleni, gydag Eli Wen Mitchell yn cael ei geni ar 16eg Rhagfyr. Mae Eli yn chwaer fach i Kitty ac yn wyres i Marian, Tai Eilian. Llongyfarchiadau i chi gyd, mae'n siŵr eich bod wedi gwirioni.

**Enillwyr Clwb 200 Canolfan Waunfawr 2022**
Ionawr - £30: Siân Ll Jones (Gwêl y Grug); £20: Dewi Jones (Dol y Coed); £10: Hawys Tuff (Crymllwyn).
Chwefror - £30: Delyth Jones (Llys Eryri); £20: Heulwen Huws (Argoed); £10: Glenys Jones (Rhandir Mwyn).
Mawrth - £30: Nan Huws Roberts; £20: Allison Owen (Ty'r Efail); £10: Delyth Jones (Tan y Coed).
Ebrill - £30: Olwen Morgan (Cartrefle); £20: Helena Edwards (Anneddle); £10: Nelma Pritchard (6 Croes y Waun).
Mai - £30: Bethan Thomas (Ty'n Llain); £20: Sali Burns (Ty Capel); £10: Geraint Williams (13 Croes y Waun).
Mehefin - £30: Alfie Jones (Hafod y Rhug); £20: Martin Beech (Bryn Arfon); £10: Janet a Peter Greasley (7 Pant Waun).
Gorffennaf - £30: Sion Wynne (Dol Gwyrfai); £20: Helen Cox (Cartref); £10: Dafydd Dafis (Bryn Teg).
Awst - £30: Iola Jones (Bron Eifion); £20: Eluned Coles (6 Bro Waun); £10: Ann Jones (Croesor).
Medi - £30: Cadi Jones (Nant); £20: Elfyn Griffith (Blaen y Nant); £10: Aeron Jones (9 Croes y Waun).
Hydref - £30: Siân Thomas (Tŷ Ysgoldy); £20: Sara Davies (Bryn Melyn); £10: Steve a Carys Jones (Ty'n Cae).
Tachwedd - £30: Gwenda Griffiths (Y Dalar Deg); £20: Gill Wyn (Y Frenni); £10: Lowri Jones
Rhagfyr - £30: Mrs Margaret Owen (Bryn Gwylan); £20: Mrs Olwen Owen (Tref Eilian); £10: Zoey Aindow (Sŵn y Gwynt).

**Panad a Sgwrs**
Diolch i Gill Wyn am y canlynol:
'Mae Panad a Sgwrs wedi ailddechrau yn y Ganolfan bob pnawn dydd Iau rhwng 2.30pm a 4.00pm. Bu'n llwyddiannus iawn yn 2022 a chawsom lawer o hwyl yn sgwrsio a hel atgofion. Gobeithio y byddwn yn gallu parhau i fwynhau yn 2023. Mae croeso i unrhyw un rhwng 2 a 102 oed i alw i mewn am sgwrs a phanad!
Er mai dim ond £1 mae pawb yn cyfrannu bob wythnos, y tymor diwethaf llwyddom i godi ychydig o arian at y banc bwyd yng Nghaernarfon a rhoi cyfraniad i'r ysgol. Diolch yn fawr i'r plant am ddod i ganu i ni cyn y Nadolig!
Mae rota 2023 ar gyfer gwirfoddoli i wneud panad wedi cael ei chychwyn. Os oes unrhyw un yn fodlon helpu, cysylltwch efo Gill Wyn.
Ar Ionawr 19eg bydd Llyfrgell symudol yn dod i'r Ganolfan a'r gobaith ydi, os bydd digon o alw am y gwasanaeth, y bydd yn parhau yn fisol.
Te bach Dydd Gŵyl Dewi - ar yr **2il o Fawrth** rydym yn bwriadu cael 'te bach' i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Bydd hwn yn *treat* bach rhad ac am ddim! Fel arfer, does dim angen i bobl ddweud os ydyn nhw'n gallu dŵad neu beidio, ond os ydach chi am ddŵad ar y diwrnod yma, rhowch wybod erbyn Panad a Sgwrs Chwefror 16eg ar yr hwyraf os gwelwch chi'n dda. Bydd croeso i bawb. Peidiwch â bod yn swil!'

**Diolch**
Dymuna Eurwyn a Gwenda ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam Eurwyn yn ddiweddar.

**Gwasanaeth Noswyl Nadolig Capel y Waun**
Diolch i Gwenda am y canlynol: 'Mor braf oedd cael cynnal ein Gwasanaeth Carolau yng Nghapel y Waun ar noswyl y Nadolig a hynny am y tro cyntaf ers tair blynedd. Cafwyd cyfarfod arbennig iawn. Llawer o ddiolch i bob un a gymrodd ran ac i bawb ddaeth i gefnogi. Diolch hefyd am eich cyfraniadau hael wrth y drws. Gwnaed casgliad o £205 tuag at Feddygfa Waunfawr'.

## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 5ed o Chwefror, bydd gwasanaeth dan arweiniad y Parch. Idris Thomas i gychwyn am 2.00pm. Ar y 19eg o Chwefror, bydd gwasanaeth dan Arweiniad y Parch. Dewi Morris a gweinyddir y Cymun yn ystod yr Oedfa hon.

**Cydymdeimlo**
Ychydig cyn Nadolig, bu farw Elma Williams (Hen Gapel gynt), mewn Cartref Gofal yn Llandrillo-yn-Rhos. Roedd wastad ganddi sgwrs a gwên i'w chynnig i unrhyw un oedd yn pasio drwy'r pentref ger ei chartref, oedd rhwng y garej a'r safle bws. Yr ydym yn cydymdeimlo'n fawr gyda theulu a ffrindiau'r diweddar Elma, sydd bellach yn gorffwys yn yr hen Fynwent gyda'i diweddar ŵr a'u mab.

**Clwb Garddio Caeathro - Cyfarfod Rhagfyr 2022**
Gill Evans oedd y Wraig wadd ar brynhawn Mawrth 13eg o Ragfyr yng nghyfarfod y Clwb Garddio.
Mae Gill yn rhedeg cwmni Blodau Bach ac yn paratoi blodau ar gyfer pob achlysur.
Cafwyd pnawn difyr yn ei chwmni a dangosodd dau wahanol ffordd o osod blodau. Yr oedd y cyntaf yn arddangosfa gellid ei osod ar fwrdd neu silff ben tân. Yr ail yn arddangosfa o fewn cerdyn. Roedd yr aelodau wrth eu boddau yn gwylio Gill yn creu arddangosfeydd mor gelfydd.
Rhoddodd Gill y ddau osodiad i'w cynnwys yn y raffl. Bu 2 o'r aelodau yn lwcus i'w hennill.
Diolchwyd i Gill gan Rhiannon Owen. Mae Gill wedi gado dod atom ym mis Rhagfyr 2023 i roi arweiniad i'r aelodau ar wneud gosodiad blodau.

**Cyfarfod Ionawr 2023**
Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2023 ar y 10fed o Ionawr.
Y gŵr gwadd oedd Tomos Jones o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Testun ei sgwrs oedd rheoli rhywogaethau ymledol yng Nghymru. Eglurodd sut mae rhai planhigion a gyflwynwyd rhai canrifoedd yn nôl yn bygwth rhywogaethau brodorol ac yn gallu effeithio ar yr amgylchedd.
Mae rhai planhigion ymledol wedi dianc i'r gwyllt ac mae'r ymddiriedolaeth ac asiantaethau eraill yn ceisio rheoli eu heffeithiau a rhwystro lledaenu pellach.
Cafwyd cyngor gan Tomos ar sut y gall garddwyr chwarae eu rhan i fynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir gan blanhigion ymledol trwy ddewis y planhigion cywir, cadw planhigion yn eu gerddi a chompostio a gofal.
Diolchwyd i Tomos gan Rhiannon Owen.



## Cerddlun

### Cofio'r Chwarelwyr

Eu tynged oedd caledi a'r salwch
Yn llwch y gwaith llechi;
Ein braint yw cydnabod bri
Eu doniau a'u daioni.
**Bryn Jones**

**Sialens:**
Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r gerdd uchod, ysgrifennwyd gan y Dr Bryn Jones (sy'n hogyn o Lanberis yn wreiddiol). Mae'n nodi iddo fwynhau darllen cerddi a lluniau i gyd-fynd â'r cerddi yn Eco'r Wyddfa dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi bathu term newydd i'r rhai sydd eisoes wedi ymddangos ac i'w waith ei hun, sef - 'cerddlun'.
Tybed os hoffech chi fel darllenydd greu 'cerddlun' ar gyfer ein rhifynnau nesaf?



***Chwarelwyr yn Chwarel Dinorwig yn ystod y ganrif ddiwethaf (dim dyddiad). Mae fy nhaid, Robert Henry Jones (Bob Maes Llwyn) yn y cefn (chwith).***

Llun sy'n gysylltiedig â bro Eco'r Wyddfa a cherdd - 'cerddlun'! Does dim rhaid i chi ysgrifennu englyn, gall fod yn farddoniaeth ar unrhyw ffurf.
Byddai'n hyfryd derbyn eich 'cerddluniau'.

# Ysgol Waunfawr

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Nain Jacqueline a Nain Carys ar enedigaeth yr wyrion newydd. Dymuniadau gorau i'r teulu.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Lisa Griffiths ar enedigaeth Ania Glyn yn fuan yn y flwyddyn newydd. Pob dymuniad da iddi hithau yn ystod ei chyfnod mamolaeth. Bydd Mrs Siân Herbert yn dychwelyd atom fel athrawes Blwyddyn 6 dros dro. Croeso mawr iddi hithau.

**Themâu:**
**Fan Hyn Fan Draw** - bydd dysgwyr blynyddoedd 3-6 yn astudio gwledydd y Byd a byddent yn falch iawn o groesawu unrhyw un sydd eisiau dod i'r ysgol i sôn am eu profiadau teithio neu fyw mewn gwlad arall.

**Dathliadau** - dyma fydd thema'r dysgwyr ieuengaf. Byddent yn astudio dathliadau yma yng Nghymru a rhai o ddathliadau eraill y Byd.

**Cynllun Wyau Torgoch**
Yr ydym yn gyffrous iawn i gael bod yn rhan o'r cynllun a bydd dosbarthiadau Moel Eilio a Chefn Du yn gyfrifol am ofalu am wyau Torgoch am wythnos neu ddwy. Cafodd y dysgwyr gyflwyniad gan Dr Robin Parry a chymorth i ofalu am yr wyau, er mwyn dychwelyd y pysgod i Lyn Padarn. Mwy o fanylion i ddilyn yn ystod y tymor a chroesi bysedd y bydd yr wyau yn deor.







# DINORWIG

**Blwyddyn Newydd**
Aeth 2022 allan a daeth 2023 i mewn ar noson hynod o stormus. Bydd y mwyafrif ohonom yn cofio'r flwyddyn a aeth heibio am ei haf crasboeth. Tybed beth sydd o'n blaenau eleni? Bydd rhaid aros a disgwyl.

**Gwasanaethau'r Sul**
Dyma drefn gwasanaethau eglwysi Cefnywaun ac Ebeneser yn Nhŷ Elidir am ddiwedd Ionawr a mis Chwefror.

- Ionawr 22ain: Y Parchg John Pritchard am 3.30pm
- Ionawr 29ain: Y Parchg Eric Jones, Bangor am 3.30pm
- Chwefror 6ed: Y Parchg John Pritchard am 3.30pm
- Chwefror 12fed: Miss Eleri Jones, Bangor am 5.00pm
- Chwefror 19eg: Y Parchg Huw Pritchard, Llangefni am 5.00pm
- Chwefror 26ain: Y Parchg John Pritchard am 3.30pm

Ym mhwyllgor diwethaf yr Ofalaeth cawsom y newydd trist y bydd ein gweinidog, y Parchg John Pritchard yn ymddeol o'i ofalaeth ar Sul olaf Awst eleni. Mae gennym bellach gryn dipyn o waith ystyried beth fydd ein camau nesaf. Mae nifer y gweinidogion yn lleihau ac y mae'r cynulleidfaoedd yn lleihau hefyd. Nid tasg hawdd fydd llenwi'r bwlch, a bydd y golled ar ei ôl yn enfawr, nid yn unig i'r aelodau ond i ardal Y Llechen Las yn gyffredinol.

**Marwolaeth**
Ar brynhawn Gwener, 6ed o Ionawr bu farw Mrs Mair Jones yn 86 mlwydd oed; aelod o eglwys Cefnywaun. Gedy ei gŵr, John Maldwyn, mab a dwy ferch. Bu'n aelod ffyddlon yng Nghefnywaun cyn i'w hiechyd dorri tua phymtheng mlynedd yn ôl. Bu John a'r plant yn ofalus ohoni nes i iechyd John yntau ddirywio. Roedd Mair yn cael gofal yng Nghartref Penygroes, ac mae John yn cael gofal yn Seiont Newydd, Caernarfon. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu yn eu galar.

**Marwolaeth**
Anfonwn ein cydymdeimlad a'n cofion hefyd at y Parchg Gwynfor Williams, a gollodd ei wraig Katie yn 92 mlwydd oed. Fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Santes Helen, Penisarwaun.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion annwyl at bawb yn yr ardal sydd yn dioddef salwch ac yn cael bywyd yn anodd. Er ei bod yn ganol gaeaf, cofiwch fod y gwanwyn ar y gorwel.



**Cerdd-amdani** - Gethin Tomos neu Mr T
Daeth Mr T i'r ysgol i gyflwyno cyfres o weithgareddau cerddoriaeth yn ddiweddar. Yr oedd y plant wrth eu boddau yn canu, dawnsio a chyfansoddi cerddoriaeth. Diolch i Gethin am gyflwyno sesiynau hwyliog i'r plant. Yr oeddynt wedi mwynhau yn arw.





# Ysgol Brynrefail





**Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2022**

Tair blynedd yn ôl y cynhaliwyd Eisteddfod arbennig iawn yr ysgol ddiwethaf. Er mawr siom i bawb, golygodd rheolau Covid-19 a'r cyfnodau clo nad oedd posib trefnu Eisteddfod yn y blynyddoedd wedi hynny. Ond yna, wedi'r holl aros ac edrych ymlaen, cynhaliwyd yr Eisteddfod unwaith yn rhagor ar ddydd Iau, Rhagfyr 15fed. Unwaith eto cafwyd cystadlu brwd, miloedd o hwyl ac eitemau o safon uchel yn ymddangos ar y llwyfan. Yr oedd diwrnod yr Eisteddfod yn benllanw ar waith paratoi ac ymarfer ers wythnosau lawer a'r chweched dosbarth wedi bod yn hynod o brysur yn hyfforddi ar gyfer y gwahanol gystadlaethau.

Dyma farn rai o'r disgyblion eu hunain ar yr eisteddfod eleni:

**Olwen Baines**

"Eisteddfod Brynrefail 2022. Wel, lle i gychwyn? Cafodd y cystadleuwyr ddigonedd o hwyl yn ymarfer ar gyfer cystadlaethau canu, adrodd, actio, chwarae offeryn a dawnsio ymlaen llaw gyda'u tai a mynd ar nerfau'r capteiniaid druan! Gobeithio cafodd y gynulleidfa ddiwrnod bythgofiadwy hefyd. Yn ystod y dydd roedd llawer o gystadlu i'n cadw ni'n brysur, gan gynnwys unawd, cân ysgafn, sgets, llefaru unigol a mynydd o berfformiadau anhygoel gan unigolion buddugol yn y cystadlaethau offerynnol blwyddyn 7 i 9. Er ei fod yn ddiwrnod hir, roedd pawb yn dal yn llawn egni yn y nos i roi popeth (ac weithiau gormod os wnaethoch golli'ch llais) i mewn i'r llefaru, corau, chwarae offerynnau a seremoni'r orsedd. Yn sicr, uchafbwynt yr Eisteddfod oedd gweld hogiau hŷn yr ysgol mewn ffrogiau del, yn cael ei ddilyn yn agos gan gyfarfod neb llai na James Bond Brynrefail ei hun! Eilian oedd y tŷ buddugol ar ôl yr adloniant i gyd, a chlowyd yr Eisteddfod yn galonnog efo 'Hen Wlad Fy Nhadau' yn cael ei floeddio dros y lle. Gobeithio bydd Eisteddfod y flwyddyn nesaf yr un mor fyrlymus, a gobeithio mai Elidir fydd yn fuddugol!"

**Llŷr Elwyn**

"Digwyddodd rhywbeth anhygoel ar Ddydd Iau, y pymthegfed o Ragfyr… Eisteddfod Ysgol Brynrefail! Yr Eisteddfod gyntaf mewn tair blynedd! Nid yw'r Eisteddfod hon fel Eisteddfod arferol, ddiflas gydag ymarfer diddiwedd - na, mae hon yn wahanol. Mae pwyslais Eisteddfod Ysgol Brynrefail ar gael hwyl a mwynhau (rhywbeth a wnaeth y bechgyn hŷn yn arbennig – yn dawnsio o flaen yr ysgol gyfan mewn '*crop tops*'!)

Er gwaetha'r '*crop tops*', mae angen rhoi diolch mawr i ddisgyblion y chweched dosbarth, am wythnosau o waith cyn y diwrnod mawr, i drefnu'r digwyddiad holl bwysig hwn. Yn ogystal â'n helpu ni i baratoi ar gyfer y cystadlaethau, i'r pwynt lle'r oedd rhai wedi colli eu lleisiau!

Roedd nifer o'r cystadlaethau yn y prynhawn gan gynnwys unawdau offerynnol a lleisiol, partïon canu, a dawnsio disgo. Gyda'r nos cafwyd seremoni gadeirio, y partïon llefaru ac uchafbwynt yr Eisteddfod - y corau. Canwyd 'Yma o Hyd' gan gorau y pedwar tŷ, ond Gwyrfai ddaeth yn fuddugol.

Llongyfarchiadau mawr i Eilian am ddod yn fuddugol yn yr Eisteddfod gyda sgôr sylweddol o dros fil dau gant, a'r holl ddisgyblion a gymrodd rhan. Gobeithio y bydd mwy fyth o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan y flwyddyn nesaf i wneud yr Eisteddfod hyd yn oed yn fwy llwyddiannus."

**Mati Roberts**

"Roedd Eisteddfod Ysgol Brynrefail yn anhygoel! Roedd hi'n wych gweld y plant i gyd yn dod at ei gilydd er mwyn dangos i bawb beth roedd yr ysgol yn gallu ei wneud. Fesul tŷ daeth y plant ar y llwyfan i gystadlu ar gyfer ennill pwyntiau tuag at eu tŷ; Eilian, Gwyrfai, Eryri ac Elidir. Roedd gwylio'r disgyblion yn cael hwyl dros yr wythnosau yn ymarfer a'u gwylio nhw yn cystadlu ar y llwyfan yn werth ei weld. Cystadlaethau, côr, partïon merched a bechgyn, unawdau a hyd yn oed perfformiadau offerynnol cerddorol. Mae'r amrywiaeth o bethau rydych yn gallu gwneud yn anferth ac mae yna rywbeth at ddant pawb. Un o uchafbwyntiau'r dydd i bawb oedd y parti iaith dramor. Roedd gwylio'r disgyblion yn canu 'Waka Waka' yn anhygoel ac roedd bwrlwm y disgyblion yn y neuadd a'r llwyfan yn wych. Roedd Eisteddfod Ysgol Brynrefs yn brofiad arbennig ac rydw i'n edrych ymlaen at ei wylio am flynyddoedd i ddod."

**Erin Bowness**

"Wedi tair blynedd hir mae'r Eisteddfod yn ôl o'r diwedd! Ar y pymthegfed o Ragfyr cawsom ni'r fraint o gynnal Eisteddfod yn neuadd fawr yr ysgol i weld doniau difyr ein disgyblion unwaith eto. Cychwynnodd y diwrnod ar nodyn gwych o berfformiadau cerddorol ac unigol gan ddisgyblion hyderus blwyddyn 7 - 9 ac yna ymlaen i bartïon actio'r chweched dosbarth. Ar ôl bwrlwm o berfformiadau, ymlaen â ni i barti bechgyn a merched a dawnsio disgo, wrth ddisgwyl yn amyneddgar am y canlyniadau. Ar ôl egwyl fach daeth pawb yn ôl i ddangos mwy o'u talentau i'w cyfoedion. Coronwyd y noson gyda seremoni'r cadeirio ble cafodd genethod Ysgol Bethel gyflwyno'r Ddawns Flodau - roedden nhw'n wych! Roedd yn anhygoel cael cefnogi ein tai sef Elidir, Eryri, Eilian a Gwyrfai, ond Eilian ddaeth i'r brig efo'r nifer mwyaf o bwyntiau. Llongyfarchiadau i bawb a gymrodd ran ac alla i ddim disgwyl tan y flwyddyn nesaf - mae'n brofiad bythgofiadwy!"

**Ffair Nadolig Blwyddyn 10**

Fel rhan o'u gwaith tuag at y Fagloriaeth Gymreig bu blwyddyn 10 yn brysur iawn yn ystod yr hanner tymor diwethaf yn trefnu'r Ffair Nadolig sy'n rhan o'r her Fentergarwch. Dewiswyd Tŷ Gobaith fel yr elusen i'w chefnogi a gwerthfawrogodd y disgyblion y cyfle i gael bod yn rhan o'r bartneriaeth hon rhyngddynt hwy a Thŷ Gobaith.

Cafodd blwyddyn 7 ac 8 fwynhau'r Ffair ar ddechrau Rhagfyr. Roedd y Neuadd yn fwrlwm hapus a Nadoligaidd iawn ar hyd y dydd!


Llongyfarchiadau mawr i flwyddyn 10, roedd sgiliau a doniau'r holl flwyddyn ar waith. Braf iawn oedd cael cynnal y Ffair eto wedi dwy flynedd o fethu gwneud hynny oherwydd cyfyngiadau Covid 19. Llwyddwyd i gasglu'r swm anrhydeddus o £622.86 tuag at elusen arbennig iawn Tŷ Gobaith.

**Casgliad Nadolig Banc Bwyd Arfon**

Diolch i bawb am eu haelioni eto eleni wrth gasglu i Fanc Bwyd Arfon ar gyfer cyfnod y Nadolig. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r disgyblion a'u rhieni hefyd am eu parodrwydd i gyfrannu tuag at y casgliad yma o bob math o fwydydd.

Roeddem ni wedi creu cystadleuaeth rhwng pob dosbarth cofrestru i weld pwy allai gyfrannu fwyaf. Llongyfarchiadau i 7N am eu hymdrech arbennig fel criw cofrestru a'u llwyddiant yn cyfrannu mwy nag unrhyw ddosbarth arall yn yr ysgol – da iawn chi!





Diolch hefyd i'n hanogwr dysgu Jenny Knott am ddanfon y bwyd i'r ganolfan yng Nghaernarfon, roedd yr holl gyfraniadau a gaed yn pwyso 86.45kg!!!

# LLANRUG

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Berwyn a Pat Jones, Glanffynnon ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab bach - Hedd Llywelyn i Iwan a Lauren. Mae ei chwaer Isla wedi dotio at ei brawd bach newydd. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

**Diolchiadau**
Dymuna Syd, Einir a theulu Katherine Tyrrell ddiolch am yr holl negeseuon, cardiau a'r arian a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth drist yn ddiweddar. Mae'r rhoddion wedi mynd tuag at Adrannau Sleep & Ventilation Ysbyty Gwynedd ac Alltwen.

Dymuna Pat ac Edgar Ll. Jones, Tŷ Ni (y Swyddfa Bost gynt), ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn marwolaeth eu merch annwyl, Sharon Llewelyn Pierce yn 48 mlwydd oed wedi gwaeledd hir a wynebodd yn hynod ddewr. Yn athrawes yn Llanfaircaereinion ers dros 20 mlynedd, roedd yn uchel ei pharch gan ei chyd-athrawon a'i disgyblion. Gwraig annwyl i Leyton, mam gariadus Cara ac Elis, a chwaer annwyl Martin a'i deulu. Bu Sharon farw'n dawel yng nghwmni ei theulu yn Hosbis Severn, Yr Amwythig, a bydd yr holl gyfraniadau a dderbyniwyd er cof am Sharon yn cael eu cyflwyno i'r Hosbis.

Dymuna Tesni a theulu'r diweddar Thomas Rhys Evans (Rhys Cae Stanley) ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli priod, brawd, brawd yng nghyfraith ffyddlon ac ewythr arbennig. Diolch am yr ymweliadau, y llu cardiau a galwadau ffôn, ac am roddion o flodau a chacennau a dderbyniwyd. Diolch am y rhoddion hael o £1.550 a dderbyniwyd er cof am Rhys at Gronfa Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru a Chronfa'r Diffibriliwr yn Llanrug. Diolch yn arbennig hefyd i Jason Parry Jones, sef nai Tesni, am ei lwyddiant drwy gwblhau'r ras heriol Marathon Eryri a gynhaliwyd yn ddiweddar, ac o ganlyniad llwyddo i gasglu'r swm sylweddol o £435 er cof am Rhys. Mawr yw'r diolch iddo am ei ymdrech a'i gyfraniad. Diolch i swyddogion Capel y Rhos am gael defnyddio'r Capel. Diolch i'r Parchg John Pritchard am ei wasanaeth teimladwy ac i'r organyddes, Mrs Lowri Prys Roberts, am ei gwasanaeth. Diolch i'r cludwyr ac i Gill Evans am y blodau hardd i'r angladd. Diolch i berchennog a staff Bwyty Clwb Golff Caernarfon am drefnu lluniaeth ardderchog wedi'r angladd. Diolch hefyd am y deyrnged dda i Rhys o waith Gwilym Morris Jones (Mois) a ymddangosodd yn *Eco'r Wyddfa*, ac yn olaf diolch i Huw a Beti Jones, Pontllyfni am eu trefniadau trylwyr.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn yn fawr gyda theulu y ddiweddar Milly Williams, gynt o Penfro, Ffordd Bryngwyn fu farw yng Nghartref Nyrsio Glan Rhos, Brynsiencyn ar y 7fed o Ragfyr. Priod annwyl Tom, mam gariadus Judith a Tony, a nain arbennig ac amhrisiadwy i'w hwyrion a'i hwyresau, a hen nain garedig. Roeddynt yn gefnogol iawn ac yn aelodau ffyddlon yng Nghapel Bryngwyn.

Ychydig cyn y Nadolig, daeth colled enfawr i ran Pat ac Edgar Jones oedd yn arfer cadw'r Post yn Llanrug. Bu farw eu merch annwyl Sharon Llywelyn yn dilyn salwch hir a chreulon. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â gŵr Sharon a'i phlant, a hefyd ei brawd Martin. Rydym yn meddwl yn annwyl iawn amdanoch yn eich galar a'ch hiraeth.

Yn dawel yn Ysbyty Eryri ac o Gwynfryn, 4 Glanffynnon bu farw Ronnie Evans dros gyfnod y Nadolig. Gŵr addfwyn Doris a thad ymroddgar Adrian a'i briod Bethan, a thaid balch Alys a Leah. Colled drist i'w deulu a'i ffrindiau oll. Rydym yn danfon ein cydymdeimlad dwysaf atoch fel teulu.

Yn drist iawn hefyd, bu farw Geraint Owen, Waunfawr (Geraint Carpedi) ac rydym yn cydymdeimlo'n ddwys iawn â'i chwaer Jean Jones, Nant y Glyn ynghyd â'i fam Mrs. Margaret Owen yn Waunfawr. Rydym yn cofio'n annwyl iawn amdanoch chwithau.

Yn yr un modd, cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Jane Jones, Rhes Disgwylfa, Ffordd yr Orsaf sydd wedi colli ei hannwyl ŵr Norman (Jossyn). Roedd yn dad gwerthfawr i Judith a'i phriod Andrew, a Delyth a'i phriod Geraint, ac yn daid arbennig i Catrin, Elain, Nel ac Owi a hefyd yn frawd arbennig i Kate yng Nghaernarfon ac i Arfon a Megan ym Mhenisarwaun. Derbyniwch ein cofion annwyl atoch yn eich profedigaeth.

**Hafan Elan**
Bu trigolion a chyfeillion Hafan Elan yn brysur iawn yn dathlu'r Nadolig. Aethant i'r Ffair Nadolig yn Age Concern, Bontnewydd a mwynhau paned a mins pei a sgwrsio! Wedyn cawsant ginio Nadolig ardderchog yn y Clwb Golff yng Nghaernarfon.

Yr wythnos ganlynol cawsant brynhawn difyr iawn yn y Ganolfan yn mwynhau bwffe campus gydag adloniant gan Tim Ward, Llanberis ac Elain Grug - un o'i ddisgyblion. Braf oedd cael ymuno yn y canu unwaith eto gyda Tim.


Ar ben hyn i gyd cafwyd Bingo Nadolig gyda gwobrau raffl di-rifedi. Diolch i bawb fu'n cefnogi'r cyfan ac maent yn ddiolchgar iawn i Beverley y Warden ac i Elizabeth am drefnu'r gweithgareddau ar eu cyfer.

**Capel y Rhos - Gwasanaethau Chwefror am 10 o'r gloch**
Chwefror 5 - Mr Dafydd Iwan
Chwefror 12 - Ms Dorothy Williams
Chwefror 19 - Mr Aled Jôb
Chwefror 26 - Y Barch. Nerys Griffiths (Gweinidog)

**Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023**
Mae apêl codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 yn parhau i ffynnu ac wedi denu llawer o gefnogaeth ymysg trigolion yr ardal. Mae rhagor o ddigwyddiadau ar y gweill, felly beth am ymuno â rhai ohonynt fel bod yr ardal hon yn gwneud ei marc wrth ymgyrchu i gael Eisteddfod Genedlaethol lewyrchus yn 2023.
**Dyma'r digwyddiadau sydd i'w cynnal ym mis Chwefror:**
Taith Gerdded brynhawn Sul, 5ed Chwefror. Bydd Gareth Roberts yn arwain taith gerdded unwaith eto ac mae'n argoeli i fod yn daith ddifyr iawn sy'n dilyn trywydd diddorol ond hawdd ei cherdded. Yn ddi-os, bydd gan Gareth nifer fawr o straeon difyr a phryfoclyd. Bydd y daith yn cychwyn am 2.00pm ger cae chwarae Pwll Moelyn. Y tâl i ymuno ydy £3 a phlant o dan 12 oed am ddim. Gwisgwch ddillad cynnes a byddwch yn sicr o gael prynhawn wrth eich bodd!

Sgwrs a Chân yng nghwmni Dafydd Iwan yn Y Penbont, nos Wener, 17eg Chwefror am 7.00pm. Bydd hon yn noson arbennig iawn yng nghwmni un sydd wedi gwneud enw iddo'i hun fel canwr poblogaidd ers canol y chwedegau, ac yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd niferus. Mae nifer helaeth o'r tocynnau eisoes wedi eu gwerthu, ond os cysylltwch chi â Donna Taylor ar 07789 738 649, efallai y byddwch yn lwcus. Tâl mynediad yn £10 a bydd lluniaeth ysgafn i'w gael am dâl ychwanegol.

Cofiwch ddarllen tudalen gymunedol Llanrug – Llanrug Ddoe a Heddiw ar Gweplyfr am fwy o hanes digwyddiadau.



**Colli broets**
Os ydach chi wedi colli'r froets hardd yma mae Eryl wedi dod o hyd iddi yng ngwaelod Glanffynnon. Cysylltwch efo Eryl ar 01286 675 384 os ydach chi am ei chael yn ol.

**Merched y Wawr**
Estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau, nos Fawrth, 10fed Ionawr, gydag ymddiheuriadau gan nifer o ffrindiau. Canwyd Cân y Mudiad yn ddigyfeiliant a hynny'n swynol iawn!

Dymunwyd pen-blwydd hapus i aelodau sy'n dathlu penblwyddi'r mis hwn. Mae'r Gangen yn cefnogi gweithgareddau codi arian tuag at eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd gyda'r Dyddiadur, sy'n mynd o gwmpas bron wedi'i lenwi.

Er gwybodaeth mae Eisteddfod Cylch/Sir yr Urdd yn mynd ymlaen ar 4ydd o Fawrth a chynhelir Caffi fel yr arfer.

Cynhelir Cinio'r Llywydd Cenedlaethol, Jill Lewis ar 18fed Fawrth yn Neganwy Quays am £25.

A oes unrhyw un â diddordeb mynd ar Drip Cenedlaethol i Sempringham ym mis Mehefin?

Gwraig wadd y noson oedd Leisa Mererid, gydag 'Ymarferion Ioga'. Dyma wraig dalentog a hynod boblogaidd sy'n cynnal gweithdai mewn ysgolion, ac yn brofiadol ym myd y ffilmiau, teledu, theatr. Bu'n rhan o sawl cynhyrchiad gyda Chwmni'r Frân Wen. Cychwynnodd ei gyrfa yn Llundain fel aelod o'r Cwmni 'The Cold Ensemble'; bu'n aelod o



**Clwb Clychau'r Grug**
Cyfarfu'r genod ar 18fed Ionawr yn 'Friars, Bangor'. Anfonwyd ein dymuniadau gorau am Flwyddyn Newydd Dda i bawb a chofion at Gwyn, gŵr Gwyneth, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Ein cofion anwylaf at Glenys a Siencyn.Merched y Wawr.



'Te yn y Grug' yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst; Electra yn y Chapter Caerdydd; Bara Caws a chyfres Rhydeglwys ar Radio Cymru. Yn bwysicach i ni yma yn Llanrug, mae hi'n fam i Martha, Mabon ac Eban, a bellach yn byw yn Llys Awen. Mae nifer o aelodau o'r gangen yn mynychu ei dosbarthiadau Ioga yng nghapel y Rhos ar fore Iau neu yng Nghaernarfon ar fore Llun. Gyda phawb yn eistedd y gyfforddus ar gadair mewn cylch, cafwyd hanes cychwyn Ioga, ar lafar yn India, a hynny o dan goeden tua 7,000 - 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Erbyn hyn mae'n boblogaidd iawn ar draws y byd. Mae'n cysylltu sawl lefel corfforol - yn allanol, egnïol, emosiynol a meddyliol, gan ymestyn holl gategorïau ymlacio. Yn ei ffordd ddihafal cyflwynwyd yr holl gategorïau i ni, gyda phawb wedi mwynhau a gwerthfawrogi. Diolchwyd i Leisa gan Bethanne gyd phawb arall yn cymeradwyo.

Dymuna'r gangen anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau i Susan Land, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl a'n cofion annwyl at aelodau'r gangen sy'n sâl - brysiwch wella!

Diolch i genod Penisarwaun am y baned. Enillydd y raffl oedd Iris.

Ar y 14eg Chwefror edrychir ymlaen at gwmni'r arbenigwr Dafydd Roberts gyda, 'Llechi Cymru ar draws y byd'. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni ar yr ail nos Fawrth o bob mis, am 7.30PM yn y Sefydliad Coffa.

# Un funud fach ...

## CWESTIWN

Cwestiwn syml ydi, 'Wyt ti'n Gristion?' Gall rhai ei ateb yn gwbl ddidrafferth y naill ffordd neu'r llall: 'Ydw' neu 'Nac ydw'. Ond bydd eraill yn mynd i gylymau wrth geisio gwneud hynny. Oherwydd i rai., mae'n gwestiwn digywilydd; i eraill, yn gwestiwn amhriodol; ac i eraill eto'n gwestiwn amhosibl. Nid yw wrth gwrs yr un o'r pethau hynny. Ond gall camddeall beth yw Cristion esgor ar gamsyniadau o'r fath.

I rai, mae'n gwestiwn digywilydd am mai rhywbeth cwbl bersonol ydi ffydd: rhywbeth i'w gadw i ni'n hunain; rhywbeth nad oes hawl gan neb i holi yn ei gylch. I eraill, mae'n gwestiwn amhriodol am mai balchder o'r mwyaf fyddai i neb ei alw ei hun yn Gristion: pobl eraill ddylai ddweud a ydym yn Gristnogion ai peidio. Ac i eraill eto, mae'n gwestiwn amhosibl ei ateb: pwy feiddia ddweud ei fod yn deilwng o gael ei alw wrth yr enw hwn? Ac wrth wraidd y camsyniadau y mae camddealltwriaeth o'r hyn yw Cristion.

Nid cwestiwn digywilydd mohono gan nad rhywbeth personol nad oes modd nac angen ei rannu ydi ffydd ac argyhoeddiad Cristnogol. Nid cwestiwn amhriodol gan nad yr hyn a olyga'r gair 'Cristion' ydi person da. Nid ymffrostio na'i ganmol ei hun a wna neb sy'n arddel yr enw. Ac nid cwestiwn amhosibl ei ateb mohono chwaith gan nad mesur o safon foesol neu ansawdd ein bywyd ysbrydol yw'r enw hwn.

Er mwyn ateb y cwestiwn, mae'n rhaid i ni'n gyntaf ddeall mai person sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu Grist yw Cristion. Nid person da na pherson crefyddol, ac yn sicr nid person sy'n ei weld ei hunan yn well nag eraill, ond rhywun sy'n credu yn Iesu Grist ac yn ymddiried yn ei gariad a'i waith. Ac felly, er mwyn ateb y cwestiwn mae'n rhaid i ni hefyd wybod beth yw ein hymateb ni i'r Iesu. Ym mhle y safwn? A beth a gredwn? Un peth yw deall mai ffydd yng Nghrist sy'n gwneud rhywun yn Gristion; peth arall yw meddiannu'r ffydd honno ein hunain.

Trwy ras, a dim ond trwy ras yr atebaf 'Ydw' i'r cwestiwn holl bwysig hwn. Nid fy nghanmol fy hun a wnaf wrth ddweud hynny. Dydw i ddim yn honni fy mod yn Gristion da a ffyddlon: rwy'n rhy ymwybodol o'm methiannau i feiddio gwneud peth felly. Mi rydw i'n Gristion am fy mod yn credu yn Iesu Grist ac yn ei garu, a hynny am y rheswm syml ei fod ef wedi fy ngharu i yn gyntaf. Ond er i mi ddeall nad unrhyw ddaioni o'm heiddo fy hun sy'n fy ngwneud i'n Gristion, mi rydw i hefyd yn deall mai trwy'r ffordd yr ydw i'n byw a'r pethau yr ydw i'n eu gwneud y mae pobl eraill yn gweld fy ffydd yng Nghrist a'm cariad ato.

Trwy drugaredd Duw, mae gennyf fi a phawb sy'n credu yn y Gwaredwr hawl i'r enw 'Cristion'. Ond wedyn, mae gan bawb arall hawl i ddisgwyl ein bod yn byw yn deilwng o'r enw ac yn cael ein gwneud yn fwy a mwy tebyg i Iesu Grist o hyd. A thrwy ras, a dim ond trwy ras y digwydd hynny hefyd.

*JOHN PRITCHARD*






# Ysgol Llanrug

**Cwpan y Byd**
Bu'r ysgol gyfan yn dilyn Cwpan y Byd drwy fis Tachwedd. Yn anffodus nid oedd Cymru yn llwyddiannus ond dyma ni griw o blant a oedd yn dilyn yr Ariannin a tra bo'r peldroedwyr yn cael cwpan, yma yn Llanrug pêl gafodd cefnogwyr yr Ariannin.





**Nadolig**
Bu bwrlwm y Nadolig yma yn Llanrug am bron i fis cyfan! Cafwyd anturiaethau ar y bws i wahanol sioeau, ffilmiau a phanto. Cafwyd cyngherddau gwerth chweil yng nghapel Y Rhos ac yma yn y neuadd, disgo a chinio Nadolig blasus. Dyma rai o luniau'r dathlu.


















**Prosiect 'Derwyn' gydag Opera Cenedlaethol Cymru**

Yn ddiweddar, cynhaliodd Opera Cenedlaethol Cymru brosiect peilot o'r enw *Brave* gyda phlant Blwyddyn 6 mewn ysgol gynradd yng Nghaerdydd. Mae'r prosiect yn cyfuno dysgu am sut y gall plant gadw eu hunain yn ddiogel rhag cam-fanteisio ochr yn ochr â phrosiect creadigol mawr lle mae plant yn dysgu ac yn dadansoddi stori ynghylch cam-fanteisio ac yna ei throi yn opera eu hunain, a pherfformio'r darn.

Yn anffodus, fel y gwyddoch mae'n debyg, mae 1 ym mhob 4 o bobl sy'n cael eu hadnabod fel dioddefwyr cam-fanteisio bellach yn blant. Yn y newyddion yn ddiweddar, bu Mo Farah yn ddigon dewr i rannu sut y bu iddo ddioddef o gam-fanteisio a'i fod wedi'i fasnachu i'r DU i weithio mewn caethwasanaeth domestig yn wreiddiol.

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn cyd-weithio gyda phartneriaid gwych, sy'n arbenigwyr ym maes gwrth-gaethwasiaeth a cham-fanteisio ac rydym yn falch iawn o gyhoeddi fod y prosiect yn cael ei gynnal eto eleni yn y gogledd mewn partneriaeth â'r Galeri, disgyblion Ysgol Gynradd Llanrug a disgyblion Ysgol Y Gelli. Mae disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Gynradd Llanrug yn barod wedi cymryd rhan mewn gweithdy rhagarweiniol gyda'r cwmni opera ac yn edrych ymlaen at y gweithdai wythnosol sydd i ddilyn wrth iddynt baratoi at berfformiad mawreddog o'u hopera 'Derwyn' yn Galeri, Caernarfon cyn gwyliau'r Pasg.









# Dyddiadur Waunfawr 1940 - Rhan 2

Dyddiadur a rhai o atgofion o'r flwyddyn 1940, gan y ddiweddar Mary Awstin Jones, Penrhos, Waunfawr. Arferai Mary a John, ei gŵr, redeg busnes siop a becws ym mhentref y Waunfawr am dros 40 o flynyddoedd. Mae'r dyddiadur yn adlewyrchu hanes a bywyd yn yr ardal ac yn cyfeirio at rai o'r cymeriadau unigryw'r adeg honno. Roedd y dyddiadur wedi bod yn gorwedd mewn drôr yn y cwpwrdd am dros 40 mlynedd, nes iddo ddod i olau dydd yn y flwyddyn 1981.

* * *

Mae Hogia'r Wyddfa wedi canu am Fysus Bach y Wlad a'u cymwynasau. Cawsom ninnau hefyd sawl cymwynas ganddynt. Roedd bws William Jôs, Beddgelert yn rhedeg yn ôl a blaen o Gaernarfon ac yn aml byddai'n canu corn y bws i rywun o honnom fynd i'w gyfarfod i dderbyn rhyw neges neu'i gilydd. Unwaith ar ei ffordd heibio, canodd y corn ac estynnodd ddarn o hen bapur wal drwy'r ffenest ac meddai. "Ma' Miss Jôs, Tyddyn Isa yn gofyn newch chi 'neud y negas yma yn barod erbyn y do'i yn fy ôl!" Cafodd Annie Davies oedd efo ni yn y siop a innau gryn drafferth i ddarllen y cyfarwyddiadau gan nad oedd llinellau ar y papur. Roedd yr ysgrifen wedi mynd ar dro, a rhaid oedd troi'r papur fel llyw car, ac nid oes atalnod na choma ar ei gyfyl. Ond wedi pyslo a chwerthin gryn dipyn, llwyddasom ei'll dwy i ddeall y genadwri.

'Newch chi roi pump o fara i Wil Jôs a dipyn o deisus ar gyfar giang o ddynion ddod yma i ddyrnu at fory dim poeth ond wedi sadio'. Ac ar ddiwedd y nodyn, 'Ma Owan Jôs Tanbwlch isho howsgipar ac wedi chwilio am un yn bobman wedi clywad bod un yn eich ymyl chi wedi gadal ei gŵr ond mi neith tro newch chi ddeud wrthi'. Fe allasom wneud yr archeb yn barod erbyn i Wil Jôs ddod yn ôl, ond doedd gennym ni ddim clem am yr howsgipar!


Nodyn digri arall oedd yr un ddaeth llefnyn o hogyn i'r becws wedi ei sgwennu ar ymyl papur newydd. "Mam yn rhoi hwn i chi". Er mai Cymry oedd y teulu, yn Saesneg oedd y nodyn wedi ei sgwennu. 'Don't call here again. My husband has a lot of wind and it's your bread that is doing it!'.

* * *

Byddai pethau pur annisgwyl yn digwydd weithiau, fel pan roedd tair cwsmer yn hamddenol sgwrsio â'i gilydd pan ruthrodd dau gi drwy ddrws agored y siop ac ymladd â'i gilydd ar ganol y llawr. Fuo'r 'rioed rotsiwn gwffio! Y ddau yng ngyddfau ei gilydd a'r merched druan wedi dychryn. Crafangiodd un i ben y cownter a'r llall ar ben cadair tra roedd y drydedd mewn congl wedi ei dal 'rhwng y diafol a'i gynffon' fel pe tae ac yn sgrechian dros y lle. Llwyddodd John i afael yng nghynffon un o'r cŵn a'i daflu allan drwy'r drws, ond yn anffodus glaniodd y ci ar ysgwyddau Dafydd Thomas Tŷ'n Ffrwd oedd wedi dod at y drws ar ôl clywed sŵn y 'sgarmes ac edrych beth oedd yn mynd ymlaen.

* * *

Byddai'r hen wreigen Ann Gruffudd yn galw yn y siop a phan yn talu am ei neges a rhywfaint o newid ar ôl, byddai'n cyfri'r arian ac wedyn yn clandro rhyngddi hi ei hun. "O, ia! Mi alwa'i i




edrach am Ywan a Neli Ifas, 'ma gin i ddigon yn fan yma i gael bynsan bob un, ac mae'n siŵr na cha'i ddŵad odd'no heb gymryd te efo nhw, felly mi a'i a tair." Dro arall, "Rhowch chwartar o dda-da mint i mi fynd i Musus Robaitsh Tan-Bryn, rhen gryduras wedi ei chaethiwo, mi dara'i mewn i sgwrsio efo hi am dipyn ac mi geith gymryd clap rŵan ac yn y man ar ôl i mi fynd adra!". Os mai ond ceiniog fyddai'r newid, fe'i clywais yn dweud, gan enwi rhyw blentyn neu'i gilydd, "Mi fydd r'hen hogan bach yn chwara tua'r giât pan fyddai inna yn pasio, - rhowch lolipop i mi fynd iddi".

Mrs Simpson, Rose Cottage yn galw eisiau blawd a burum ar gyfer gwneud, 'Special Rolls' ar gyfer rhyw sosial neu'i gilydd yn Neuadd yr Eglwys nos yfory. Rwyf yn estyn y blawd sydd wedi ei bacio yn barod, un ac enw'r cwmni arno. Ond mae Mrs Simpson yn gwaredu rhag y fath beth ac yn dweud na thâl o ddim, bod yn rhaid iddi gael yr un fyddwn ninnau yn ei ddefnyddio ei'n hunain. Ond mi wyddwn pe bawn yn dweud mai'r un peth yn union yw'r ddau na choelia'i m'o honnof. Felly'r cwbl raid i mi ei wneud yw mynd drwodd i'r becws a gwagio'r blawd i fag papur plaen a chodi ceiniog yn fwy amdano ac am fy nhrafferth, a dyma hi wedi ei phlesio ar ei hunion. Cefais gyfle i ofyn i Mrs Simpson mewn diwrnod neu ddau sut hwyl gafodd hi ar y 'rolls' – "Lovely! That other flour wouldn't have done them half as nice – you really must have a good strong flour to get the result I got with mine!" (Taw pia'i bois).

* * *

Un fyddai'n galw heibio'r siop yn aml oedd Magi Wmffras. Fel 'Hen ddynas Penffridd' y'i gelwid ar y dechrau gan mai i Benffridd ar ochr Cefn Du y daeth hi yma o Ben Llŷn i fyw. Hen ddynes ddiflas oedd rhen Fagi bob amser, ac wrth ei bodd yn chwerthin am fy mhen. Fe gafodd dŷ cyngor yn stad Ael-y-Bryn a deuai i'r siop amryw o weithiau yn ystod y dydd i nôl mymryn o rhywbeth ac ni fyddai dichon cael gwared â hi. Byddai'n aros ac yn aros i siarad ac yn achwyn am bawb a phopeth a minnau'n diflasu gan fod fy amser innau mor brin. Hen ddynes ddiflas arall oedd Jinw, gwraig Twm 'Magi Jên'. Byddai'n holi pris pob peth a dweud, "O ia! Wel gneud rhai reit dda fy hun y bydda i bob amsar!" ac Annie Davies a minnau yn gwybod ei bod yn ormod o hen grimpen i wneud nac i brynu. Sylwi ar y fath wahaniaeth sydd rhwng rhai pobl a'i gilydd yn gwneud eu neges. Gwraig Tan-Bryn yn cadw ei llygad ar fys y glorian ac yn mynd dros ei bil yn ofalus cyn cyfri ei newid.

Gwraig Tŷ'n-R'ardd yn methu cofio beth sydd arni eisiau ac yn dal pawb i fyny ac yn methu dod o hyd i'w phwrs am ei fod yng ngwaelod y fasged â'r neges ar ei ben. Betsi Huws, Tŷ Pen yn rhoi ei thwrn i bawb er mwyn iddi gael siarad a cholestran, a Mrs Lloyd, Glangwyrfai yn disgwyl i bawb roi eu twrn iddi hi drwy ddweud yn uchel, "Does arna'i ond isio un peth!". Byddwn hefyd yn sylwi ar rai merched na fyddent byth yn fodlon gwneud eu neges ar y tro gan fyddai'n well ganddynt bicio ddwywaith neu dair i nôl rhyw fân betheuach. Byddwn yn meddwl am rai ohonynt mai esgus i dorri ar unigrwydd fydda'i hyn a'r rhai eraill heb ddigon i'w wneud a chael gafael ar rywun gwahanol i gael sgwrs, ac mae sefyll ynghanol criw i ddisgwyl twrn yn gyfle ardderchog i rai o'r fath i gael clonc drwy'i gilydd. Pan alw'n ar y nesaf i gael ei serfio cymhellant ar ei gilydd, "Cerwch chi gynta" dim ond iddynt gael lladd amser. Eraill wedyn yn gwylltio rhywun gan eu bod mor ddiamynedd. Deuant i mewn ac os byddai dau neu dri yn disgwyl o'u blaenau, gwnânt osgo brysur a thaflu golwg ymbilgar i'w cyfeiriad a stwyrian i ddangos eu hanfodlonrwydd i ddisgwyl. Canlyniad i hyn yn aml y byddai'r sawl a fyddai ddigon diniwed sylwi ar y cwsmer anniddig a gofyn, "Oes arnoch chi frys? Mi gewch fy nhwrn i os leciwch chi," a dyna'r union beth ddisgwyliant ac os byddai'r 'pared yn clywed' byddent yn trio eu sgil rhyw ffordd arall i styrio pawb. Os byddai'r nwyddau a fynnent wrth law, yna gwthio drwy'r criw a tharo'r union gyfri ar y cownter cyn martsio allan yn 'siampl' sut mae symud i bawb. Yna croesi'r ffordd i siop y Post ac os byddai'r fan honno yn llawn, dod yn ôl a chraffu ac ochneidio. Yn rhyfedd iawn pobl ddigon segur eu byd fyddai'r mwyafrif o'r rhain, 'Pobl y neges bach'. Pobl "dim ond isho peth a'r peth!"

* * *

Prysurdeb bore Iau fel arfer gan ei'n bod yn cau am un o'r gloch. Rydym wedi gwneud amrywiaeth o sosej rolls a phastai cig yn barod. Un o'r gloch a dyma gloi drws y siop a mynd i gael tamaid o ginio gan obeithio y cawn dipyn o lonydd. O na! Pan ar ddechrau bwyta, dyma guro ar y drws â llais gwraig Glanffrwd yn gweiddi. "Ydach chi wedi cau?" Mae John yn agor y drws a hithau yn dweud, "Doeddwn i'n cofio dim bod chi yn cau yn fuan a finna heb dorth yn y tŷ. Mi fasa'n beth cas tasa rhywun diarth yn galw a finna heb grystyn i gynnig iddyn nhw, yn basa?" O! ag ylwch, tra rydach chi'n ei hestyn, gâ'i dair mins pei a bocs o bowdwr golchi? Sori gneud traffath!" Yna llais arall yn galw, llais Lisi Owen, Pengongl, "Ga'i inna dorth fawr hefyd plîs? Cofio dim bod chi'n cau yn gynnar!" Minnau'n gadael y bwrdd a mynd i helpu John cyn dychwelyd at ginio llugoer. Dyma beth yw bod at wasanaeth y cyhoedd, wel, i'r ddwy yma beth bynnag. Diolch fod y rhan fwyaf o bobl yn fwy cyfrifol.

**Mary Awstin Jones**
**(1909 – 1985)**

# Apêl Nadolig yn codi dros £4,500 ar gyfer prosiectau bwyd lleol




Mae Cynllun Bwyd Cwm-y-glo a Llanrug yn un o 8 prosiect bwyd lleol sy'n mynd i elwa o arian a godwyd fel rhan o Apêl Nadolig Plaid Cymru Arfon.

Mae'r Blaid wedi cyhoeddi eu bod nhw wedi rhagori ar eu targed gwreiddiol ac wedi llwyddo i godi £4,765, i'w rannu rhwng prosiectau bwyd yn Arfon. Y 7 prosiect arall yw - Banc Bwyd Arfon (Caernarfon), Banc Bwyd Coed Mawr, Bwyd i Bawb (Bangor), Cynllun Bwyd yr Orsaf (Penygroes), Porthi Dre (Caernarfon), Pantri Pesda (Bethesda), a Banc Bwyd Eglwys Gadeiriol Bangor.

**Yn ôl Siân Gwenllian:**
"Mae hwn yn achlysur chwerwfelys. Ni ddylem fod mewn sefyllfa lle mae gennym ni 8 prosiect bwyd gwahanol wedi'u sefydlu'n weddol ddiweddar o fewn un etholaeth yn unig.


Er hynny, dwi'n teimlo balchder mawr fod pobl Arfon wedi bod mor hael. Rydan ni wrth ein boddau ein bod wedi rhagori ar ein targed gwreiddiol, yn enwedig gan y bydd yr arian a godir yn cael ei rannu'n gyfartal â phrosiectau bwyd ym mhob cornel o'r etholaeth.

Fel dw i wedi ei ddweud eisoes, dylai bodolaeth y prosiectau hyn godi cywilydd ar lywodraethau sydd wedi gorfodi blynyddoedd o lymder ariannol ar ein cymunedau.

Ond hoffwn fynegi fy niolch diffuant i bawb a gyfrannodd at ein hapêl."

**Ychwanegodd Hywel Williams AS, cynrychiolydd Arfon yn San Steffan:**
"Rydyn ni'n gweld mwy a mwy o deuluoedd yn gorfod troi at fanciau bwyd lleol am gymorth oherwydd y cynnydd mewn costau byw. Mae costau bwyd a thanwydd cynyddol yn effeithio ar bob un ohonom, ond i deuluoedd ar yr incwm isaf mae'r argyfwng hwn gymaint yn waeth.

Mae banciau bwyd a chynlluniau rhannu bwyd cymunedol ar draws Arfon yn achubiaeth i'r rhai sy'n cael trafferth ymdopi. Ac rydan ni'n ffodus iawn bod cymaint o bobl drugarog yma yn Arfon wedi ymateb mor hael i'n Hapêl Nadolig. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd."






# CHWILAIR MIS CHWEFROR - LLYNNOEDD

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y | D | U | R | A | R | Dd | U | C | D | N | Ff |
| E | D | I | G | E | T | C | Ng | E | W | Y | S |
| C | T | Y | B | R | Ch | E | M | F | N | Ll | E |
| A | D | F | W | I | H | L | P | N | I | N | I |
| S | L | O | H | A | M | Y | O | I | Y | Y | G |
| E | W | Ll | L | E | R | N | S | L | U | L | I |
| G | H | A | E | C | Ll | Ch | U | Y | A | E | A |
| F | W | O | D | I | B | D | E | S | T | M | U |
| R | I | P | G | Y | J | W | L | N | Ph | L | Y |
| A | D | W | O | B | Ll | Y | S | A | N | I | D |
| I | Y | N | F | I | N | T | C | A | Th | O | U |
| Th | E | A | S | Ch | W | N | Y | C | N | Y | Ll |

ALAW
CASEG FRAITH
CEFNI
CELYN
DINAS
DULYN
DU'R ARDDU
EIGIAU
FFYNNON LLIGWY
GLASLYN
LLYDAW
LLYN CYNWCH
MELYNLLYN
TEGID
Y DYWARCHEN

**Pa mor dda ydach chi'n adnabod eich bro?**
**Allwch chi ateb y cwestiwn isod:**

Pa lyn/llynnoedd sy'n rhan o dirwedd bro'r Eco?

Cewch yr atebion yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.






# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION CYFARFOD MIS TACHWEDD 2022

**1. I DDERBYN CROESO GAN Y CADEIRYDD,**
Estynnwyd croeso cynnes iawn i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau.

**2. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 18 HYDREF 2022.**
Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**3. I DDERBYN UNRHYW SYLWADAU YN CODI O'R COFNODION.**
Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard bod un fainc wedi ei chwblhau gan Menter Fachwen a bydd y llall ddim yn hir ar gyfer eu gosod er cof am y diweddar Gynghorwyr Charles Jones a Brian Jones.

**4. I DDERBYN ADRODDIAD** gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, aelod dros Gwm-y-Glo ar Gyngor Gwynedd.

**5. I DDERBYN ADRODDIAD** gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Lanrug ar Gyngor Gwynedd.

**6. I DDERBYN ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR HAMDDEN.**
Adroddwyd nad oedd cyfarfod wedi bod ond bod llawer iawn wedi digwydd. Ymhelaethwyd fod y poster ar gyfer y gystadleuaeth goleuadau Nadolig yn barod i fyny ar dudalen Facebook y cyngor, a'r bwriad eleni ydi i ymgeiswyr anfon lluniau i'r clerc. Yn hytrach na mynd o gwmpas yn beirniadu bob un, byddai rhestr fer yn cael ei thynnu a dim ond ymweld â'r rheini.

Adroddwyd fod y goeden Nadolig yn Llanrug i'w rhoi yn yr Ysgol Gynradd a bod trefniadau ar y gweill gyda Chyngor Gwynedd i'w gosod. Y bwriad ydi ei goleuo ar noson Ffair Nadolig yr Ysgol.

O ran y caeau chwarae adroddwyd fod angen gwirio'r asesiadau risg ac edrych beth sydd angen ei wneud ar frys ac adroddwyd fod y Cynghorydd Avril Jones a'r Cynghorydd Meirwen Lloyd wedi bod yn gwirio'r rhestrau o ddiffygion fel y'i hadnabuwyd ar yr asesiad risg.

Adroddwyd fod angen rhoi rheolau'r maes chwarae fyny ac y byddai'r clerc yn ymchwilio os oes templedi ar gael ac y gallwn eu haddasu fel yn briodol.

Adroddwyd fod ein cais am grant ar gyfer diffibriliwr wedi bod yn llwyddiannus a fydd dim rhaid i'r cyngor dalu dim ond am ei osod. Bydd y diffibriliwr yma yn cael ei osod ar wal y Fricsan a diolchwyd iddynt am eu parodrwydd i gytuno i hyn.

O ran y fainc sydd wedi ei lleoli ger parc sglefrio Cwm-y-Glo, adroddwyd fod angen creu polisi i sicrhau fod y cyngor yn cadw at yr egwyddorion ac yn unol â'i bolisi. Byddai'r clerc yn cysylltu ar fforymau clercod traws y Deyrnas Unedig i holi os oes gan unrhyw gyngor arall dempled fyddent yn fodlon ei rannu, fel y gallwn ei addasu fel yn briodol i anghenion Cyngor Cymuned Llanrug.









**7. I DDERBYN ADRODDIAD GAN BWYLLGOR Y FYNWENT**
Adroddwyd fod ein cais am grant tuag at Elusen Dyffryn Peris am hysbysfwrdd newydd yn y fynwent wedi bod yn llwyddiannus a diolchwyd i'r elusen am eu haelioni.

Adroddwyd fod cyfarfod o'r pwyllgor wedi ei gynnal ar y safle er mwyn trafod y gwaith sydd angen ei wneud.. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:

- Lleoliad yr hysbysfwrdd - nodwyd mai'r man mwyaf addas oedd wrth ochr y cwt
- Cytunwyd fod angen slabiau newydd o flaen y cwt
- Fod angen cwblhau'r gwaith peintio
- Cwblhau'r gwaith ar y byrddau ffasia
- Symud y tanciau dŵr wrth ochr y cwt
- Angen gwaith ar y wal sydd ar y ffordd i'r fynwent a bod hwn angen sylw brys
- Trafodwyd y giat sydd wrth y fynedfa i'r cwt a phenderfynwyd nad oedd pwrpas iddi, roedd yn beryglus, felly penderfynwyd ei thynnu.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**8. I GYMERADWYO CAU CYFRIF 'LLANRUG POOR HOUSE'.**
Nodwyd fod cryn drafodaethau wedi bod yn y gorffennol am y cyfrif uchod a gofynnir i'r cyngor gymeradwyo ei gau ac i'r clerc wneud y trefniadau angenrheidiol.

Penderfynwyd: Cau'r cyfrif yn gyfan gwbl ac ystyried dosbarthu'r arian yn unol â nod ac amcanion yr elusen pan y'i sefydlwyd.

**9. I DDERBYN DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN BWYD AC I GYMERADWYO'R ARGYMHELLION.**
Adroddwyd fod ein cais am grant tuag at ymestyn y cynllun bwyd ymlaen am y 12 mis nesaf wedi bod yn llwyddiannus. Oherwydd ansicrwydd ar y pryd parthed cyflenwad bwyd o Fairshare, manteisiwyd ar y cyfle i ymdrechu am grant fyddai yn ein galluogi i brynu bwyd pe byddai cyflenwad Fairshare yn byrhau, felly mae hyn yn newyddion da iawn. Nodwyd ein bod wedi derbyn ad-daliad oddi wrth Fairshare am y bwyd nad oeddynt wedi gallu ei ddarparu.

Nodwyd fod y Cynghorydd Avril Jones am drafod gyda'r becws os byddent yn fodlon cyflenwi bara.

Dywedwyd fod cyfrif ar ran y cyngor wedi ei agor gyda 'Booker Cash and Carry' a bod y Cynghorydd Berwyn Parry Jones a'r clerc wedi bod draw yn edrych beth oedd ar gael. Cawsom gyngor ac arweiniad gan aelod o'r staff ar ba fath o nwyddau i'w prynu.

Rydym nawr mewn sefyllfa i restru faint, ac i amcangyfrif ein gwariant hyd ddiwedd Mawrth 2023.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad a phenderfynwyd ymhellach fod angen llythyr o ddiolch i'r holl wirfoddolwyr sydd ynghlwm â'r cynllun, i garej Cwm-y-Glo ac i'r holl wirfoddolwyr sydd yn cynorthwyo mewn gwahanol ffyrdd.

**10. CEISIADAU CYNLLUNIO.**
a) Estyniad deulawr cefn. Graianfryn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.
b) Trosi sied ardd sydd o fewn cwrtil tŷ fforddiadwy i fusnes salon trin cŵn. 4, Sŵn yr Efail, Llanrug.

Cais yma wedi dod ger bron y cyngor dan rif cyfeirnod C22/0520/23/DT ble cefnogwyd y cais gan Gyngor Cymuned Llanrug ond ymddengys fod Cyngor Gwynedd wedi gwrthod y cais am y rhesymau a nodwyd.

Penderfynwyd: Mynegwyd siom gan y cyngor cymuned fod y cais yma wedi ei wrthod am resymau yn nhyb y cyngor doedd ddim yn adlewyrchu beth fyddai rhediad y busnes. Mae'r cyngor yn nodi fod adeiladau cyffelyb ar hyd a lled y Sir sydd ddim yn unol â'r rhesymau a nodwyd fod y cais yma wedi ei wrthod.

Penderfynwyd: I gysylltu â Chyngor Gwynedd yn rhagor i ddatgan anfodlonrwydd â'r penderfyniad ac i'w gymeradwyo unwaith yn rhagor.

**11. I YSTYRIED PA GAMAU ALL Y CYNGOR EI GYMRYD I DACLO PROBLEMAU O GEIR YN CAEL EU GADAEL YNG NGHWM-Y-GLO.**
Adroddwyd fod y cyngor wedi derbyn nifer o gwynion am geir yn cael eu gadael yn y llecyn parcio ar waelod Allt Goch, a'r golwg mae'r ceir yma yn ei adael. Mae'n effeithio ar welededd yr ardal ac yn amddifadu trigolion lleol rhag parcio eu ceir yno.

Penderfynwyd: Cyfeirio'r mater at swyddogion gorfodaeth Cyngor Gwynedd ac o bosib tynnu lluniau o'r sefyllfa fel gellir eu hanfon at y swyddogion perthnasol.

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## CRYNODEB O GOFNODION CYFARFOD 1AF TACHWEDD, 2022

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu yn yr ardal sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Ond cofiwn yn arbennig am John B Jones a fu am sawl blwyddyn yn was arbennig yn ei swydd fel clerc i'r Cyngor hwn. Bu i gynghorwyr dderbyn sawl cyngor da ganddo yn ystod ei waith ac yn ddiolchgar dros ben am ei gymorth a'i gyfeillgarwch. Anfonwn ein cofion at ei wraig Mary a'u mab Dyfan a'r teulu yn eu colled.

**Cofnodion 4ydd Hydref 2022**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir.
**Materion o'r Cofnodion**
**Cysgodfan Bws Brynrefail -** Yn anffodus nid oedd Ynyr yn bresennol i roi unrhyw sylwadau pellach am ei sgwrs gyda'r contractwr am roi fwy o gysgod ar y ffrynt. Hefyd bu i'r clerc gysylltu â'r contractwyr yn dilyn cwyn fod darnau o goncrit wedi eu gadael ar y safle.
**Apêl Eisteddfod Genedlaethol** - Pleser yw cyhoeddi fod cyfarfod wedi bod ynglŷn â hyn yn ystod y mis. Mae pwyllgor wedi ei sefydlu, ac mae sawl syniad wedi ei roi ymlaen i godi arian mewn gwahanol bentrefi. Edrychwch allan er mwyn cefnogi. Os oes rhywun yn dymuno rhoi rhoddion unigol, mae croeso i unrhyw un wneud hynny drwy gysylltu â thrysorydd ein hardal sef Siân Harris, Bethel.
**Cyfyngiadau 30 M.Y.A. gan drigolion ardal Racca / Penisa'r-waun** - Mae'r cyfyngiadau yma bellach wedi eu pasio, gan fod Llywodraeth Cymru yn trefnu fod 20 m.y.a. yn dod i rym o flaen ysgolion.

**Gohebiaeth a Materion Eraill**
**Cais Grŵp Cymunedol Brynrefail -**
Penderfynwyd cyfrannu £300 tuag at y grŵp sydd yn gwneud gwelliannau i edrychiad y pentref ac yn cynnal gwahanol ffyrdd o godi arian er mwyn prynu adnoddau i'r project.
**Cynllunio**
Dyma geisiadau a ddaeth i law yn ystod y mis:
**C22/0939/18/DT Arfryn, Fachwen.**
Codi estyniad ochr un llawr
**C22/0940/18/DA - Tŷ Mawr, Hafod y Braich, Dinorwig**
Diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau a gymeradwywyd dan ganiatâd cynllunio C17/1058/18/LL ar gyfer estyniad deulawr ac un llawr.
**C22/0937/18/DT - Felin uchaf, Pentir**
Balconi arfaethedig i ochor eiddo
**C22/0900/18/LL - 10 Stryd Newydd, Deiniolen**
Gosod Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer mono bloc
**C22/0889/DT - Llys Ifor, Bethel**
Anecs yng nghefn yr ardd.

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod 6ed Rhagfyr, 2022
**Croeso ac Ymddiheuriadau** - Rhoddwyd croeso gan y Cadeirydd, a gair o weddi gan Idris Thomas.
Derbyniwyd lythyr yn ymddiswyddo gan Richard Ll. Jones. Diolch iddo am ei waith dros y 35ain mlynedd diwethaf.
**Cofnodion 1af Tachwedd 2022**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir:
**Materion o'r Cofnodion**
**Apêl Eisteddfod Genedlaethol** - Bydd Noson Plygain yn cael ei chynnal yn Eglwys Crist Llandinorwig ar yr 21ain o Ragfyr. Mae sawl peth arall ar y gweill ddechrau'r flwyddyn hefyd.
**Llythyrau diolch** - Derbyniwyd llythyrau yn diolch am rodd gan y cymdeithasau canlynol:
Clwb Bowlio a Chlwb Snwcer Bethel, Eisteddfod Bethel a Phenisa'r-waun, Neuadd Rhiwlas a Penisa'r-waun, Cylch Meithrin, Clwb Snwcer a Seindorf Arian Deiniolen

**Gohebiaeth a Materion Eraill**
**Awdit a Ffurflen Flynyddol -** Derbyniwyd y Ffurflen Flynyddol yn ôl gan Awdit Cymru a phleser yw cael cadarnhau fod barn archwilwyr yn ddiamod a doedd dim wedi codi i sylw, na chwaith dim awgrymiadau na sylwadau pellach. Mae'r ffurflen i'w gweld ar hysbysfwrdd y Cyngor ac ar y wefan.
**Hysbysfwrdd Rhiwlas** -
Bu damwain yn Rhiwlas ddiwedd Tachwedd a gwnaed ddifrod i'r hysbysfwrdd. Mae'r mater yn nwylo'r heddlu, ac mae'r Cyngor yn delio gyda'r yswiriant.

**Cynllunio**
Dyma geisiadau a ddaeth i law yn ystod y mis:
**C22/0916/18/LL Plas Coch, Penisa'r-waun ac Ysgubor Plas Coch**
Newid defnydd tir presennol i greu strwythurau "lodge" dros dro er mwyn gosod ar gyfer gwyliau. Derbyniwyd sylw i bob cynghorydd ar y gwaith sydd eisoes yn mynd ymlaen yn yr ardal yma, a hynny heb ganiatâd. Mae sawl unigolyn wedi cysylltu â'r Adran Gynllunio yng Nghyngor Gwynedd. Rydym fel Cyngor yn gweithio yn agos ar y cais yma gyda'r adran yng Nghyngor Gwynedd. Mae 4 peth yma:
Rhent tŷ ar, ond o bosib heb ei gofrestru
Dymchwel ac ail adeiladu adeilad heb ganiatâd
Wedi rhoi cais am y "lodges" yn wreiddiol o dan gyfeiriad cyfagos (Bryn Eithin Terrace)
Hysbysebu'r Tŷ ar Air B and B, ynghyd a'r "lodges" sydd heb gael caniatâd.
Y clerc i ymateb, gan gynnwys pob cynghorydd yn y llythyr.
**C22/1032/18/DT, Bryn Bella Cottage, Fachwen,**
Estyniad ochor llawr arfaethedig - Dim Gwrthwynebiad
**C22/1034/18/DT Erw Pwll Y Glo, Pontrug**
Codi Estyniad ar gefn ac ochor tŷ annedd
**C22/1059/18/DT Craig Lwyd, Gallt y Foel,**
Estyniad Arfaethedig
**C22/1064/18/LL Tir ar A4244**
Adeiladu mynedfa gerbydol "gloch" dros dro (3 blynedd) gyda leiniau gwyn a seilwaith cysylltiedig i gefnogi cynllun ehangach amnewid Cebl Pentir Dinorwig
**C22/0934/18/LL Tŷ'n Llidiart, Seion**
Codi Stablau arfaethedig Dim Gwrthwynebiad
**C22/1092/18/LL Yr Hen Weithdy, Clwt y Bont**
Dymchwel y gweithdy presennol; codi tŷ a modurdy ar wahân; gwelliannau i'r fynedfa ynghyd a gwaith cysylltiedig. Dim, Gwrthwynebiad

**Llwybrau**
**Lôn Garret, Dinorwig -** Mae weiren a phren ar y giât wedi ei thynnu oddi yno yn gyfan gwbl. Mae dŵr yn llifo lawr y lôn gan fod y ffos yn llawn. Y clerc eisoes wedi gyrru i First Hydro a gofyn iddynt roi sylw gan roi'r ffens a'r giât yn ei hol a glanhau'r ffôs i arbed y dŵr lifo lawr y lôn.
**Llwybr trwy Barc Carafanau Llys -** Mae sawl un wedi trio dod o hyd i'r llwybr yma sydd yn cychwyn yn y maes carafanau, ac yn dod allan dros ffordd I Rhiw Goch yng ngwaelod y cae yng Nghlwt y Bont. Ar un amser oedd giât yn arwain o'r maes carafanau, ond mae yn edrych fel bod y llwybr wedi ei gau, ond eto mae yn dangos fod llwybr i fod yno ar fap llwybrau Gwynedd. Cysylltu gyda'r adran llwybrau i holi.

**O gwmpas y Bwrdd**
**Cysodfannau Bws** - Mae angen cysgodfa Bws Newydd yn lle'r un gwaelod ym Methel sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes. Hefyd mae cais wedi dod gan Gynghorydd Rhiwlas am 1 ychwanegol yn nhop Rhiwlas. Y clerc i gysylltu â National Grid gan ofyn am gymorth yn sgil yr anghyfleusterau yn gweithio ar bibellau pŵer o Lanberis i Bentir.
**Brynrefail** - Cais am hysbysfwrdd fel pob pentref arall. Mae hyn wedi bod ar dro ers tro, ond bod yn amhosib cael caniataid i'w osod ar dir yng nghanol y pentref. Fodd bynnag, mae yna hysbysfwrdd y capel, efallai y buasai yn gallu cael ei adnewyddu. Elen i holi ymhellach.
**Ffordd Deiniol, Deiniolen -** Bu i lori fynd heibio fan 'Utilities' oedd wedi parcio ar waelod yr allt, sydd yn gul. Wrth fynd heibio, crafodd wal ochor Tŷ Capel Disgwylfa, a thorri rhan o'r lander, a diflannu heb aros. Mae'r ffordd llawer rhy gul i loriau mawr ei defnyddio. Mae rhaid cael arwyddion dim lorïau yn dop y lôn a ger Garej Arfon.

## ATEBION I CHWILAIR MIS IONAWR - AFONYDD

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | B | O | E | Ll | C | Y | Ll | A | M | S | U |
| F | W | Ng | G | E | F | U | Y | C | E | I | Ll |
| O | H | Th | E | D | W | Y | F | O | R | E | Y |
| N | Y | L | Ch | R | A | M | N | N | Ch | Ph | T |
| G | I | N | M | I | T | B | I | W | P | N | S |
| O | S | Ll | E | C | N | L | O | Y | G | M | Ff |
| Ch | A | Dd | W | A | M | B | N | S | W | A | E |
| A | N | R | U | N | Y | R | E | W | Y | R | T |
| F | Ch | O | Dd | W | S | I | C | I | R | T | E |
| Y | B | D | I | D | O | F | C | E | F | N | I |
| W | Rh | R | A | N | Y | R | S | T | A | H | N |
| D | E | F | T | C | W | Y | W | G | I | Ll | A |

Gawsoch chi'r ateb i'r cwestiwn ofynwyd yn y rhifyn diwethaf? Sef - sawl afon yn y chwilair sy'n rhedeg drwy fro'r Eco?

**Ateb**: Pedair afon sy'n gywir ac os gawsoch chi bob un mi ydach chi'n adnabod eich bro!

**Eu henawau?** Afon Goch, Seiont, Marchlyn a'r Gwyrfai.

Llongyfarchiadau os gawsoch chi nhw i gyd yn gywir.

# Cyngor Cymuned Llanberis

## COFNODION CYFARFOD MIS RHAGFYR 2022

**1. Croeso**
Cofnodion cyfarfod misol rheolaidd y Cyngor am 7yh nos Fercher y 14eg o Ragfyr yn Y Ganolfan, Llanberis. Estynnwyd croeso i'r aelodau gan GE a oedd yn y Gadair a dymunwyd yn dda i TT a oedd newydd gael llawdriniaeth i'w gefn ar ôl damwain yn ddiweddar.

**2. Presennol ac Ymddiheuriadau**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis, Gwilym Evans (Cadeirydd), Iwan Harding, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Cyng. Kim Jones, Louise Price.
***Ward Peris:*** Iola Owen.
***Ymddiheuriadau:*** Nia Jones, Llinos Haf Pritchard, Helen Sharp, Trystan Thomas.
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**3. Datgan Buddiant:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**4. Cadarnhau Cofnodion:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 9fed o Dachwedd 2022 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan yr Is gadeirydd. Cynnig ac eilio: HLJ / LP.
Adroddodd y Clerc iddo anfon copi drafft o'r cofnodion i'r Eco er mwyn cadw'n gyfredol.

**5. Materion yn Codi o'r Cofnodion:**

***1. Cae Chwarae Ger y Llyn:***
Cwblhawyd y gwaith ac mae'r siglen newydd a'r offer plant bach wedi eu gosod a'u croesawu gan ddefnyddwyr y cae.
***2. Blaen Nant, Nantperis:***
O'r diwedd cafwyd cydnabyddiaeth gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) fod angen cais cynllunio ar gyfer yr adeilad newydd a godwyd yno. Bellach cyhoeddwyd y cais i'w ystyried - gweler 7.3 isod.
***3. Llwybr Coed Nantucha':***
Yn dal heb ragor o wybodaeth a'r llwybr yn dal heb ei drin.
***4. Coed Doctor:***
Gosodwyd giat newydd lle mae'r llwybr i'r coed yn gadael y ffordd fawr. Croesawyd hynny yn fawr.
***5. Mynwent yr Eglwys, Nantperis:***
Adroddwyd i'r gwair gael ei dorri ym Mynwent Eglwys Peris Sant, yn unol â'r addewid a wnaed, a bod hynny wedi bod mewn da bryd ar gyfer y Ffair Nadolig. Cafwyd gair o ddiolch oddi wrth y Warden. Awgrymwyd fod y Clerc yn cysylltu â'r Warden i weld a ydi'r Eglwys am i ni barhau i dorri gwair ac i sicrhau na fydd camddeall ynglŷn â dyddiad torri.
***6. Goleuadau Nadolig:***
Canmolwyd y goleuadau newydd a'r goeden yn y ddau bentref ac adroddwyd hefyd i'r Ffair Nadolig yn Llanberis a drefnwyd gan y Grŵp Datblygu fod yn llwyddiant mawr ar noson oer iawn. Yn Nantperis trefnodd IO orig o ganu carolau a mins peis yn Nhy'n Llan i groesawu'r goleuadau newydd yno.
***7. Panel penodi Clerc:***
Hyd yma doedd y manylion ar gyfer hysbysebu swydd y Clerc ddim wedi eu cwblhau, pwyswyd fod angen gwneud hynny erbyn canol Ionawr fan bellaf.
***8. Hyfforddiant:***
Cafwyd adroddiad gan RhaG a HLJ iddynt fynychu cwrs ar Gynllunio a drefnwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru. Dywedodd y ddau y byddent yn barod i fynd ar yr ail gwrs pan drefnir un yn y flwyddyn newydd. Gan nad oedd neb wedi trefnu i fynd ar gwrs hyfforddi gan Un Llais Cymru (ULlC) dywedodd y Clerc byddai cyfle i fynd ar gyrsiau ym mis Ionawr ac y byddai'n anfon dyddiadau dechrau 2023 cyn gynted ag y byddai wedi eu cael. Mae'n ofynnol i bawb fynychu o leia un cwrs yr un cyn diwedd Mawrth.
***9. Llainwen Ucha':***
Dim ymhellach i'w adrodd ynglŷn â'r llinellau melyn dwbl.

**1/3**
***10. Bws Sherpa:***
Roedd un o weinidogion Llywodraeth Cymru (LlC) wedi bod yn yr ardal yn gweld y gwasanaeth bws Sherpa sy'n gweithredu o gwmpas Yr Wyddfa. Gwasanaeth sy'n allweddol i drigolion pentrefi fel Nantperis, Nant Gwynant, Beddgelert ac eraill ac i'r ymwelwyr lluosog a ddaw yma. Cafodd EB gyfle i gael sgwrs â Lee Waters, Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd am y gwasanaeth a'i bwysigrwydd. Nodwyd bod llawer o'r farn fod angen rhoi hysbysrwydd ehangach i'r gwasanaeth er mwyn i fwy o bobl leol ei ddefnyddio yn ogystal ag ymwelwyr sy'n llawer rhy barod i ddefnyddio'u ceir a cherbydau tacsi.
***11. Sul y Cofio:***
Gofynnwyd i'r Clerc ddiolch i Beth Holding am arwain gwasanaeth Sul y Cofio yn absenoldeb anorfod yr offeiriad.

**6. Gohebiaeth:**
***1. APCE: Ymgynghoriad ar 'Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022 - 2027' (Drafft):***
Newydd ei chyhoeddi gan yr Awdurdod mae'r strategaeth ddrafft gyda chyfle i ymgynghori hyd at 3 Chwefror, 2023. Copi ar gael oddi ar wefan APCE a dylid gwneud awgrymiadau trwy'r linc yma - https://www.surveymonkey.co.uk/r/67LRTN7 yn Gymraeg neu yn Saesneg yma - https://www.surveymonkey.co.uk/r/89MCQYW
• Nodwyd fod APCE yn ddiweddar wedi penderfynu y bydd, dros amser, yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r geiriau Saesneg am Yr Wyddfa ac Eryri gan ddefnyddio'r enwau Cymraeg yn unig. Roedd hyn yn newydd ardderchog i'r aelodau a oedd yn y gorffennol wedi penderfynu dilyn yr un trywydd ac wedi gofyn i APCE a CG wneud hynny hefyd. Gofynnwyd i'r Clerc anfon gair at yr Awdurdod i'w longyfarch ar ei benderfyniad.
***2. CG - Cau Stryd Fawr Llanberis:***
Cafwyd rhybudd bod bwriad i gau rhan o'r Stryd Fawr am gyfnod. Bydd y gorchymyn yn gwahardd cerbydau rhag teithio o'r gyffordd a'r A4086 hyd at fynedfa Coed y Glyn. Mae angen agor ar draws y ffordd ger y ffordd osgoi er mwyn gosod dwythell drydan foltedd uchel o dan y ffordd. Mae'r gwaith yn gysylltiedig â'r cynllun i ail gysylltu gorsaf trydan-dŵr Dinorwig a'r rhwydwaith trydan cenedlaethol ym Mhentir.
***3. Gwefannau Bro360:***
Gair am wefan BroWyddfa360 a gwahoddiad i gyfrannu iddi. Mae gan y wefan hon Galendr arbennig ar gyfer hysbysebu digwyddiadau lleol ac mae'r llythyr yn annog trefnwyr digwyddiadau i wneud defnydd ohonni yn ogystal ag anfon deunydd storiol yn ogystal.
***4. Un Llais Cymru (ULlC): Comisiwn Cymunedau Cymraeg:***
Mae ULlC yn holi am ymateb cynghorau cymuned i ddogfen Comisiwn Cymunedau Cymraeg sy'n ceisio gweld sut y gellir cryfhau'r ardaloedd Cymreig. Yn anffodus mae dyddiad cau ULlC ymhen deuddydd ond fe ellir ymateb i'r Comisiwn o hyn hyd at 13 Ionawr 2023. Mae copïau o ddogfennau'r ymgynghoriad a'r ffurflen ymateb ar gyfer hynny yn y fan yma - https://www.llyw.cymru/dyfodol-cymunedau-cymraeg-galwad-am-dystiolaeth
***5. Un Llais Cymru (ULlC) - Bwlio***
Copi o ganllawiau newydd ar fwlio ac aflonyddu wedi ei baratoi gan ULlC. Gallai fod yn ddefnyddiol a bydd copi'n cael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf i'w fabwysiadu fel polisi i'r Cyngor hwn.


HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

***7. Un Llais Cymru (ULlC) - Llecynnau gwyrdd:***
ULlC gyda CG mewn partneriaeth ar sut i wella mannau gwyrdd cyhoeddus er mwyn bioamrywiaeth. Does gan y Cyngor ddim llecynnau yn ei feddiant a fyddai yn addas ar gyfer y cynllun fel hwn. Wrth gwrs mae Mynwent Peris Sant yn oedi cyn torri gwair er mwyn i blanhigion flodeuo a dod i hâd.
***7. CG - Croeso Cynnes:***
Cylchlythyr oddi wrth y Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau yn sôn am grant ar gyfer sefydlu llefydd a fyddai'n croesawu pobl i fod yn gynnes yn ystod y gaeaf. Cyn y dyddiad cau roedd y Clerc wedi anfon copi i ysgrifennydd Y Ganolfan.
***8. Cronfa Mân Gymorthdaliadau:***
Roedd y Clerc wedi cylchlythyru aelodau efo'r manylion a'r ffurflen ac wedi nodi mai dyddiad cau i dderbyn ceisiadau fydd prynhawn Mercher 4 Ionawr 2023.

**7. Cynllunio:**
**Cyngor Gwynedd:**
Roedd yr aelodau wedi derbyn rhybudd am y ceisiadau isod.

**1 • C22/0239/15/LL -** Canolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru *- dymchwel rhan helaeth o'r Ganolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru presennol (ar wahân i'r is-orsaf drydan presennol), newid defnydd y safle i ardal o laswelltir, ailosod goleuadau a darparu gwefr bwyntiau ar gyfer cerbydau i'r maes parcio presennol ynghyd a thirlunio cysylltiedig.*
**Sylwadau**: Mae'r cynllun hwn yn rhagori'n sylweddol ar yr un blaenorol a gynigiwyd. Wrth resynu nad yw'r cwmni am gadw'r adeilad a'i adnewyddu, nid oes gwrthwynebiad.
*2/3*
**2 • C22/1128/15/LL** - Storfa Glyn Rhonwy, Stâd Glyn Rhonwy, Llanberis - *Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer codi adeilad ffreutur dros dro yn* Siemens, Llanberis.
**Sylwadau**: Dim Sylw

**APCE:**
**3 • NP3/15/202C** - Blaen y Nant, Nantperis - *Cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer codi adeilad allanol sy'n cynnwys gweithdy, storfa a swyddfa.*
**Sylwadau**: Yn ôl y disgrifiad mae'r adeilad wedi ei adeiladu a'r cais hwn felly yn ôl weithredol. Hwn oedd yr adeilad yr ysgrifennwyd amdano gyntaf ar ran y Cyngor hwn i Awdurdod y Parc yn ôl ym mis Mawrth diwethaf i holi a oedd yna gais cynllunio wedi ei anfon, ond heb ei dderbyn gan y Cyngor. Yr ateb bryd hynny ar ôl sawl ymholiad oedd nad oedd angen cais gan i'r perchennog gael trafodaeth gyda swyddog/ion yr Awdurdod. Er i'r Clerc fynnu na allai hynny fod yn gywir, ac i'r swyddogion addo ymweld â'r safle, cymerodd fisoedd lawer cyn i hynny ddigwydd ac i gais gael ei gyflwyno. Prin fod yn rhaid dweud fod y Cyngor hwn yn hynod siomedig â'r ymateb a'r arafwch a fu ynghylch y cais, yn arbennig o gofio ei safle unigryw ym Mwlch Llanberis, un o ardaloedd godidocaf Eryri.

Bellach a'r adeilad bron wedi ei gwblhau rhaid cydnabod ei fod o wneuthuriad gweddus i'w leoliad ac nad oes gwrthwynebiad iddo. Serch hynny gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Brif Weithredwr APCE i holi pam y bu'r fath flerwch ynglŷn â r cais.

Cynnig ac eilio y ceisiadau cynllunio: KMJ / KJ

**8. Materion Ariannol:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Dachwedd, 2022**
**Cyfrif Cyfredol**: £53,916.74 **Cyfrif Cadw**: £66.60
**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
**CYFANSWM ... ... £5,640.90**
**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/10/2022 a 28/11/2022:**
**CYFANSWM ... ... £594.94**

Cynnig ac eilio yr oll o'r materion ariannol: RhaG / IH

**9 Adroddiadau Eraill:**
***1. Y Fynwent:***
Adroddodd y Clerc ei bod hi'n amser edrych ar gyflwr cerrig coffa'r Fynwent a gofynnodd am wirfoddolwyr.

**10 CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fercher Ionawr 11, 2023 am 7.00yh yn Y Ganolfan.




DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG









# Garddio

**CHWEFROR**

Mae'n arferol, yn ystod mis Chwefror, i chwilio a gweld arwyddion fod y gwanwyn yn agosáu. Fodd bynnag, wrth i mi ysgrifennu hwn, mae'r gwynt yn rhuo a'r glaw yn pistyllio i lawr y ffenestri. Does gen i ddim awydd felly i fynd allan i chwilio am yr arwyddion bondigrybwyll yma! Wrth frysio allan i fwydo'r adar neu nôl rhywbeth o'r cwt mi ydw i wedi sylwi bod rhai o'r bylbiau wedi gwthio eu ffordd allan o'r pridd, gan ymateb i lefelau uwch o oleuni wrth i'r dydd ymestyn. Mae'r azalea coch wedi blodeuo'n gynnar unwaith eto eleni ac yn llonni'r border bach honno. Mae'r twrch yn dal i dyrchio yn y borderi a gwneud llanast, dim yn un o'r gaeaf gysgwyr gwaetha'r modd! Er gwaethaf y tywydd gwyllt mae'r adar yn dal i gwffio eu ffordd i'r ardd drwy'r gwynt i ddod i gael bwyd.

Mae digonedd i'w wneud dan do, diolch byth! Cynllunio ar gyfer y tymor sydd i ddod ac mi ydw i eisoes wedi prynu ambell i baced o hadau i ddechrau planhigion bach fy hun. O edrych ar y dyddiadur garddio llynedd, dwi'n mynd i ddal arni am sbel. Unwaith bydd y planhigion bach yn barod i'w trawsblannu mae'n rhy oer yma, gan amlaf, i'w symud nhw allan i'r tŷ gwydr a dydy'r golau ddim digon da ar silffoedd ffenestri'r tŷ. Ond mi ydw i'n ddiamynedd, felly'n fwy na thebyg mi fyddai'n methu maddau ac yn siŵr o blannu ambell baced o hadau yn rhy fuan, unwaith eto.

Y tu allan, mae'n amser i docio llwyni a phlanhigion sy'n dringo, megis Wisteria a llwyni bythwyrdd. Erbyn meddwl mi allwn ni gael eira a rhew yn ystod y mis bach (neu yn mis Mawrth) ar y llethrau hyn. Peidiwch felly a bod yn rhy barod oherwydd ambell i ddiwrnod braf i blannu planhigion newydd. Cadwch at blannu planhigion gwreiddiau noeth (*bareroot*) a thasgau cynnal a chadw sylfaenol. Gallwch brynu planhigion gwreiddiau noeth e.e. mefus neu fafon lawer yn rhatach ar-lein a gaiff eu hanfon drwy'r post i chi.

**Tasgau tu allan**

1. Os ydy'r pridd yn weddol sych, paratowch wely ar gyfer rhai llysiau. Gallwch blannu rhai hadau yn y tŷ gwydr, os ydach chi'n ddigon ffodus i fod efo gwres ynddo. Os yw'n ddigon sych a heb rewi gallwch ddechrau chwynnu cyn i'r planhigion fu'n cysgu dros y gaeaf ail-ymddangos.
2. Dyma'r adeg i osod eich tatws hadyd i egino ar focsys wyau gwag. Dewiswch datws o faint wyau gan gofio eu gosod yn y bocsys a'u llygaid ar i fyny. Mi ydw i am ddal ati efo'r '*Pink Fir Apple*' eto eleni, gan fy mod wedi tyfu rhai llynedd o'r rhai dyfais i'r flwyddyn cynt. Mi fyddaf hefyd yn tyfu ychydig o ryw fath o datws cynnar ('*Rocket*' neu '*Maris Bard*' efallai eleni) er mwyn cael y pleser o'u codi o fy ngardd fy hun a phrofi blas unigryw tatws cartref. Pan fydd yr egin wedi cyrraedd tua chentimedr a hanner maent yn barod i'w plannu allan. O'u hegino cyn plannu mi dyfith tatws cynnar a rhai salad yn gynt a sefydlu'n well pan fyddwch chi'n eu plannu allan ym mhridd yr ardd neu mewn potiau mawr. Does dim rhaid cael gardd anferthol i dyfu llysiau eich hun.
3. Cychwynnwch dyfu'r cloron (*tubers)* dahlia mewn tŷ gwydr efo gwres.) Yn anffodus wnes i adael y rhai acw yn eu potiau ac mae'r rhew ac oerni wedi eu difetha - deud dim!) Dyfriwch ddigon i wlychu'r compost a dyfrio eto pan welwch arwydd o dyfiant newydd. Os nad oes ganddoch chi le cynnes tu mewn iddyn nhw, peidiwch â'u plannu am fis arall.
4. Gosodwch rwyd ar y llysiau a'r ffrwythau os ydy'r adar neu gathod y fro, neu eich cath eich hun, yn boen.
5. Gallwch docio unrhyw lwyni sydd wedi blodeuo dros y gaeaf. Gwnewch yn fawr o ambell i ddiwrnod braf, ond peidiwch â sefyll ar bridd neu laswellt sydd wedi rhewi. Mae blodau'r grug yn hyfryd ym misoedd llwm y gaeaf, ac ar eu gorau ar ffurf twmpathau tynn a chryno. Dylid tocio'r mathau sy'n blodeuo yn y gaeaf (yr *ericas* gan amlaf). Er mwyn eu cadw ar eu gorau, tociwch y twf newydd o danyn nhw efo siswrn miniog, ond gochelwch rhag torri'r hen dyfiant coediog. Tociwch mwy o'r ymylon yn hytrach na'r top i greu siâp crwm. Peidiwch â thocio'r mathau *calluna*, sy'n blodeuo yn yr haf, tan yr hydref.
6. Rhannwch fylbiau eirlysiau a phlannwch nhw mewn cysgod rhannol, tra bod y gwyrddni yn dal arnyn nhw. Gallwch brynu rhai '*in the green'* o'ch canolfan arddio, os nad oes ganddoch chi ddigon i'w lluosi, neu os ydach chi ffansi tyfu mathau gwahanol. Mae'n hynod anodd cael eirlysiau i dyfu o fylbiau. Oeddach chi'n gwybod bod sudd eirlysiau yn cynnwys cymysgedd debyg i wrthrewydd (*anti freeze*) ynddo fo, fel bod y blodau'n gallu goroesi tywydd iasoer. Efallai bydd y blodau'n disgyn pan yw'n oer iawn ond mi ddônt at eu hunain unwaith wneith hi gynhesu. Da ydy natur.
7. Mae'n amser da hefyd i docio'r coed rhosod (gan gofio clirio'r darnau rydych wedi eu tocio sydd ar neu wrth ymyl y goeden, i leihau'r siawns o'r smotyn du (*blackspot*) cyn rhoi taenfa (*mulch*) o dail fferm sydd wedi pydru'n dda o'u cwmpas. Mae angen torri'r *buddleia davidii* ddiwedd mis Chwefror. Bydd hyn yn sicrhau sioe o flodau lliwgar a hardd fydd yn denu gwenyn a glöynod byw i'ch gardd. Anelwch at dorri'r coesau yn ôl at ryw 20cm. Peidiwch â phoeni os oes ganddoch fynydd o frigau ar ôl tocio, d mi dyfith y llwyn yn ôl yn fuan.
8. Golchwch eich potiau a phlanwyr hadau, os nad ydach chi eisoes wedi gwneud hynny. Am unwaith mi ydw i wedi gwneud hyn yn ystod y tymor garddio llynedd.

**Tasgau tu mewn**

1. Dwi'n gwybod mod i wedi dweud am beidio tyfu pethau yn y tŷ yn rhy fuan, ond mae cychwyn *chillies* yn fuan yn fuddiol. Plannwch eich hadau mewn potiau 5cm (2 fodfedd) sydd bron yn llawn o gompost amlbwrpas. Dyfriwch y compost a gosod yr hadau ar yr wyneb fel nad ydynt yn cyffwrdd, cyn eu gorchuddio efo '*vermiculite'* neu gompost gogrynedig.
2. Roedd hi'n ddiwrnod Cenedlaethol Planhigion Tŷ ar y 10fed o Ionawr eleni. Felly beth am dyfu ychydig o blanhigion yn y tŷ?



Mae'r cactws Nadolig (schlumbergera) yn hawdd i'w tyfu o doriadau? Maent yn byw am flynyddoedd ac yn harddu'r tŷ ym misoedd oer y gaeaf. Tynnwch un neu ddau ddarn o goes y cactws gan ei droi a'i dynnu yn ofalus. Plannwch nhw at eu hanner (gyda'r ymylon pigfain yn wynebu at i fyny) mewn pot o gompost toriadau graeanog. Dyfriwch yn gynnil a'u cadw'n eithaf cynnes ar tua 20C (68 F) ond heb fod yn wyneb yr haul. Os ydynt wedi gwreiddio ymhen rhyw fis neu dda gallwch eu potio'n unigol i dyfu ymlaen.

Un planhigyn fyddai ddim yn ceisio ei gadw'n fwy yw'r '*poinsetta*' mae'n lot o waith ac fel dywedais yn flaenorol, dwi'n llawer rhy ddiamynedd i'w dinpwl tan fis Rhagfyr. Maent hefyd yn ddigon rhad i'w prynu! Mae'r *amaryllis* (*Pearl's hippeastrum*) yn ddigon hawdd i'w perswadio i ail-flodeuo fodd bynnag. Torrwch goesyn y blodyn ar ôl iddo orffen blodeuo a disgwyliwch i'r dail ddechrau melynu. Gorffwyswch y planhigyn drwy ei osod mewn man lled oer a pheidiwch â dyfrio rhyw lawer. Pan welwch dyfiant newydd ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref, cyfnewidiwch y ddau/dri centimedr uchaf o gompost efo compost newydd a bwydwch y potyn.

Gall blanhigion yn y tŷ hefyd greu persawr hyfryd yn eich cartref. Mi ydw i'n hoffi arogl hyfryd yr 'hyacinth' ond mae gen i ambell ffrind sy'n casáu'r arogl… pawb at y peth y bo. Gallwch hefyd dyfu planhigion sy'n rhoi persawr ar wahanol adegau o'r dydd e.e. mae'r *hoyas* yn arogli'n gryf gyda'r nos tra bo'r tegeirianau *oncidium* ar eu gorau yn y bore. Ar y llaw arall os ydach chi am gael persawr drwy'r amser dewiswch blanhigyn sydd efo dail persawrus. Mae'r teulu *pelargonium* yn hawdd i'w tyfu mewn man heulog ac yn rhoi amrywiaeth o arogleuon megis lemon, rhosyn neu afal. Mae'r arogl yn gryfach pan yw'r pridd yn cael ei gadw'n weddol sych. Un rhybudd bach, gall rhai pobl gael anhwylder ar y croen ('*dermatitis*') wrth gyffwrdd y dail.

***Rhosyn Mynydd***



# Yr Wyddfa

Yr Wyddfa yw'r mynydd uchaf yng Nghymru, ar uchder o 1,085 metr (3,560 troedfedd) uwch lefel y môr. Fe'i disgrifir yn aml fel 'mynydd prysuraf Prydain'. Mae wedi'i dynodi'n warchodfa natur genedlaethol oherwydd ei fflora a'i ffawna prin. Mae gan yr Wyddfa rai o olygfeydd gorau Prydain a gellir cyrraedd y copa ar hyd chwe llwybr adnabyddus. Bydd Rheilffordd yr Wyddfa yn ail-agor eleni ar y 1af o Ebrill.



**Llwybr Llanberis**
Llwybr Llanberis yw'r hiraf a'r mwyaf graddol o'r chwe phrif lwybr i gopa'r Wyddfa. Mae'n cynnig golygfeydd gwych o Gwm Brwynog a thros y Fenai tuag at Ynys Môn. Dyma'r llwybr mwyaf poblogaidd ymhlith cerddwyr hamddenol gan y credir mai hwn yw'r hawsaf i'w gerdded mewn tywydd mwyn. Ond, yn y gaeaf, gall llethrau uchaf y llwybr fod yn beryglus iawn.

Yn wreiddiol, cariwyd twristiaid i fyny'r llwybr hwn ar ferlod a mulod, ac mae'n parhau hyd heddiw i fod yn lwybr ceffyl.
**Pellter:** 9 milltir (yno ac yn ôl)
**Cyfanswm dringo:** 975 metr (3,198tr)
**Amser:** Tua 6 awr (yno ac yn ôl)
**Parcio:** Nifer o feysydd parcio yn Llanberis.
**Safle Bws Sherpa:** Safle ymgyfnewid Llanberis

**Llwybr y Mwynwyr**
Yn dilyn agor ffordd Llanberis drwy Fwlch Llanberis yn 1832, adeiladwyd Llwybr y Mwynwyr i gario copr o waith copr Britannia ger Llyn Glaslyn i Ben-y-Pass, lle y cludwyd ef wedyn i Gaernarfon. Er i'r mwyngloddio ddod i ben yn 1916, mae olion y gwaith i'w gweld hyd heddiw ar hyd ochr y llwybr.

Mae'r llwybr yn cychwyn yn llydan a gwastad, gan ddringo'n raddol heibio Llyn Teyrn i Lyn Llydaw, lle gellir gweld adfeilion yr hen fwynglawdd copr. O'r fan hon, mae'r llwybr yn dringo'n serth i Lyn Glaslyn, lle mae'n troi'n ddringfa galed dros sgri tuag at groesffordd Llwybrau'r Mwynwyr a'r Pyg. Mae'r llwybr wedyn yn igam-ogam i fyny i Fwlch Glas, ac yna ymlaen i'r copa.
**Pellter:** 8 milltir (yno ac yn ôl)
**Cyfanswm dringo:** 723m (2,371tr)
**Amser:** Tua 6 awr (yno ac yn ôl)
**Parcio a Safle Bws Sherpa:** System Talu ac Arddangos Maes parcio Pen-y-Pass. Os yn llawn bydd rhaid defnyddio Gwasanaeth Parcio a Theitho Sherpa'r Wyddfa sy'n rhedeg o feysydd parcio Nant Peris a Llanberis. Gellir gweld amserlen llawn y gwasanaeth ar wefan Cyngor Gwynedd.

**Llwybr Pyg**
Dyma'r mwyaf garw a heriol o'r chwe llwybr i fyny'r Wyddfa, sy'n arwain ar hyd odre Crib Goch. Mae'r llwybr i fyny Crib Goch ac ar hyd y grib yn hynod beryglus ac ni ddylai cerddwyr dibrofiad roi cynnig arni.

Mae peth ansicrwydd ynghylch tarddiad y gair Pyg. Y gred yw i'r llwybr gael ei enwi ar ôl Hostel Pen y Gwryd gan ddringwyr a oedd yn aros yno. Posibilrwydd arall yw y daw'r enw o'r ffaith bod y llwybr yn croesi Bwlch y Moch (fe'i sillefir yn Pig weithiau yn y Saesneg). Neu ai dyma'r llwybr a ddefnyddiwyd i gludo pyg (tar du) i Waith Copr Britannia yng Nghwm Glaslyn? Pwy a ŵyr?
**Pellter:** 7 milltir (yno ac yn ôl)
**Cyfanswm dringo:** 723m (2,371tr)
**Amser:** Tua 6 awr (yno ac yn ôl)
**Parcio:** System Talu ac Arddangos Pen-y-Pass.

**Llwybr Watkin**
Credir mai dyma un o'r llwybrau anoddaf i fyny'r Wyddfa, gan ei fod yn cychwyn ychydig uwchlaw lefel y môr. Mae'r llwybr yn cychwyn yn llydan ac yn eithaf gwastad, ond yn mynd yn greigiog tuag at yr ail hanner, ac yna'n croesi sgri rhydd cyn arwain i fyny i'r copa.

Mae'r llwybr hwn wedi'i enwi ar ôl Syr Edward Watkin, yr Aelod Seneddol Rhyddfrydol a'r entrepreneur rheilffyrdd. Roedd ganddo dŷ haf ar ddechrau'r llwybr ac ef oedd yn gyfrifol am greu'r llwybr o Chwarel Lechi De'r Wyddfa i gopa'r Wyddfa fel bod ymwelwyr yn gallu cerdded i'r copa yn gyfleus. Agorwyd y llwybr yn swyddogol yn 1892 gan William Gladstone, y Prif Weinidog. Ar graig ger y llwybr sydd bellach wedi'i enwi ar ei ôl - Craig Gladstone - anerchodd dorf o dros 2,000 o bobl.

Mae Llwybr Watkin yn llwybr arbennig o heriol i gopa'r Wyddfa. Dylai cerddwyr sy'n ystyried eu taith gerdded gyntaf i fyny'r Wyddfa roi cynnig ar un o'r llwybrau eraill.
**Pellter:** 8 milltir (yno ac yn ôl)
**Cyfanswm dringo:** 1,015m (3,329tr)
**Amser:** Tua 7 awr (yno ac yn ôl)
**Parcio a Safle Bws Sherpa:** Maes Parcio Pont Bethania, Nant Gwynant.

**Llwybr Rhyd Ddu**
Arferid galw'r llwybr hwn yn Llwybr Beddgelert gan mai o'r pentref hwnnw yr arferai cerddwyr ddechrau eu taith i'r copa.

Y llwybr hwn i fyny'r Wyddfa yw'r tawelaf o'r chwe phrif lwybr i'r copa, a'r un sy'n cynnig y golygfeydd mynyddig mwyaf trawiadol, yn enwedig i gyfeiriad Moel Hebog a bryniau Nantlle.
**Pellter:** 7.5 milltir (yno ac yn ôl)
**Cyfanswm dringo:** 895m (2,936tr)
**Amser:** Tua 6 awr (yno ac yn ôl)
**Parcio a Safle Bws Sherpa:** Maes Parcio Rhyd Ddu.

**Llwybr Llyn Cwellyn**
Dechreua'r llwybr hwn ger hostel ieuenctid y "Snowdon Ranger" ger Llyn Cwellyn. Roedd John Morton y 'Snowdon Ranger' yn tywys twristiaid Fictorianaidd ar hyd y llwybr ac fe agorodd dafarn ar safle'r hostel ieuenctid a'i alw'n Snowdon Ranger Inn.

Mae'r llwybr yn dringo'n raddol i fyny at, ac o amgylch, llethrau Moel Cynghorion i Fwlch Cwm Brwynog. Yna mae'n dringo'n serth dros yr ysgwydd uwchben Clogwyn Du'r Arddu cyn uno â llwybr Llanberis, ac yna traciau'r Pyg a'r Mwynwyr ym Mwlch Glas, ac yna ymlaen i'r copa.
**Pellter:** 8 milltir (yno ac yn ôl)
**Cyfanswm dringo:** 936m (3,070tr)
**Amser:** Tua 6 awr (yno ac yn ôl)
**Parcio a Safle Bws Sherpa:** Maes Parcio Llyn Cwellyn.



**Tywydd rhewllyd**
Mae cynllunio eich taith i fyny'r Wyddfa yn bwysig iawn. Gyda dros hanner miliwn o bobl yn ymweld â'r copa bob blwyddyn mae'r meysydd parcio'n gallu bod yn llawn erbyn 7.00 y bore! Mae'r llwybrau llawer distawach yn ystod yr wythnos ac yn gyfle gwych i gerdded gan bod penwythnosau a gwyliau ysgol yn brysur iawn.

Er gwaethaf natur brysur yr Wyddfa, mae risgiau a pheryglon i bob llwybr. Cynyddir y risgiau hyn yn ystod amodau gwael (fel tywydd gwlyb neu welededd gwael).

Mae Tîm Achub Mynydd Llanberis yn dîm gwbl gwirfoddol. Gallwch helpu drwy gyfrannu ar eu gwefan http://www.llanberismountainrescue.co.uk/cymraeg/rhoddion neu drwy ysgrifennu at: Y Trysorydd, Tîm Achub Mynydd Llanberis, 34, Glanffynnon, Llanrug Gwynedd LL55 4PR.



# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur - Rhan 11



Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, ychydig dros flwyddyn yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Oeddech chi'n gwybod mai'r gath hynaf i fyw, hyd y gwyddom, oedd *Crème Puff,* oedd yn 38 mlynedd a 3 diwrnod oed! Bu *Crème Puff* yn byw gyda'i pherchennog yn Austin, Texas o'r 3ydd o Awst, 1967 tan fis Awst 2005.

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori a hithau'n ben-blwydd arno.

"Heddiw mae'r deu-droediad yn hapus. Dwi'n gwybod eu bod nhw'n hapus oherwydd maen nhw wedi bod yn canu. Am ryw reswm mae fy enw fi yn y gân… Rwbath am 'Benbwl' hapus? Maen nhw'n wirion weithiau, mae'n rhy gynnar i weld yr un penbwl yn y ffosydd eto… Roedd yna barsel i mi, er mai nhw agorodd o. Neis iawn, mi ydw i'n hoffi ambell i ddanteithyn bach amheuthun rhwng prydau. Maen nhw'n mwydro rhywbeth am ' benbwl neu ella mai pen-blwydd' maen nhw'n ei ddeud? Cath a ŵyr. Beth bynnag ydy o, dydw i ddim yn meddwl i mi gael un o'r blaen. Erbyn deall mi ydw i yma efo nhw ar ben llethrau moel Rhiwen, yn y gwynt a'r glaw a rhywbeth oer a gwyn o bryd i'w gilydd, ers dwy flynedd. Maen nhw felly'n deud mod i wedi cyrraedd ffigyrau dwbl. Sy'n golygu yn ôl pob sôn fy mod i'n 10 oed! Dydw i ddim yn teimlo'n 10 oed cofiwch, debyg mod i'n cael lle da yn fan'ma, digon o fwyd, soffa gyfforddus a gwres hyfryd o'r tân, sydd efo mat fflwfflyd o'i flaen o. Wna'i gyfaddef, ond peidiwch â deud wrth bawb, dwi'n hapusach yn fan'ma nag ydw i erioed wedi bod o'r blaen, yn enwedig pan mai dim ond y ddau ddeu-droed gwreiddiol a fi sydd yma.

Mae yna fwy o bobl yn dod yma i'r tŷ erbyn hyn, rhai hŷn a rhai fengach. Weithiau mae'r deu-droediad yn mynd yn y car i rywle a dod a deu-droediaid bach yn ôl i'r tŷ efo nhw. Dwi wedi sylwi nad ydw i byth yn cael cynnig i fynd efo nhw. Eto, does gen i ddim syniad pam maen nhw'n eu nôl nhw yma. Maen nhw'n swnllyd, yn bwyta drwy'r amser ac yn rhedeg o gwmpas y lle ac yn fy nychryn i. Fel arfer dwi'n cuddio ar gadair o dan y bwrdd a'u gwylio nhw'n ddiogel o'r fan honno. Weithiau mae'r rhai ifanc yn aros yma drwy'r dydd ac wedyn yn mynd i fyny llofft gyda'r nos, fel mae fy neu-droediaid i'n ei wneud. Cofiwch dwi'n aros i lawr yn fan hyn, lle mae'n gynhesach a dwi'n gallu cael bisgedan fach neu ddwy yn ystod y nos os ydw i'n llwglyd. Dwi hefyd yn gallu mynd i fy nhoiled tu mewn, pan does neb arall o gwmpas. Wel dydy cath barchus a hen ddim isio cynulleidfa, wrth iddo wneud be sy'n rhaid ei wneud, yn enwedig os nad yw'n ffit i ddeu-droed na chath i fynd allan.

Mae heddiw'n ddiwrnod lle maen nhw wedi mynd i nôl rhai bach i ddod yma. Ar y cyfan dydy'r ddau sy'n dod yma heddiw ddim yn rhy ddrwg. Dwi'n meddwl eu bod nhw'n hŷn na rhai o'r deu-droediaid bach eraill. Mae'r un hynaf, a'r talaf, wedi treulio lot o amser yn eistedd wrth fy ymyl i, pan dwi o dan y bwrdd neu pan dwi ar y soffa neu o flaen y tân. Dydy o ddim yn symud yn sydyn nac yn gweiddi, ac wrth i mi arfer efo fo a dod i'w 'nabod o, dwi'n gadael iddo roi mwythau i mi. Chwarae teg iddo fo mae'n gw'bod yn union pa rannau ohonai geith o eu mwytho a pha rai i'w adael llonydd.

Fo ddaeth i lawr grisiau gyntaf, bore heddiw ac i'r gegin ataf i. Fel arfer y ddeu-droed fach sy'n dod i lawr i roi bwyd i mi, carthu fy nhoiled a gosod tân oer, ac weithiau os ydy'r gwynt yn chwyrnu a'r glaw'n chwipio'n erbyn y ffenestri mae hi'n ei danio ben bore, sy'n braf. Ond yr un bach ddaeth lawr i chwilio am ddiod ac mi ddaeth i eistedd ar fy soffa fi efo fi. Gan nad oedd gobaith iddo fo roi brecwast i mi, syrthiais i gysgu. Pan wnes i ddeffro roedd o wedi mynd a'r ddeu-droed fach wrthi'n mynd o gwmpas y lle fel mae hi'n ei wneud yn arferol. Wnaeth hi fwyd i bawb, ond roedd hynny ar ôl gwneud brecwast i mi, gan mai fi ydy'r '*top cat'*. Un peth sy'n sicr, does dim un o'r rhai bach a swnllyd wedi fy mrifo erioed ers pan ydw i'n fan hyn. A deud y gwir wrthach chi, dwi'n eitha hoffi'r sylw a'r maldod dwi'n ei gael ganddyn nhw. Ond peidiwch â meiddio deud wrth neb…

Maen nhw wedi mynd a'r deu-droediaid bach ifanc yn ôl i ble bynnag y daethon nhw ohono fo yn y lle cyntaf. Rhyfedd, ond mae'r tŷ'n wag a thawel, gobeithio na fydd fy neu-droediaid i'n rhy hir. Mae angen cynna'r tân ac mi ydw i'n dechrau hoffi cael cwmpeini…"






BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
**(01286) 870922**
Gwasanaeth
**FFRAMIO LLUNIAU**
www.fframia.com



# Ar ben arall i'r lein

**Ar ben arall i'r lein**
Dyma ni unwaith eto yn edrych ar agor drws tymor newydd, be fydd y tywydd tybed ar 3ydd Mawrth pan fydd yr afonydd yn ein croesawu unwaith eto? Mi fyddaf yn edrych ymlaen yn fawr am roi rhyw dro bach arni i lawr y Finiog ar ryw ben o'r diwrnod. Pwy fydd yno eleni i gael rhyw sgwrs fach a dechrau rhoi rhagolygon y tymor yn eu lle? Cawn weld yn de.

Beth sydd ganddom i edrych ymlaen ato felly? Wel a dweud y gwir mae'n dipyn yn gymhleth am be sy'n mynd ymlaen. I ddechrau mae Cyfoeth Naturiol Cymru i weld yn araf olchi ei dwylo a'i chyfrifoldebau, cyn belled ac mae gwarchod a datblygu pysgodfeydd yn y cwestiwn, mae'r gorchwyl yma fel petai yn cael ei drosglwyddo i oruchwyliaeth Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru. Ond nid yw'r teitl yma yn berffaith gywir gan fod y Ddyfrdwy gydag ymddiriedolaeth ei hunain. Be sydd i edrych ymlaen o'r newid yma tybed? Fy hun 'rwy'n gobeithio bydd yr ymddiriedolaeth yn llawer mwy positif yn ei gweledigaeth ar beth sydd angen ei wneud yn y fro hon, yn enwedig ar ddalgylchoedd Padarn, Rhythallt a'r Seiont. Dyma o bosib y lleoliadau mwyaf sydd wedi cael eu heffeithio gyda datblygiad gorsaf Bŵer Dinorwig. Pa ddalgylch afonig yng Nghymru sydd wedi colli llyn cyfan sef Peris a thalpiau o afonydd Peris, Bala a'r Hwch yn ogystal â'r cyfan o'r Dudodun fel meithrinfa i'r eog, brithyll môr, brithyll brown a'r torgoch.

Oedd mi oedd yr awdurdodau oedd yn gyfrifol am y gwaith yma yn cydnabod y buasai niwed mawr yn cael ei wneud i'r bysgodfa, ac i geisio lleihau'r llanastr yma yn 1985 fe dynnwyd allan dogfen gyfreithiol, oedd wedi ei selio ar ddeddf seneddol. Hyn oedd sicrhau fod cynllun stocio i'w gynnal am gyfnod ddibenodedig, ac ond i ddod i ben pan fod unrhyw awdurdod a chyfrifoldeb am bysgodfeydd yn y dyfodol yn dod i'r penderfyniad fod y bysgodfa wedi gwella yn dilyn effaith y datblygiad. Pwy all ddweud fod pethau wedi gwella - yn 1989 fe ddaliwyd dros 400 o eogiaid ar y Seiont - yn 2022 y rhif oedd 8. A does 'run o'n hawdurdodau'r cymryd cyfrifoldeb am hyn?

Yn y blynyddoedd yn dilyn 1985 fe fu peth brwdfrydedd i weithredu'r cynllun, gyda eogiad bychan o wahanol afonydd gogledd Cymru a hyd yn oed yr Alban yn cael eu gollwng i is-nentydd Nant Peris, Hwch, Afon Goch a'r Caledffrwd. Yn ogystal, yn y blynyddoedd yn arwain at 1985 cynhaliwyd cynllun arloesol, gyda eogiad bychan yn cael eu cyflwyno i Lyn Cwm Dwythwch. Nid wyf am ehangu ar hyn am y tro, ond mi fydd rhaid imi roi fy mhen ati i roi y pethau 'ma i lawr, neu byddant wedi mynd yn angof.

Ond troi yn ôl at y cytundeb stocio 1985. Yn dilyn rhai blynyddoedd o frwdfrydedd stocio, buan iawn daeth amseroedd o ddim byd yn digwydd, yna rhyw ail afael ynddi am ychydig. Ac felly mae wedi bod hyd at 2020 pan gyflwynodd CNC waharddiad ar unrhyw stocio yn ymwneud ag eog drwy Gymru gyfan.

Wel y cwestiwn 'rydym yn ofyn yn y fan hyn yw - a yw'r hawl gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ddiddymu deddf seneddol? Wrth gwrs mi fuasai'r gost o herio'r penderfyniad yma ymhell o afael y gymdeithas, ond efallai fod rhywun o'r darllenwyr gyda barn a fuasai'n rhoi'r hyder inni symud ymlaen ar hyn.

Wel 'rŵan ta, gan mae'n edrych fel bod llawer o waith ychwanegol yn dod i ffordd yr ymddiriedolaeth, be am iddynt ymgolli yn y gwaith o edrych a yw'n bosib adfywio tipyn ar ein cynefinoedd coll? Cawn weld beth fydd teimladau'r criw yma pan gawn gyfarfod a rhai o'r cynrychiolwyr yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn rhifyn mis Ionawr addewais dipyn o luniau o enillwyr tlysau'r gymdeithas a gyflwynwyd yn ein pwyllgor blynyddol ar yr 8fed Rhagfyr - wel dyma nhw:





Cadeirydd Dr Robin Parry yn cyflwyno Adam Burton, Caernarfon 9 a Ian Williams, Llanberis gyda'r tlysau fel yr amlinellwyd yn rhifyn Ionawr

O fater pleserus, mae'n rhaid troi at fater go ddiflas. Yn ystod Tachwedd gwnaethpwyd cais i Ddŵr Cymru am wybodaeth am amlder gollyngiadau o garthffos drwy ei system argyfwng. Wedyn sylweddolais gan nad yw'r cwmni yn wasanaeth cyhoeddus, nid oedd rheidrwydd iddynt ddatgelu'r wybodaeth. Er hyn, chware teg i'r cwmni, fe ddaeth yr wybodaeth, ac fel hyn mae pethau i chwi gnoi arno:-

Gwaith trin Nant Peris - dim caniatâd arllwyso, felly ddim yn cael ei fonitro!

Llanberis – 110 o arllwysiadau yn rhedeg am gyfanswm o 1353.25 awr.

Penisarwun – 110 arllwysiad yn rhedeg am 587.5 awr.

Llanrug - 103 arllwysiad yn rhedeg am 1353.25 awr.

Caernarfon - (dau ganiatâd) - cyfanswm o 210 arllwysiad am 1547.75 awr

Ar yr Afon Llyfni - gwaith Pontllyfni – 43 arllwysiad yn rhedeg am 540.75 awr.

Un cwestiwn i'w ofyn, a yw peth fel hyn yn dderbyniol? A wnaiff peth fel hyn ddim ond gwaethygu gyda'r holl adeiladu sy'n mynd ymlaen, a hefyd y ceisiadau am hawl i adeiladu sydd yn disgwyl penderfyniad.

Ond gobeithio fod y rhai sy'n ymdrochi yn Llyn Padarn yn mwynhau eu hunain! Ond dyna'r wybodaeth ac mae gan bawb ei cynyrchiolwyr ar y gwahanol gynghorau, oes unrhyw un o rhain heblaw rhyw ychydig o gyngor Llanrug yn cymryd unrhyw sylw tybed?

Er yr holl bryderon ynglŷn â llygredd, mae diddordeb yn y torgoch yn cynyddu, fel dywedais fod criw o Ardal y Llynnoedd a diddordeb mawr yn be sy'n digwydd yma. A wyddoch chi be, y pryder mawr ar eu llynnoedd yn enwedig Windermere, yw llygredd drwy garthffos yn achosi blŵm algaidd. Maen nhw yn y fan honno yn methu yn lân a chael Asiantaeth yr Amgylchedd i weithredu'n gadarn yn erbyn y troseddwyr, a does ddim eisiau imi ddweud pwy ydi'r rhain. Ond yma, diolch i'r drefn, mae gwaith adfywio torgoch Padarn i weld yn ffrwythloni, a'r unig ffordd i brofi hyn yw drwy'r gwaith mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud, y dyddiau o gwmpas 13eg Rhagfyr yw'r amser pan mae rhwydi yn cael eu gosod yn Afon y Bala. Eleni 'roedd yr helfa casglu grawn yn dda, gyda pheth o ffrwyth y 'sgodyn hyfryd yma wedi ei drosglwyddo i'r ddeorfa yn Crawia. Bydd y rhain yn eu tro yn symud i ofal disgyblion Ysgol Waunfawr am ryw ychydig o wythnosau cyn iddynt gael eu gollwng yn ôl i Padarn.

Wyddoch chi be, tydi'r fro yn colli allan, ond yn cael rhyw gip ar be sy'n mynd ymlaen yn y byd pysgodfaol, efallai'n awr gyda'r ymddiriedolaeth yn cael gafael mewn pethau, gobeithio'n wir bydd cyfle i symud ymlaen a datblygu gwaith o'r fath. Oes mae cyfle arbennig i lawr y ffordd addysgol a fuasai'n arwain at yrfa lewyrchus a phleserus. Cewch wybod sut mae pethau yn mynd gyda hyn.



***Casglu grawn o'r torgoch o Afon y Bala Rhagfyr 2022 (llun CNC)***

Wel dyma ni am y tro, yn ôl pob golwg mi fydd digon i adrodd arno yn y rhifyn nesaf.
***Huw Price Hughes***

# Ewyllys, Etifeddiaeth a Sgandal?

Yn y flwyddyn 1747 John Jones, Bryn y Fedwen oedd un o dri rhydd-ddeiliad ym mhlwyf Llanrug oedd â hawl i gael eu hethol ar reithgor. Y ddau arall oedd William Williams, Glangwna a John Rowlands, Plastirion. Roedd Glangwna a Phlastirion yn stadau sylweddol, ac yn berchen tiroedd a ffermydd yn rhannau isaf y plwyf. Mae plastai Glangwna a Phlastirion yn dal i fodoli, er iddynt gael eu haddasu a/neu eu hail-adeiladu. Ond diflannodd stad Bryn y Fedwen, a phrin fod olion o'r hen dŷ yn aros. Prin hefyd yw gwybodaeth trigolion presennol Llanrug am leoliad Bryn y Fedwen.

Roedd stad Bryn y Fedwen yn ffinio â thiroedd Plastirion, ac yn ffinio hefyd â thir comin Llanrug, sef y rhostir a elwid yn Rhos Rug, ble saif y pentref llinynnog presennol. Mae'n bosib fod ffermydd Glansaint a Llwyn y Brain yn eiddo i stad Bryn y Fedwen, ond nid oes sicrwydd pendant. Yn yr un modd, credir fod Bryn Mihangel a Didfa hefyd yn rhan o'r stad. Gwyddom i sicrwydd fod Bryn y Fedwen Fach, Bryn Llan a Tanlan (Tan y llan, Pontrug) yn eiddo i'r stad. Erbyn 1841 (Map Degwm Llanrug) roedd gan y stad dir yn Nhan y Coed (rhwng Bryn Ffridd a Bryn Cwil) ac ar gomin y Rhos Rug, sef y llain o Ffordd yr Orsaf bresennol ar hyd y Lôn Groes i Ffordd Crawia. Ar dir Bryn y Fedwen yma yr adeiladwyd tŷ i weinidog y Capel Mawr, ac ar hen dir Bryn y Fedwen y saif Ysgol Brynrefail. Cedwir yr enw yn nhai Bryn Fedwen Parc ar Ffordd yr Orsaf.

Roedd John Jones wedi ei eni tua 1693, a phan fu farw ym Mryn y Fedwen yn 1781 fe'i disgrifir fel 'gŵr bonheddig'. Yn ei ewyllys gadawodd log £3 (tua £260 heddiw) i brynu bara gwyn i'w rannu i dlodion y plwyf ar y Nadolig. Ynghyd â rhoddion ariannol eraill o ewyllysiau, fe'i defnyddiwyd gan Festri Blwyfol Llanrug i adeiladu tŷ i'r tlodion cyn diwedd y ganrif honno. Ond nid un o Fryn y Fedwen oedd John Jones yn wreiddiol. Ei briodas yn 1730 gyda gweddw ifanc o'r enw Gwen Rowland a ddaeth ag ef i fyw yno. Gwen Rowland oedd aeres Bryn y Fedwen, merch Rowland Probert. Roedd Gwen Rowland wedi priodi gyntaf yn 1718 gydag Owen ap William Morgan o'r Fachell, Llanddeiniolen. Eu mab hynaf oedd Rowland Owen. O ail briodas ei fam gyda John Jones, roedd gan Rowland hanner brawd, sef David Jones.

Mae'n anodd gwybod a fu ffrae neu gyfaddawd ynglŷn ag etifeddiaeth stad Bryn y Fedwen. Priododd Rowland Owen gydag Elizabeth Ifan, merch Ifan Dafydd, Hafod y Rhug. Bedyddiwyd eu plentyn cyntaf, John, yn 1757, a'r teulu bryd hynny yn byw yn Llwyn y Brain. Oddi yno y bedyddiwyd chwe phlentyn arall iddynt. Yn 1769 bu farw Gwen Rowland ym Mryn y Fedwen, gan adael John Jones yn weddw. Rowland Owen bellach oedd perchennog Bryn y Fedwen, ond roedd ei lys-dad gweddw, John Jones yn parhau i fyw yno, ac arhosodd ym Mryn y Fedwen hyd ei farwolaeth yntau yn 1781. Symudodd Rowland Owen yn ôl i'w gartref, ond cwta flwyddyn a gafodd yno, oherwydd bu yntau farw yn 1782.

Yn y cyfamser, tra roedd Rowland a'i wraig yn magu teulu yn Llwyn y Brain, roedd ei hanner brawd, David Jones, yn parhau ym Mryn y Fedwen. Daw'r cofnod nesaf amdano yn 1771, ddwy flynedd wedi marw ei fam. Mae merch iddo o'r enw Mary, yn cael ei bedyddio yn Eglwys Llanrug. Ond doedd David Jones ddim yn briod. Mae'r rheithor, wrth gofnodi'r bedydd yn ei ddisgrifio fel *"single man",* ac yn disgrifio mam yr eneth fach fel *"his concubine, Elizabeth".* Does wybod a oeddent yn cyd-fyw. Ond ddwy flynedd yn ddiweddarach mae merch arall yn cael ei bedyddio, sef Dorothy, ac fe'i cofnodir fel *"base daughter of David Jones and Elizabeth Griffith, his concubine."* Y tro hwn, rhoir y cyfeiriad fel Bryn y Fedwen. Byddai'n ddiddorol darganfod pwy oedd yr Elizabeth Griffith hon a roes enedigaeth i ddwy o enethod i David Jones, oherwydd methais a chael gwybodaeth amdanynt ar wahân i'r ddau gofnod bedydd. Ac nid yw hynny'n fawr o syndod, oherwydd bum mlynedd wedi bedyddio Dorothy, mae David Jones yn priodi yn 1778 – nid gyda'i 'concubine', Elizabeth, - ond gyda Katherine Roderick, merch Roderick William, Glyn Ifor, Pontrug. O fewn llai na blwyddyn maent yn bedyddio mab, John, (a fu farw yn deirblwydd oed) a dyna'r cofnod olaf am David Jones ym Mryn y Fedwen.

Ar farwolaeth John Jones yn 1781, symudodd (hawliodd?) Rowland Owen (ei lys-fab) ei gartref a'i etifeddiaeth, a symud yn ôl i Fryn y Fedwen. Symudodd David Jones (mab John Jones, a hanner brawd Rowland) o Fryn y Fedwen i Lwyn y Brain. Yn 1793 bedyddiwyd ail fab, Morgan, i David Jones a Katherine, a hynny o Lwyn y Brain. Bu David Jones ei hun farw yn Llwyn y Brain yn 1801.

Ar farwolaeth Rowland Owen yn 1782, ei weddw, Elizabeth Evans a'i fab hynaf, John Rowland (ganed 1757) a ddaeth i berchnogaeth y stad. Yn yr un flwyddyn ac y bedyddiwyd Morgan (mab David Jones a Katherine), bedyddiwyd hefyd Elizabeth, (bu farw yn flwydd oed) merch John Rowland a'i wraig, Mary o Fryn y Fedwen. Erbyn 1798 pan fedyddiwyd Jane, mae John Rowland yn cael ei ddisgrifio fel 'freeholder'. Mae hyn yn cadarnhau ei safle fel perchennog tir. Fe'i gelwir weithiau yn John Rowlands, ac y mae hyn yn cymhlethu ceisio darganfod perchnogaeth tir gan fod John Rowlands arall yn berchen stad Plastirion yr un cyfnod.

Ond mae'n ymddangos fod rhan o stad Bryn y Fedwen wedi ei gwerthu tua 1783-84, ac mai fferm Llwyn y Brain oedd honno. Mae cofnodion Treth Tir Llanrug yn cadarnhau hynny. Yn 1782 Elizabeth Evans, Bryn y Fedwen yw perchennog Llwyn y Brain, ond erbyn 1784 nodir fod *"Llwyn y Brain now part of Trefeilir".* Ac yn 1796 mae dogfen yn cofnodi gosod eiddo Thomas Williams. Llanidan, a Charles Evans, Trefeilir, Môn ar lês, ac ymhlith rhestr



**Safle Bryn y Fedwen ar Fap Degwm Llanrug**

faith daw *"a house called Llwyn y Brain in the parish of Llanrug",* ac yn yr un modd, eiddo o'r enw *'Brynmyhengel'* , sef Bryn Mihangel. Bu Charles Evans, Trefeilir farw yn 1802, ac mae'n bosib mai dyna pam y gwerthwyd yr eiddo yn 1807. Meddyg o Plymouth o'r enw John Hughes a brynodd Llwyn y Brain, ac ef fu'n gyfrifol am adeiladu'r plasty o'r un enw.

Yn 1795 daw'r enw Bryn y Fedwen fach i'r amlwg am y tro cyntaf yng nghofrestrau Llanrug. Dyma fwy eto o gymhlethdod! Yr oedd tŷ o'r enw Bryn y Fedwen fach yn agos iawn at y Bryn y Fedwen wreiddiol, ond mae'r enw hefyd yn cael ei ddefnyddio yn achlysurol am fferm Bryn Llan, a hynny mor ddiweddar â Map Degwm 1841. Teulu a chysylltiadau â fferm Eithin Duon oedd yn byw yn Bryn Llan. Roedd Margaret Owen, merch Owen John Prytherch, Eithin Duon wedi ei geni yn 1713, a phriododd a Griffith William yn 1741 a ffermio Bryn Llan. Nid yw'n ymddangos iddynt gael plant, ac erbyn 1778, mae Owen Jones (mab i John Owen, Eithin Duon, brawd Margaret) yn byw yno hefyd. Mae posibilrwydd fod Owen Jones wedi symud i Bryn Llan i gynorthwyo ei fodryb a'i gŵr gyda'r gwaith fferm. Yn y flwyddyn hon bedyddiwyd Elinor, merch anghyfreithlon i Owen Jones a Gwen Williams, ond erbyn geni'r ail blentyn, Margaret, roeddent yn bâr priod. Bedyddiwyd John (1786), Jane (1788), Gwen (1790) a Mary (1793) i gyd o Bryn Llan, ond yn 1795 pan fedyddiwyd Anne, rhoir enw'r cartref yn Brynfedwen bach. Bryn Llan oedd enw'r cartref ar fedydd Elizabeth (1798) a Grace (1802), ac o Bryn Llan y claddwyd Owen Jones yn 72 oed yn 1824. Mae'n amlwg felly mai yn Bryn Llan y bu'r teulu'n byw, ond ceir cofnodion am deuluoedd gwahanol yn y cyfnod hwn yn byw yn Bryn y Fedwen fach.

Mae'r cymhlethdod ynglŷn â pherchnogaeth Bryn Llan/Brynfedwen bach/Bryn y Fedwen yn cychwyn mor gynnar â 1784. Yn y flwyddyn honno mae cofnodion y Dreth Tir yn nodi Mr Rowlands, Crug (sef teulu Plastirion) fel perchennog Bryn Llan, a Griffith William yn denant. Elizabeth Evans yw perchennog Bryn y Fedwen. Erbyn 1788, John Rowlands, Esquire (sef Plastirion) yw perchennog Bryn llan, a John Rowland (mab Elizabeth Evans) yn berchennog Bryn y Fedwen. O 1789 hyd 1795 cyfeirir at y ddau berchennog fel John Rowlands, Esquire a John Rowlands (gyda'r 's' wedi ei hychwanegu). Yn 1801 Hugh Rowlands, Plastirion yw perchennog Bryn Llan a John Rowlands biau Bryn y Fedwen. Erbyn 1808 mae John Rowlands yn berchennog Bryn y Fedwen a Didfa. Dyna'r patrwm hyd 1822. John Jones (mab John Rowlands sy'n cael ei enwi fel perchennog Bryn

y Fedwen a Didfa hyd 1830 pan ddaw cofnodion y Dreth Tir i'w terfyn. Ond does dim sôn am le o'r enw Brynfedwen bach o gwbl – efallai ei fod yn rhy fychan i dalu'r dreth. Yn 1814 gwnaethpwyd arolwg o Stad Plastirion, ac y mae Bryn Llan yn cael ei chynnwys fel rhan o'r eiddo, yn fferm 30 acer. Mae cofnodion y Dreth Tir yn cadarnhau hynny ar bob achlysur, gan enwi Griffith William ac Owen Jones fel tenantiaid. Ond, mae Bryn y Fedwen hefyd yn cael ei henwi yn yr Arolwg fel rhan o eiddo Plastirion – yn fferm 12 acer – yn gwbl groes i gofnodion y Dreth Tir. A does dim sôn am Brynfedwen bach yn yr arolwg hwn chwaith!

Yn 1841 pan gadarnhawyd Map Degwm Llanrug, mae Bryn Llan yn cael ei ddangos fel 'Bryn y fedwen fach' ar y map, ac fel 'Bryn y fedwen fach and Bryn Llan' ar y rhestr, ac enwir y perchennog fel John Rowlands Esquire, Plastirion. Ond mae Bryn y Fedwen ym mherchnogaeth John Jones. Mae'n ymddangos fod yr hen ddaliad wedi ei rannu'n ddau, a Bryn y fedwen fach wedi mynd yn rhan o fferm Bryn Llan ac yn eiddo i Blastirion. Hon, o bosib yw'r daliad 12 acer sydd wedi ei hychwanegu at fferm Bryn Llan ac a gofnodir yn Arolwg 1814.

Yn 1825 y bu farw Elizabeth Evans yn 81 oed, gweddw Rowland Owen a mam John Rowland(s), ac yn Brynfedwen bach roedd hi'n byw ar ddiwedd ei hoes. John Jones (mab John Rowlands) ddaeth i ofalaeth Bryn y Fedwen yn 1822, a bu'n byw yno hyd 1865. Ei fab, David Jones a'i olynodd, a bu yntau yno hyd ei farwolaeth yn 1886. Yng Nghyfrifiad 1891, mae Anne, gweddw David Jones yn parhau yn Bryn y Fedwen, ond does neb o linach perchnogion gwreiddiol y fferm yno, dim ond tad gweddw Anne, gwas a morwyn. Yn 1901 mae Anne yn parhau yno, a mab gweddw iddi, Owen D. Jones, a dau o'i blant. Ond nid yw'n ymddangos fod yr eiddo yn cael ei ffermio. Fel *'draper and commercial traveller'* y mae Owen yn disgrifio'i hun. Owen oedd yr olaf o linach Bryn y Fedwen i fyw yn y cartref. Erbyn 1911 mae Anne, sydd bellach yn 84 mlwydd oed, wedi symud i Tynlon, Pontrug. Mae Owen yno gyda'i fam a'i ferch, Jane. O fewn pum mlynedd mae Tynlon ar werth, a hynny ar orchymyn swyddfa'r 'Official Receiver' yng Nghaer. Hen ferch anllythrennog (y Rheithor sy'n arwyddo drosti yn y Cyfrifiad) sy'n byw yn Bryn y Fedwen. A dyna ddechrau'r diwedd i gartref a fu'n ganolfan i stad sylweddol ar un cyfnod.

Erbyn heddiw, prin adfeilion sy'n weddill ar gyrion maes carafanau Erw Howel.

**Canmolwn yn awr...**

Yn y golofn olygyddol, 'Llafar' yn rhifyn Mawrth 1991 o'r Eco ysgrifennwyd: *"Beth am i Gynghorau Bro'r Eco glustnodi rhai cartrefi ble gellid gosod arwydd i gofnodi'r ffaith fod unigolyn o bwys lleol wedi ei eni a'i fagu yno?"* Mae Cymdeithas Ddinesig Caernarfon eisoes wedi gwneud hyn, ac y mae taflen ar gael bellach fel y gellir dilyn taith o amgylch y dref i ymweld â'r safleoedd. Deallaf fod Cyngor Llanddeiniolen yn y broses o gyflawni hynny hefyd. Felly, beth amdani Gynghorau Llanberis, Llanrug a'r Waunfawr?

Anfonwch unrhyw ymholiad am unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r 'Eco' i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA; ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com

## Cornel Ddarllen

**RHAGFYR 2022**

Roedd Rhagfyr yn brysur iawn yn y stryd ac yn y siop, ac amrywiaeth eang o lyfrau i blant ac oedolion yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael eu prynu fel anrhegion.

Dyma'r prif werthwyr yn y Gymraeg i oedolion. Roedd nofel ddiweddaraf Manon Steffan Ros, sydd wedi ei sgwennu ar gyfer pobl ifanc, yn boblogaidd iawn gyda phobl o bob oed, ac yn nofel gwerth ei ddarllen. Roedd pêl droed Cymru, a Chwpan y Byd, yn dal yn fyw iawn yn y cof, a thipyn o bobl eisiau darllen hanesion cefnogwyr Cymru ar hyd y blynyddoedd yn Y Wal Goch. Mae'n rhaid cael hunangofiant gan gymeriad adnabyddus bob Nadolig, ac yn amlwg roedd gwybod mwy am Cleif Harpwood o ddiddordeb i dipyn o bobl yr ardal. Ac roedd Nadolig Bardd a Llyfr Bach Tŷ Bach yn boblogaidd iawn fel anrhegion yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Mae nifer yn chwilio am nofel yn anrheg neu i'w ddarllen eu hunain dros y gwyliau, ac yn y flwyddyn newydd, a thair nofel dda iawn, ond gwahanol iawn i'w gilydd yw Braw Agos, Cwlwm a Chymru Fydd. Roedd Seiniwn Hosanna, cyfrol o garolau plygain, yn llenwi gap yn y farchnad gan fod cyfrolau plygain eraill bellach allan o brint. A llyfr hardd, lliwgar a hynod ddiddorol i bori drwyddo ar unrhyw adeg o'r flwyddyn yw Cymru Ddoe mewn Lliw a Llun.

'Dan ni'n edrych ymlaen nawr at flwyddyn brysur arall, a thon arall o lyfrau newydd da i ddiddanu a difyrru plant, pobl ifanc ac oedolion yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan obeithio bydd 'na rywbeth at ddant pob un o ddarllenwyr yr Eco yn y siop.

**10 Uchaf Rhagfyr**:

1. **Powell** - Manon Steffan Ros
2. **Y Wal Goch** - Ffion Eluned (gol)
3. **Breuddwyd Roc a Rôl?** - Cleif Harpwood
4. **Nadolig Bardd** - Tudur Dylan Jones a Mererid Hopwood (gol)
5. **Llyfr Bach Tŷ Bach** - Bethan Gwanas
6. ***Braw Agos*** - Sonia Edwards
7. **Cwlwm** - Ffion Enlli
8. **Cymru Fydd** - William Owen Roberts
9. **Seiniwn Hosanna** - Arfon Gwilym a Sioned Webb
10. **Cymru Ddoe Mewn Lliw a Llun** - Gwyn Jenkins

Eirian James

## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**

Gwasanaethau Mis Chwefror
Chwefror 5ed, 9.30am- Cymun Bendigaid, 4.00pm - Gwasanaeth Teulu
Chwefror 12fed, 9.30am - Cymun Bendigaid
Chwefror 19fed, 9.30am - Boreol Weddi
Chwefror 26ain, 9.30am - Cymun Bendigaid
Hefyd, cynhelir naill ai wasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, bob bore Mawrth am 11.00am.

## CHWARAEON

**YMDDEOLIAD GOHEBYDD CHWARAEON**

Wrth i'r rhifyn hwn o'r Eco weld golau dydd, mae hefyd yn ddiwedd cyfnod i berson sydd wedi bod yn un o hoelion wyth yr Eco ers nifer o flynyddoedd. 37 o flynyddoedd yn ôl, dechreuodd Richard Jones (Richard Llwyd neu 'Mêts Bach') fel gohebydd Chwaraeon i Eco'r Wyddfa. Yn ystod ei gyfnod fel gohebydd, mae colofnau chwaraeon yr Eco wedi cynnwys amrywiaeth eang o wahanol gampau, megis athletau, rhedeg mynydd, rygbi, criced, hoci, gymnasteg, hwylio, dartiau, nofio, snwcer, bowlio dan do, rasus moto-beics, yn ogystal â phêl-droed wrth gwrs!

Fel mae Richard ei hun wedi nodi mae bro'r Eco yn gyforiog o gampau amrywiol. Camp Richard oedd llwyddo i adlewyrchu hynny, gan ddathlu llwyddiannau'r fro unigryw hon.

Ein braint ni fel papur, yw diolch yn ddiffuant i Richard am ei gyfraniad amhrisiadwy dros gyfnod hir. O'i adnabod yn dda, yr ydym yn siŵr y bydd yn dal i anfon ambell stori arbennig i'r Eco yn y misoedd a blynyddoedd i ddod.



Diolch o galon i ti Richard am dy ymroddiad, dy ymrwymiad a'th deyrngarwch i Eco'r Wyddfa.

***Tony Elliott***
***Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith***

# O Waunfawr i Doha

64 blynedd o ddisgwyl ac fe ddaeth yr amser. Cymru o'r diwedd yn cyrraedd Cwpan y Byd unwaith eto. Tachwedd 19eg 2022, fe wnes i, fy nhad Dylan a fy mrawd Elgan gychwyn ar ein taith o Waunfawr i Doha. Rhywbeth allwn i ond wedi gallu breuddwydio am wneud blynyddoedd yn ôl. Ond nid breuddwyd oedd hyn ond realiti. Dwi wir ddim yn meddwl fod yr holl beth wedi suddo mewn yn iawn i mi tan oeddwn yn Stadiwm Ahmad Bin Ali ac yn gweld y môr o goch o nghwmpas. Er nad oedd yr hyn a gyflawnodd Cymru ar y cae pêl-droed yn ffantastig, roedd bod yno yn golygu popeth. Cymru fach ar y llwyfan mawr. Ni oedd y wlad gyda'r boblogaeth leiaf yn y gystadleuaeth oni bai am Qatar! Roedd hi'n brofiad anhygoel cael bod yn rhan o'r holl beth a dwi'n dweud wrth bawb sydd yn gofyn wrtha'i sut amser ges i yno fod popeth wedi bod yn wych heblaw am berfformiadau Cymru!


Cymru yn erbyn yr UDA oedd gyntaf yn Stadiwm Ahmad Bin Ali (a dyma lle fuodd Cymru yn chwarae eu holl gemau yn y gystadleuaeth). Roedd hi'n anhygoel cyrraedd y cae a gweld cefnogwyr Cymru ym mhobman. Daeth popeth yn realiti, fod Cymru ar fin chwarae gêm Cwpan y Byd! Allai ddim disgrifio'r teimlad o gerdded i mewn i'r cae a chymryd yr olygfa i mewn. *Goosebumps*. Teimlad emosiynol iawn hefyd, y teimlad o falchder ein bod wedi cyrraedd. Pan ddaeth crys Cymru i'r golwg ar y cae roedd hi'n anodd coelio a dyna'r anthem yn chwarae. Clywed y cord agoriadol a daeth y dagrau yn syth. Moment arbennig iawn. Y tro cyntaf i 'Mae Hen Wlad Fy Nhadau' gael ei chanu yng Nghwpan Y Byd. Roedd yn amlwg o'r sŵn cymaint oedd hyn yn ei olygu, pawb yn canu gydag angerdd a balchder. Dynion a Merched, hen ac ifanc yn eu dagrau. Roedd hi'n bleser pur cael rhannu'r foment yna gydag Elgan a Dad. Moment fydd yn aros gyda mi am byth. Roedd cenedlaethau o gefnogwyr yn uno gyda'i gilydd, pawb yn methu coelio ein bod ar fin gwylio Cymru mewn Cwpan y Byd.



Ymlaen felly i'r gemau. Yr UDA oedd yn gyntaf ac fe aethon nhw ar y blaen erbyn 36 munud o chwarae. Nid y cychwyn gorau i gystadleuaeth Cymru. Doedd yr hanner cyntaf ddim yn grêt a Chymru yn ei gweld hi yn anodd ymdopi gydag egni'r UDA. Ond yn yr ail hanner, daeth ail wynt i Gymru gyda Kieffer Moore yn dod ymlaen oddi ar y fainc. Roedd fel gwylio tîm hollol wahanol. Roedd amser yn mynd yn brin a Chymru dal ar ei hôl hi. Gydag oddeutu 10 munud i fynd, aeth Gareth Bale i lawr yn y cwrt cosbi. A'r dyfarnwr yn pwyntio at y smotyn. Cic o'r smotyn i Gymru! Dim ond un dyn oedd i'w gymryd. Gareth Bale. Pawb yn dal ei gwynt. Gôôôôôôl!! 64 blynedd o ddisgwyl ac roedd Cymru unwaith eto wedi sgorio yng Nghwpan y Byd. Pwynt felly i Gymru.

Iran oedd nesaf. Yng ngwres llethol y Dwyrain Canol. Gyda chefnogwyr Cymru yn yr haul crasboeth. Mi oedd hi'n boeth bois bach! Roedd lle i boeni os byddai Cymru yn gallu ymdopi gyda'r gwres, yn enwedig o ystyried eu gwrthwynebwyr. Fyddai Iran wedi hen arfer gyda'r gwres yma. Ar y cyfan, gêm digon di-fflach oedd hon. Dim llawer o gyfleodd i'r naill dîm na'r llall. Fyddai gêm ddi-sgôr wedi gwneud y tro yn enwedig wrth i'r gêm fynd yn ei flaen. Roedd Cymru yn stryglo ac Iran yn curo ar y drws. Gyda 5 munud ar ôl o'r 90 munud, daeth ergyd i Gymru. Cerdyn coch i'n cawr Wayne Hennessey. Ac yna fe agorodd y llifddorau. Daeth dwy gôl i Iran yn yr amser ychwanegol a dyna ergyd anferth i obeithion Cymru o adael y grŵp a mynd ymlaen i'r 16 olaf. Doedd hi ddim ar ben yn llwyr ond mi fyddai angen gwyrth yn erbyn ein prif elyn Lloegr.

Roedd pwysau mawr iawn ar Gymru yn mynd i'r gêm hon. Un ffordd o weld Cymru yn cyrraedd yr 16 olaf fyddai buddugoliaeth yn erbyn Lloegr ac UDA ag Iran i gael gêm gyfartal. Digon hawdd? Efallai ddim. Roedd pethau yn edrych yn eithaf addawol i Gymru i ddechrau, gyda hanner cyntaf digon cyfforddus. Yn sicr yn ystod hanner amser roedd gen'ai fwy o hyder nag oedd gen'ai ar ddechrau'r gêm. Fyddai un gôl yn ddigon i roi siawns i Gymru, gan obeithio y byddai canlyniad y gêm arall yn mynd o'n plaid. Cafodd yr hyder hwnnw ei chwalu bron yn syth yn yr ail hanner



gyda 2 gôl i Loegr mewn llai na 2 funud. Roedd realiti wedi taro. Dyma fyddai diwedd taith Cymru yn Qatar. Ac i gadarnhau'r cwbwl fe sgoriodd Lloegr unwaith eto gan iddi orffen yn 3-0.

Er nad oedd y perfformiadau ar y cae yn ddelfrydol roedd y profiad o gael gwylio Cymru yng Nghwpan y Byd yn hollol amhrisiadwy! Roedd llawer o gwestiynau ynghylch cynnal y gystadleuaeth yn Doha ond yn wir i chi, mi oedd yn arbennig ac yn ddinas mor hardd. Roedd rhywbeth neis o gael pawb yn yr un ddinas. Cyfle gwych i bawb gymysgu. Y peth mwyaf swreal am yr holl beth oedd gweld baner Cymru ar hyd a lled y ddinas a chefnogwyr o wledydd eraill fel Brasil, Yr Ariannin, Tunisia, Awstralia yn gofyn am luniau efo ni! Am gyfle i roi Cymru ar y map! Dyna beth yw un o'r pethau gorau am bêl-droed, roedd pawb yno am yr un rheswm a phawb yn dod at ei gilydd i ddathlu pêl-droed. Roedd y bobl leol hefyd yn ofnadwy o groesawgar a wastad yn barod i helpu. Dwi'n siŵr fod pawb oedd yn Doha yn clywed y geiriau "Metro, this way" yn eu cwsg am rai dyddiau ar ôl cyrraedd adref! Efallai nad oedd y chwaraewyr wedi troi fyny ar y cae, ond yn bendant roedd y cefnogwyr wedi oddi ar y cae. Roedd bloeddio Yma o Hyd yn emosiynol iawn yn ystod y gemau ac yn atgoffa rhywun pa mor bell mae Cymru wedi dod "er gwaethaf pawb a phopeth dani yma o hyd".

Mae'n biti nad oedd Cymru wedi gallu dangos i'r byd beth maent yn gallu gwneud oherwydd rydym ni yn gwybod ein bod yn gallu gwneud yn llawer gwell. Ond mae'r balchder o fod wedi cyrraedd yno yn y lle cyntaf yn siarad cyfrolau. Gobeithio na fydd rhaid disgwyl 64 blynedd arall i weld Cymru yng Nghwpan y Byd eto!

**Mared Rhys Jones**

## Diolch Gareth Bale

Gareth Frank Bale. Lle mae rhywun yn cychwyn? Wel, mae diwedd cyfnod wedi ein taro. Ionawr 9fed 2023 fe gyhoeddodd Gareth Bale y byddai yn ymddeol fel chwaraewr pêl-droed. Cyhoeddiad roedd pawb yn gwybod byddai yn dod rhyw ddydd ond yn syndod ar bnawn gwlyb ym mis Ionawr. Mae ein dyled i Bale yn amhrisiadwy ac yn sicr mae lle mawr i ddiolch iddo am yr holl atgofion.

Diolch Gareth am roi rheswm i ni freuddwydio.
Diolch Gareth am roi Cymru ar y map.
Diolch Gareth am ein hachub sawl gwaith.
Diolch Gareth am newid pêl-droed Cymru.
Diolch Gareth am chwarae 111 gêm i Gymru.
Diolch Gareth am sgorio 41 gôl i Gymru.
Diolch Gareth am arwain ni i Ewro 2016, Ewro 2020 & Cwpan y Byd 2022.
Diolch Gareth am droi breuddwydion yn realiti.
Diolch Gareth am roi popeth i'r ddraig ar dy grys.
Diolch Gareth am yr holl atgofion.
Diolch Gareth am bopeth.
**Mared Rhys Jones**

ISSN 2516-7235
9 772516 723001